# Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Enw'r awdurdod lleol: Cyngor Sir Ceredigion**

**Enw'r swyddog cyfrifol: Alwyn Davies**

**Teitl swydd: Rheolwr Tîm: Chwarae a Gweithgarwch Corfforol Gydol Oes**

**Dyddiad cwblhau: 01.06.2022**

Noder bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae erbyn 30 Mehefin 2022

play wales chwarae cymru

## Cynnal yr Asesiad – Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn ogystal â phennu darpariaeth sylfaenol, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni'r canlynol:

- Nodi bylchau o ran gwybodaeth, darpariaeth, darparu gwasanaethau a gweithredu polisïau
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu tystiolaeth er mwyn rhoi syniad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Amlygu ffyrdd posibl o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
- Mewnbwn a chyfranogiad pob partner sy'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth
- System fonitro a fydd yn cynnwys ac yn gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Nodi enghreifftiau o arfer da
- Mwy o waith partneriaeth wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Nodi camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae ar gael sy'n cyd-fynd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Lluniwyd templed i gefnogi arfarniad corfforaethol o'r materion y mae angen eu hystyried fel y nodir yn y Canllawiau Statudol. Cyflwynir y dangosyddion a restrir ym mhob mater fel dangosyddion enghreifftiol y dylid eu diwygio i ymdrin â materion lleol fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac asesu'r materion a nodir yn Rheoliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a'r Canllawiau Statudol.

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth sylfaenol, gall yr Asesiad gynnwys enghreifftiau o arfer cyfredol y mae'r Awdurdod Lleol am dynnu sylw ato.

Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried strwythuro'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y ffordd ganlynol ac o leiaf fynd i'r afael â'r holl adrannau a nodir.

**Prif ddatganiad**
“Chwarae yw un o’r ffyrdd y mae plant yn dysgu am eu hunain, am y bobl o’u cwmpas, am eu hamgylchedd a’r gymuned lle maen nhw’n byw.” Mae Chwarae yn hanfodol ar gyfer:

- Twf corfforol, emosiynol ac ysbrydol
- Datblygiad deallusol ac addysgol
- Sgiliau cymdeithasol a sgiliau ymddygiad

Bydd plant yn chwarae unrhyw le ac unrhyw bryd os cân nhw’r cyfle. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion a’i bartneriaid gyfrifoldeb i greu'r amodau iawn lle gall plant fanteisio ar gyfleoedd chwarae o safon.

**Cyd-destun**
Cynhaliwyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 gan y Gwasanaeth Canolfannau Lles (lle mae Chwarae bellach yn eistedd). Bu'r Pwyllgor Craffu

Cymunedau sy'n Dysgu yn craffu arno ar 2 Mawrth 2022 cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet.
Dechreuodd y broses asesu gyda hunanasesiad - anfonwyd adrannau perthnasol o'r pecyn cymorth at y timau canlynol o fewn y Cyngor i gael braslun eang o sefyllfa bresennol pob maen prawf yn y pecyn cymorth:

- Perfformiad ac Ymchwil
- Gofal plant
- Economi ac Adfywio
- Teithio Diogel a Llesol
- Iechyd a Diogelwch
- Economi a Gwasanaethau Cymunedol
- Canolfannau Lles
- Theatr Felinfach
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaeth Ysgolion
- Tim Plant Anabl
- Dechrau'n Deg
- Cered

**Gweithio mewn partneriaeth**
Anfonwyd adrannau perthnasol o'r pecyn cymorth at y partneriaid trydydd sector a grwpiau cymunedol canlynol, er mwyn iddynt eu llenwi ar ffurf dadansoddiad o waith y Cyngor a'i bartneriaid:

- DASH
- Y Groes Goch
- RAY Ceredigion
- CAVO
- Gweithredu dros Blant/ Action for Children
- Canolfannau Teulu
- BGC/ PSB
- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
- Sustrans
- Homestart
- Mudiad Meithrin

**Ymgynghori a chyfranogi**
Cynhaliwyd holiaduron gyda phlant mewn gweithgareddau ledled Ceredigion, mewn Canolfannau Lles a chyfleoedd Chwarae penodol sy'n cael eu rhedeg gan RAY Ceredigion. Paratowyd yr holiaduron hyn mewn partneriaeth â'r Uned Gofal Plant er mwyn cynllunio camau gweithredu ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.
Anfonwyd holiadur hefyd at y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae (cynghorau tref a chymuned yn bennaf).

Gan ddeall fod llawer o holiaduron wedi bod yn sgil pandemig Covid, gwnaethom gynnwys adborth ac ymatebion o'r canlynol:

- Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion

- Arolwg 'Coronafeirws a Fi' y Comisiynydd Plant
- Astudiaeth ddichonoldeb ynghylch Darpariaeth Ieuenctid
- Asesiad Sipsiwn a Theithwyr 2020
- Hunanasesiad yr Uned Gofal Plant i Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolwg ar-lein Cymorth i Deuluoedd
- Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018
- Ymgynghoriad y Canolfannau Lles - Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
- Gwella Lles a Thaclo Chaledi - y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc - Is-grŵp y BGC

**Y Cynlluniau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Llesiant**

Mae'r Gwasanaeth Canolfannau Lles wedi datblygu perthynas agos gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Pherfformiad a thrwy hyn mae'r Cynllun Llesiant Lleol wedi gallu llywio a dylanwadu ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Monitro Digonolrwydd Chwarae**
Cyfarwyddwr Arweiniol: James Starbuck
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Elen James
Rheolwr Corfforaethol: Carwyn Young
Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid: Cynghorydd Catrin M.S. Davies

Adrodd: Adroddir am yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.
Monitro Chwarae: Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r aelodaeth yn eang iawn ac yn cynnwys darparwyr gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
Rhoddir diweddariadau hefyd i Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae sy'n cynnwys cynrychiolwyr mewnol ac allanol sydd ynghlwm â'r blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae yng Ngheredigion.

**Mewnweliadau yn sgil y coronafeirws**
Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn nodi bod darparu ac annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn hanfodol yn ystod y cyfnod adfer byr yn dilyn COVID-19; ac mae Arolwg 'Coronafeirws a Fi' Comisiynydd Plant Cymru yn tynnu sylw at bwyntiau pwysig o ran yr angen am gyfleoedd chwarae.
Gofynnodd Arolwg 'Coronafeirws a Fi' Comisiynydd Plant Cymru, Ionawr 2021, a oedd plant Ceredigion yn chwarae'n fwy neu'n llai aml gan eu bod wedi gorfod aros gartref oherwydd coronafeirws. Dywedodd 36% o'r grŵp o blant a ddewiswyd eu bod yn chwarae'n amlach gan eu bod wedi gorfod aros gartref oherwydd coronafeirws, dywedodd 31% eu bod yn chwarae'n llai aml a dywedodd 33% eu bod yn chwarae tua'r un faint.

Yn ogystal gofynnodd yr arolwg Coronafeirws a Fi beth yr oedd plant Ceredigion wedi bod yn ei wneud i gadw corff a meddwl iach.
Y 3 phrif weithgaredd a ddewiswyd oedd:
• Chwarae (100%)
• Ymarfer corff (75%)
• Siarad â ffrindiau a'r teulu (75%)

Y bwriad drwy greu rôl newydd o fewn y Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwarae yw y bydd y camau allweddol a gododd o'r arolygon ac a amlygwyd yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 yn cael eu gweithredu yng nghynllun busnes y swyddog newydd.

**Meini prawf**

Mae'r adran hon yn cynnwys y "materion y mae angen eu hystyried" fel y nodir yn adran 10 o'r Canllawiau Statudol.

**Y golofn Meini Prawf:** mae'n nodi'r data y bydd angen iddynt fod ar gael ac i ba raddau y mae Awdurdodau Lleol yn bodloni'r meini prawf a nodir.

**Y golofn statws RAG:** mae'n darparu cwymplen, lle gall yr Awdurdod Lleol ddangos ei asesiad o p'un a yw'r maen prawf wedi'i fodloni'n llawn, wedi'i fodloni'n rhannol neu heb ei fodloni o gwbl. Mae'r rhain wedi'u nodi'n Goch, yn Oren ac yn Wyrdd sy'n ymddangos fel geiriau yn y gwymplen. *(Yn y golofn "Statws RAG ", dwblgliciwch y gair STATWS. Fe welwch wedyn y ddewislen a fydd yn cynnig meysydd i ddewis o'u plith. Defnyddiwch y fysell sy'n dynodi saeth i lawr hyd nes bydd y statws sy'n ofynnol, sef COCH, OREN, neu WYRDD, ar y brig ac yna cliciwch 'Iawn'.)*

Mae'r statws Coch, Oren, Gwyrdd (RAG) yn adnodd i ddangos y statws yn gyflym ac yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | Bodlonwyd yn llawn |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | Bodlonwyd yn rhannol |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | Ni fodlonwyd |

**Mae'r golofn 2022 yn galluogi'r awdurdod lleol i ddangos trywydd y gwaith drwy ddefnyddio saethau.**

**Y golofn Tystiolaeth i ategu cryfderau:** dylid defnyddio'r golofn hon i roi rheswm dros statws dewisol y meini prawf ac ym mha ffurf y mae'r dystiolaeth.

**Y golofn Diffygion:** dylid defnyddio'r golofn hon i egluro'r meysydd lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn bodloni'r meini prawf yn llawn.

**Y golofn Cam gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu:** dylid defnyddio'r golofn hon i ddangos sut y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cynllunio ar gyfer y Mater hwnnw.

**Yr adran Sylwadau:** ceir rhai cwestiynau penodol ar gyfer pob mater a ddylai roi trosolwg clir o sut y mae'r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â bwriad a gweithrediad y mater hwn fel y nodir yn llawn yn y Canllawiau Statudol. Mae hefyd yn gyfle i nodi unrhyw heriau a sut y gellir eu goresgyn.

**Mater A: Poblogaeth**

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar ddata poblogaeth a data demograffig awdurdod lleol Ceredigion.

**Statws RAG ar gyfer Mater A: OREN**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

**Y boblogaeth a newid yn y boblogaeth**

Mae Ceredigion yn cwmpasu arwynebedd o 1,900km ac mae'r rhan fwyaf o'i thirwedd yn dir amaethyddol, yn rhostir ac yn goedwigoedd, gyda'r ucheldiroedd i'r dwyrain yn ffurfio rhan helaeth o Fynyddoedd Cambria.
Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif mai 72,895 (2020) yw maint poblogaeth Ceredigion, sef y boblogaeth isaf ond tair yng Nghymru. Mae poblogaeth Ceredigion wedi codi a disgyn ers 2001, ac amcangyfrifir iddi ostwng bob blwyddyn ers iddi gyrraedd uchafbwynt o 75,900 yng nghanol 2012. Mae nifer y marwolaethau wedi bod yn gyson uwch na nifer y genedigaethau bob blwyddyn, er bod y boblogaeth wedi tyfu yn ystod rhai blynyddoedd yn sgil mewnfudo net (er enghraifft, yn ystod y cyfnod 2009–2012).

Ers 2013, cafwyd allfudiad net sydd wedi peri i'r boblogaeth leihau. Mae amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru a ddangosir yn Ffigur 1.1 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn parhau i ostwng dros y 25 mlynedd nesaf, o 72,895 yn 2021 i 68,745 yn 2043, sef gostyngiad o 6% a gostyngiad amcanestynedig o tua 4,150 o bobl. Er bod disgwyl i'r boblogaeth leihau, mae disgwyl i boblogaeth hŷn Ceredigion (65+) dyfu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd nesaf (cynnydd o 23.7% neu +4,305 o bobl), tra mae disgwyl i'r boblogaeth oedran gweithio (16–64) a'r boblogaeth o blant (0–15) ostwng.

| Oedran | 0-5 oed | 6-10 oed | 11-15 oed | 16-18 oed | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau plant *(amcangyfrif canol blwyddyn 2020)* | 3,592 | 3,617 | 3,565 | 2,231 | 13,031 |

**Cefndir ethnig**

Mae pobl ag ethnigrwydd ac eithrio Gwyn Prydeinig a Gwyddelig wedi'u crynhoi o amgylch y ddwy brifysgol ac maent yn meddu ar gymwysterau uwch (mae 47% o'r bobl 16 oed a throsodd yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster uwch, a dim ond 9% sydd heb gymwysterau, o'i gymharu â 27% a 21% yn achos y boblogaeth Gwyn Prydeinig a Gwyddelig) ac maent yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn galwedigaethau

proffesiynol uwch (11% o'r bobl ag ethnigrwydd arall) neu'n fyfyrwyr (42%) o'i gymharu â 7% ac 16% o'r boblogaeth Gwyn Prydeinig a Gwyddelig. Mae'r Cyfrifiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2011 yn dangos bod 96.7% o boblogaeth Ceredigion yn wyn a bod 3.3% yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (cymunedau ethnig lleiafrifol). Gweler y tabl isod. Mae mwyafrif y boblogaeth o bobl wyn (93.8%) yn wyn Prydeinig neu Wyddelig, gyda thros 2,000 yn nodi eu bod yn wyn 'arall'. Mae'r gyfran fwyaf o'r bobl hyn yn dod o Wlad Pwyl. Mae poblogaeth cymunedau ethnig lleiafrifol Ceredigion yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn bennaf (1,100), ac yna Cymysg/aml-ethnig (700), Grŵp ethnig arall (400) a Du/Du Prydeinig (300).

| | Gwyn | Cymysg/grwpiau aml-ethnig | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/Du Prydeinig | Grŵp ethnig arall |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp ethnig** | 96.7% | 1.0% | 1.4% | 0.4% | 0.5% |

## Iaith

Bu i'r Asesiad Llesiant Lleol nodi bod siarad Cymraeg yn bwysig iawn o ran yr ymdeimlad o gynhwysiant a hunaniaeth sy'n gallu cael canlyniadau cadarnhaol o ran llesiant. Mae'r gallu i siarad Cymraeg hefyd yn ofynnol ar gyfer llawer o swyddi, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Tybir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac er gwaethaf poblogaeth fawr o fyfyrwyr a lefelau mudo sylweddol, roedd canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf yn 2011 yn dangos bod 47.3% o drigolion Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg. Hon yw'r ganran uchaf ond dwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, tu ôl i Wynedd (64.3%) ac Ynys Môn (56.1%).

| Iaith | 3-4 oed | 5-9 oed | 10-14 oed | 15-19 oed |
|---|---|---|---|---|
| % y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg fesul grŵp oedran *(Cyfrifiad 2011)* | 58.3% | 81.6% | 82.8% | 45.4% |

*Sylwch: mae'r cohort o blant a phobl ifanc 15-19 sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynnwys pobl ifanc sy'n mynd i brifysgolion Ceredigion*

Rhwng y naill Gyfrifiad a'r llall, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn parhau i gadw llygad ar sgiliau Cymraeg. Mae gwybodaeth ac astudiaethau eraill o ran y Gymraeg yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi bod yn cynyddu. Er enghraifft, datgelodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2014 fod 52.7% o boblogaeth Ceredigion yn siarad Cymraeg, ac roedd y ganran hon wedi cynyddu i 60.9% erbyn 2021. Mae canran y trigolion sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd yng Ngheredigion wedi cynyddu hefyd dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny o 43% yn 2016 i 45% yn 2021.

**Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Cyfran y bobl tair oed a throsodd sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion**

| 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 52.7% | 54.0% | 54.9% | 57.6% | 58.9% | 59.2% | 60.9% | 60.9% |

Yn genedlaethol, mae canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod nifer y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi bod yn cynyddu ers 2010. O ran y flwyddyn diwethaf (y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021), dangosodd yr arolwg fod 29.2% o'r bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn gyfwerth â thua 884,300 o bobl, ac mae 0.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o tua 17,900 o bobl.

Mae lefel y sgiliau Cymraeg yn amrywio'n ddaearyddol yn y sir gan fod gwahanol ffactorau cymdeithasol ar waith. Mae cyfran y trigolion sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dueddol o fod yn uwch mewn aneddiadau mwy gwledig, fel Tregaron (56%), na'r ardaloedd mwy trefol fel Aberystwyth Penglais (sydd wedi'i lleoli yn Ardal Cymuned Gogledd Aberystwyth) (18%). Gellir priodoli hyn i'r gyfran fawr o fyfyrwyr sy'n byw yn Aberystwyth (tua 39% o boblogaeth Aberystwyth) a all fod yn astudio yn y Brifysgol ond yn dod o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig (y DU) neu o dramor.

Mae sgiliau Cymraeg hefyd yn amrywio o'r naill grŵp oedran i'r llall. Mae pobl iau yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na phobl hŷn Ceredigion. Mae'n debygol y gellir priodoli hyn i'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion. Mae'r sgiliau bywyd ychwanegol sy'n deillio o addysg cyfrwng Cymraeg yn estyn i bob agwedd ar lesiant.

**Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion fesul grŵp oedran, Cyfrifiadau 2001 a 2011**

| | 3-15 oed | 16-64 oed | 65+ | Pawb dros dair oed |
|---|---|---|---|---|
| **Yn gallu siarad Cymraeg – Cyfrifiad 2001** | 8,232 **(77.2%)** | 22,195 **(45.9%)** | 13,868 **(54.0%)** | 37,918 **(52.0%)** |
| **Yn gallu siarad Cymraeg – Cyfrifiad 2011** | 7,175 **(78.4%)** ↑ | 20,503 **(41.9%)** ↓ | 7,286 **(46.4%)** ↓ | 34,964 **(47.3%)** ↓ |

*Ffynhonnell: Stats*

## Y gymuned Sipsiwn a Theithwyr

Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod lleol yn darparu unrhyw safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a dim ond un safle preifat awdurdodedig sydd ar gael yn y sir. Ni cheir unrhyw ddarpariaeth barhaol ar gyfer Siewmyn ychwaith. Ceir tair aelwyd o Sipsiwn a Theithwyr yr ydym yn gwybod amdanynt ac y mae eu hanghenion o ran llety yn cael eu diwallu ar hyn o bryd drwy lety brics a morter. Cydnabyddir y gall y ffigur hwn fod yn uwch a bod angen ymgysylltu ymhellach â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd nifer o fentrau eu llunio i ddatblygu'r ymgysylltu hwnnw ac i greu deialog barhaus, ond bu i ddyfodiad pandemig COVID-19 yn ystod 2020/21 effeithio ar y cynnydd yr oedd modd ei wneud oherwydd bod cyfyngiadau ar waith.

**Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Asesiad Llesiant Lleol**

Gall nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru baratoi Asesiad Llesiant Lleol unwaith bob pum mlynedd. Bu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion gwblhau fersiwn ddrafft ei Asesiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2021, ar ôl mynd ati i ddadansoddi data ac i ymgysylltu ar raddfa helaeth yn ystod yr haf 2021. Defnyddir canfyddiadau'r Asesiad hwnnw i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Mae'r Asesiad Llesiant Lleol yn dangos bod plant yng Ngheredigion yn teimlo cysylltiad rhyngddynt a'r amgylchedd naturiol a bod eu hagwedd tuag at chwarae awyr agored yn gadarnhaol. Rhennir sawl agwedd ar hyn drwy'r Asesiad hwn. Drwy ein gwaith i ymgysylltu â phobl iau, tynnwyd sylw at eu dyhead i gael mwy o ardaloedd chwarae a chyfleusterau hamdden yng Ngheredigion. Yn nigwyddiad rhanddeiliaid grŵp cyfeirio GUS (Give Us Support) a hwyluswyd gan RAY Ceredigion, ailadroddwyd y pryderon o ran digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Bu i'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r grŵp hwn nodi fod prinder pethau i'w gwneud yn eu hardal oherwydd nad oes neuadd na pharc lle y gallant gwrdd â phobl eraill. Dywedodd un nad oedd yn teimlo'n rhan o'i gymuned oherwydd nad oes unrhyw beth i'w wneud. Mynegwyd y pryderon hyn hefyd mewn digwyddiad arall i randdeiliaid gyda Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion. Yn y fforwm hwn, y problemau cymdeithasol a diwylliannol amlwg oedd prinder cyfleusterau chwarae a hamdden i bobl ifanc, rhywbeth a oedd, yn ei dro, yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol.

Yn 2020/21, dangosodd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) fod 2,433 o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig yng Ngheredigion. Yn 2020, nododd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Asesiad o'r Boblogaeth) ei bod yn amcangyfrif bod 1,107 o blant yng Ngheredigion â salwch/anabledd hirdymor. Mae'r amcanestyniadau yn dangos y bydd y ffigur hwn yn gostwng i 882 erbyn 2043.

Sylwch y bydd rownd gyntaf canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2022, a hynny ar sail cyfrifiadau yn hytrach nag arolygon. Bryd hynny, bydd sylfaen yr holl ddata demograffig a'r amcanestyniadau o'r boblogaeth yn cael ei hailosod.

**Beth sydd wedi newid o ran y tueddiadau demograffig ac o ran y boblogaeth ers Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019?**

Amcangyfrifir y bydd poblogaeth gyffredinol Ceredigion yn gostwng 6% dros y 25 mlynedd nesaf, a hynny o 72,895 yn 2021 i 68,745 yn 2043. O blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, rhagwelir mai ym mhoblogaeth Ceredigion y bydd y gostyngiad canrannol mwyaf yn digwydd yn ystod y cyfnod 2018-2043. Erbyn 2028, mae'r pyramidau poblogaeth yn dangos y bydd y gostyngiadau amcanestynedig mwyaf yn y grŵp oedran gweithio yn digwydd ymhlith rhai 22-28 a 45-54 oed. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i raddau helaeth i allfudiad mewnol (yn y DU) y grwpiau hyn i wahanol rannau o'r DU. Mae hyn yn cynnwys y gyfran fawr o fyfyrwyr yng Ngheredigion sy'n dueddol o adael yr ardal ar ôl graddio i achub ar gyfleoedd cyflogaeth ac addysg tu allan i'r sir. Mae i'r newidiadau demograffig hyn ganlyniadau pwysig o ran y boblogaeth oedran gweithio, a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar yr economi ac yn benodol ar yr arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol. At hynny, disgwylir y bydd y boblogaeth sy'n heneiddio'n rhoi mwy o straen ar ein gwasanaethau iechyd lleol.

Mae'n broblem wybyddus a drafodir yn aml fod llawer o bobl ifanc yn gadael y sir i achub ar gyfleoedd mewn rhannau eraill o Gymru neu ymhellach i ffwrdd ledled y DU. Gellir priodoli hyn yn rhannol i ostyngiad yn nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus, swyddi sydd bob amser wedi bod yn rhan bwysig o economi Ceredigion, ond hefyd i'r ffaith eu bod yn chwilio am gyfleoedd gyrfa ac am swyddi uwch eu gwerth.

**Sut yr aeth/y bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i ddefnyddio'r data sydd ganddo am y boblogaeth i gynllunio cyfleoedd chwarae digonol yn lleol?**

Bu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro'n cydweithio ar ymarfer casglu data pen bwrdd i ddod i ddeall llesiant yn y tair ardal. Ystyriwyd ystod eang o ffynonellau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cynhaliodd Ceredigion hefyd weithdai rhithiol â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael gafael ar ddata ac arsylwadau lleol o ran y dadansoddiad o'r sefyllfa a'r ymateb, a hynny i helpu i ddilysu'r data a'r themâu. Cafodd yr asesiad ei arwain gan yr egwyddor o ymgysylltu i sicrhau mai barn ein dinasyddion oedd y prif sbardun dros lunio'r ddogfen, gan sicrhau eu bod wrth galon y Cynllun Llesiant nesaf. Cafodd chwarae ei gynnwys yn yr asesiad hwn fel canlyniad llesiant. Roedd y canlyniadau'n dangos:

- bod agweddau plant Ceredigion tuag at **chwarae awyr agored** yn gadarnhaol;
- yn ystod y cyfnod adfer byrdymor yn sgil COVID-19, ei bod yn hanfodol darparu cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a'u hannog i wneud hynny;
- drwy ein gwaith i ymgysylltu â phobl iau, tynnwyd sylw at eu **dyhead i gael mwy o ardaloedd chwarae a chyfleusterau hamdden** yng Ngheredigion.

Yn flaenorol, rydym wedi canolbwyntio ar ardaloedd Dechrau'n Deg a'n prif drefi, ac rydym yn dibynnu ar adborth gan randdeiliaid i fynd i'r afael â phroblemau sy'n codi mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn caniatáu inni roi sylw i ardaloedd cymharol fach lle ceir angen, ond mae'n golygu ein bod yn dueddol o weithio mewn ffordd adweithiol yn hytrach na rhagweithiol – bydd hyn yn parhau.

Rydym yn cyfathrebu'n dda â'n rhanddeiliaid ac rydym yn cynllunio cyfleoedd chwarae ar y cyd â darparwyr gofal plant a darparwyr cyfleoedd chwarae, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, cynghorau tref a chymuned, a rhieni/plant/pobl ifanc.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**

- Mae **tlodi plant** yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac mae'r sir wedi wynebu'r cynnydd canrannol mwyaf ond un yn genedlaethol ers 2014/15. Yng Ngheredigion, mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi. Mae hon yn **broblem ranbarthol** bwysig sy'n effeithio ar Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro hefyd.
- Mae angen ymgymryd â mwy o waith ymchwil i ddeall effaith lwyr **pandemig COVID-19** a'r ynysu a fu'n gysylltiedig ag ef ar **lesiant plant** mewn gwahanol gymunedau yng Ngheredigion.
- Dim ond cyllid cyfyngedig a oedd ar gael i ariannu cyfleoedd chwarae pur (cyn mentrau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles). Mae ein poblogaeth yn wasgaredig iawn ac mae'n anodd darparu ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.
- Yn yr un modd, mae plant ag anghenion amrywiol (e.e. gofalwyr ifanc, plant a phobl ifanc ag anableddau) wedi'u gwasgaru ledled y sir ac mae angen cryn dipyn o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion chwarae a hamdden.

**Sut mae eu goresgyn?**

- Mae'r Gwasanaeth Chwarae wedi symud i adran newydd yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar. Erbyn hyn, mae'n rhan o Wasanaeth Canolfannau Llesiant y Porth Cymorth Cynnar sy'n rhan o'r Model Gydol Oes a Llesiant. Y gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid allweddol mewnol a'r grwpiau a dargedir, yn ogystal â'r trydydd sector.
- Cafodd mentrau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles effaith fawr ar ymyriadau wedi'u targedu yng Ngheredigion. Roedd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau, pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a phobl ifanc sydd wedi dadrithio.
- Bu inni hefyd ariannu darpariaeth chwarae deithiol i gryfhau'r ddarpariaeth gymunedol, er enghraifft, drwy ddarparu hyfforddiant am ddim drwy'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae (grŵp rhithiol o'r rheini sy'n berchen ar ardal chwarae yn y sir, y rheini sy'n rheoli ardal chwarae yn y sir, neu'r rheini â diddordeb mewn chwarae).

**Sylwadau**

**Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data ar sut mae'r Awdurdod Lleol a phartneriaid yn bwriadu cynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog plant i chwarae a chymdeithasu gyda'i gilydd.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell | OREN | OREN | Yn 2019, cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb o'r cyfleoedd i bobl ifanc ac unigedd gwledig ymhlith pobl ifanc Ceredigion, a gosododd y canfyddiadau sylfaen ar gyfer yr angen i sicrhau cyfleoedd allgymorth symudol ar gyfer pobl ifanc mewn cymunedau gwledig. Bu inni sicrhau arian drwy Grant Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol a'i ddefnyddio i brynu 'bws ieuenctid symudol'.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn darparu cyfleoedd allgymorth i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig drwy gynnal gweithgareddau | Caewyd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth i bobl ifanc yn ystod y pandemig, ac ni fu iddi ailagor hyd nes bod y cyfyngiadau'n caniatáu i hynny ddigwydd.<br><br>Mae nifer o glybiau ar ôl yr ysgol, yn ogystal â darpariaeth yn ystod y gwyliau, wedi cau'n barhaol neu'n dal i gynllunio i ailagor ar ôl y pandemig.<br>Mae nifer y ceisiadau i fanteisio ar y | Llunio rhaglen waith ar gyfer y 'bws ieuenctid symudol'.<br><br>Cydweithio ag ysgolion a lleoliadau gofal plant/chwarae yn yr ardaloedd gwledig hyn i weld a oes ganddynt ddiddordeb mewn datblygu darpariaeth newydd neu ehangu'r ddarpariaeth bresennol.<br><br>Ystyried y posibilrwydd o gofrestru cyfleusterau'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant ag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn i |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | anffurfiol/mynediad agored neu gymorth llesiant.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn darparu gweithgareddau ar ôl oriau'r ysgol mewn cymunedau gwledig i sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau.<br><br>Mae Ceredigion yn darparu gwaith ieuenctid/cyfleoedd dros dro mewn ardaloedd gwledig, gan roi cyfle i bob person ifanc gymryd rhan.<br><br>Mae Gwasanaeth Canolfannau Llesiant y Cyngor wedi cydweithio â'r Cynllun Ysgolion Iach i ddylunio marciau cynhwysol ar gyfer meysydd chwarae. Mae 19 ysgol wedi llwyddo i gael gafael ar arian grant i osod pum marc ar eu safleoedd. Erbyn hyn, mae pob un o'r ysgolion wedi mabwysiadu Polisi Chwarae fel rhan o'r rhaglen. O ganlyniad i'r rhaglen hon, mae'r Rhaglen | Cynllun Ymuno drwy'r Adran Gofal Plant wedi lleihau. Os na all y plant gael mynediad i'r ardaloedd chwarae hyn, ni fyddant yn elwa ar yr adnoddau hyn.<br><br>Ceir llai o ddarpariaeth, neu ddim darpariaeth o gwbl, mewn rhai ardaloedd gwledig.<br><br>Mae cludiant i'r ddarpariaeth ac ohoni yn peri anhawster i rieni sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Cafwyd oedi cyn gosod y marciau ar feysydd chwarae oherwydd na roddwyd caniatâd i'r cwmni fynd i safleoedd ysgolion tra'r oedd | deuluoedd allu cael gafael ar dalebau gofal plant ar gyfer gwersylloedd gwyliau.<br><br>Darparu gwybodaeth i ysgolion am ddarparwyr gofal plant/chwarae preifat a allai gasglu plant.<br><br>Bydd y Gwasanaeth Chwarae'n cynnal cymorthfeydd ac yn helpu cynghorau cymuned i wneud cais i gael grantiau perthnasol i'w cynorthwyo i gynnal a chadw parciau mewn cymunedau lleol. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ysgolion Iach eisoes wedi darparu enghreifftiau o amseroedd chwarae syml o ansawdd i athrawon ysgol. At hynny, mae cynlluniau ar y gweill i helpu ysgolion i ddeall chwarae rhannau rhydd a chwarae rhydd.<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill i 12 meithrinfa arall ennill arian grant i osod marciau maes chwarae yn 2022-23.<br><br>Ceir nifer o Gylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, meithrinfeydd, clybiau'r Urdd, clybiau'r Ffermwyr Ifanc, clybiau'r Sgowtiaid, ac ati, yn enwedig yn ein hardaloedd gwledig.<br><br>Mae nifer fawr o'n cynghorau tref a chymuned yn berchen ar ardal chwarae â chyfarpar, ac yn rheoli ardal o'r fath, yn eu tref neu gymuned. Mae'r awdurdod lleol yn hwyluso Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae i'w cynorthwyo. | cyfyngiadau COVID yn dal i fod ar waith. Mae'r gwaith o osod y marciau'n dal i fynd rhagddo. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Gaeaf Llawn Lles wedi dyfarnu arian grant i 11 cyngor cymuned gwledig i gynnal / addasu / gwella eu parciau a'u hardaloedd chwarae.<br><br>Mae saith o ystadau tai Barcud hefyd wedi cael cymorth ariannol. | | |
| | | | | Mae gan RAY Ceredigion dîm o weithwyr chwarae cymwysedig sy'n gallu darparu hyfforddiant gwaith chwarae i staff a gwirfoddolwyr newydd o Lefel 1 i Lefel 3.<br><br>Mae Canolfannau i Deuluoedd, RAY Ceredigion, Canolfannau Plant Integredig a Chanolfan Plant JigSo yn darparu cyfleoedd chwarae ac yn cynnal cyrsiau sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd chwarae gyda'ch plentyn. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn ein trefi (Llandysul, Aberteifi, Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron). Ceir Canolfan i | Bu i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ariannu RAY Ceredigion i gynnal sesiynau chwarae mynediad agored fel modd o ymgysylltu â theuluoedd 'anodd eu cyrraedd'. O 2023, defnyddir yr arian hwn yn hytrach i ddarparu mwy o gyfleoedd o leoliadau fel Canolfannau i Deuluoedd, Canolfan RAY Ceredigion, Canolfannau Plant Integredig a Chanolfannau Plant. Mae RAY Ceredigion | Sicrhau bod darpariaeth cymorth i deuluoedd y Canolfannau i Deuluoedd, RAY Ceredigion, y Canolfannau Plant Integredig a Chanolfan Plant JigSo yn parhau i ganolbwyntio ar ddulliau sy'n seiliedig ar chwarae.<br><br>Datblygu'r tîm Chwarae a Gweithgarwch Corfforol Gydol Oes er mwyn i'r Cyngor allu darparu sesiynau chwarae mynediad agored ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon a hamdden |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Deuluoedd yn y Borth hefyd, ac fe gynhelir sesiynau allgymorth yn Llechryd, Tal-y-bont, Bow Street, Cellan a Llannon. Mae Dechrau'n Deg yn cynnal sesiynau tebyg yn Aber-porth a Llanarth.<br><br>Clywodd ymgynghoriad y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae gan 25 o grwpiau oedd yn cynrychioli parciau ac ardaloedd chwarae. Roedd 12 yn wledig, 9 ohonynt ddim yn wledig, a 4 yn rhannol wledig. | yn cael gafael ar arian o ffynonellau eraill i dalu am sesiynau chwarae mynediad agored. | mwy traddodiadol ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Parhau i ariannu ac i hyrwyddo'r Cynllun Ymuno ymhlith lleoliadau gofal plant/chwarae, a sicrhau bod lleoliadau sy'n cofrestru o'r newydd yn y sector gofal tu allan i oriau ysgol yn gwybod am y Cynllun Ymuno.<br><br>Ymweld â phob ardal chwarae i weld pa waith mynediad a chynnal a chadw sy'n ofynnol. Cydweithio â chynghorau tref a chymuned i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.<br><br>Mae Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar newydd yn ei swydd ac felly gall gynorthwyo'r darparwyr gofal plant/chwarae i ddeall y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | a'i roi ar waith, yn ogystal â darparu modiwlau hyfforddi penodol.<br><br>Bydd y Model Gydol Oes a Llesiant newydd yn sicrhau bod modd i arbenigwyr o wahanol wasanaethau gydweithio. |
| | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant Cymraeg eu hiaith | OREN | GWYRDD | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn rhoi prosiectau ar waith i gefnogi cyfleoedd i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Prosiect Cymraeg 2050 yn enghraifft o hyn.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd drwy gynnwys menter iaith Cered a'r Urdd yn ei waith i ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel gweithgareddau awyr agored, coginio, grwpiau dawns ac ati. | Mae angen dod i ddeall y dull trochi a ddefnyddir gan Mudiad Meithrin yn well i wella iaith plant. Mae llawer o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn rhai sydd wedi'u cynllunio a'u strwythuro yn hytrach na chyfleoedd chwarae pur. Yr her o hyd yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n ddigon cyfforddus a hyderus i gyfathrebu yn Gymraeg pan | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Darperir achrediadau yn ddwyieithog, ochr yn ochr â'r holl adnoddau hyrwyddo.<br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion hefyd yn darparu cymorth i saith Cytundeb Lefel Gwasanaeth â Gwasanaethau Cymorth. I sicrhau bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn darparu gwasanaeth dwyieithog, un targed y disgwylir iddynt ei fodloni yw nifer y sesiynau a ddarperir i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y Gymraeg.<br><br>Mae'r timau lleferydd ac iaith wedi darparu byrddau cyfathrebu dwyieithog mewn nifer o ardaloedd chwarae. Mae hyn yn cynorthwyo dysgwyr Cymraeg, siaradwyr Cymraeg a phlant di-eiriau.<br><br>Mae rhai ysgolion hefyd wedi prynu byrddau cyfathrebu.<br><br>Mae'r holl ddeunydd sy'n ategu'r marciau meysydd | fyddant am wneud hynny. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br><br>Mae'r rhaglenni Teuluoedd Actif, Codau QR a Ffit yn 5 a luniwyd gan Ceredigion Actif (Canolfannau Llesiant) yn cael eu darparu gan dimau o staff y mae pob aelod ohonynt yn siarad Cymraeg.<br><br>Mae gan y rhan fwyaf o'r lleoliadau gofal plant cofrestredig a phob darparwr a gomisiynir gan yr awdurdod lleol bolisi iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Uned Gofal Plant yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal plant, er enghraifft, drwy rannu gwybodaeth am apiau, gêmau, jig-sos Cymraeg ac ati.<br><br>Ar raglenni gwyliau'r Canolfannau Llesiant, gall o leiaf un aelod staff ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r holl ohebiaeth a anfonir at y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae ynghylch y cymorth a'r arian sydd ar gael yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br>Mae'r holl wybodaeth a ffurflenni cais ar gyfer Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br><br>Mae mwyafrif y rhaglenni a gynhelir drwy'r cynlluniau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.<br><br>Mae ein menter iaith, Cered, yn cynnal llawer o weithgareddau i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, e.e. sesiynau jamio, gweithgareddau galw heibio mewn digwyddiadau cymunedol, Minecraft yn Gymraeg, clwb theatr a pherfformio, gweithdai roc, a Ras yr Iaith. Mae Cered hefyd yn hyrwyddo Siarter y Gymraeg | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i annog sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddarparu hyfforddiant i helpu staff i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg. Mae Cered wedi paratoi deg sach straeon Cymraeg i'w rhoi ar fenthyg am gyfnod i warchodwyr plant.<br>Mae Cered wedi llunio cynllun Siarter Iaith mewn Ysgolion – Ceri Siarad – i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.<br><br>Sicrhau bod darpariaeth cymorth i deuluoedd y Canolfannau i Deuluoedd, RAY Ceredigion, y Canolfannau Plant Integredig a Chanolfan Plant JigSo yn parhau i ganolbwyntio ar ddulliau sy'n seiliedig ar chwarae.<br><br>Datblygu'r tîm Chwarae a Gweithgarwch Corfforol Gydol Oes er mwyn i'r Cyngor allu darparu sesiynau chwarae mynediad agored ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon a hamdden mwy traddodiadol ar gyfer pobl ifanc. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant sydd o gefndir diwylliannol gwahanol | OREN | OREN | Rydym yn awyddus iawn i ddeall ac i fodloni gofynion chwarae plant o gefndiroedd diwylliannol gwahanol, e.e. mae RAY Ceredigion yn darparu cyfleoedd chwarae a fynychir gan blant o ystod eang o oedrannau, o fabanod i rai yn eu harddegau, plant o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol amrywiol a phlant ag ystod eang o alluoedd – mae'r math hwn o chwarae'n gyfle i'r plant greu'u chwarae eu hunain, felly mae'n caniatáu i'r chwarae adlewyrchu gwahaniaethau diwylliannol, ac i blant o wahanol gefndiroedd diwylliannol ystyried yr hyn sy'n debyg rhyngddynt a'r hyn sy'n wahanol drwy chwarae.<br><br>Mae'r awdurdod lleol wedi croesawu nifer o deuluoedd o dan y Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid. Yr amcan yw eu cynorthwyo i ddod yn rhan o'r gymuned. Mae gweithwyr cymorth i ffoaduriaid yn mynd â'r teuluoedd i ardaloedd chwarae a digwyddiadau | Mae'r gweithwyr cymorth i ffoaduriaid yn dweud y gall fod yn anodd cael hyd i weithgareddau ar gyfer un rhyw yn unig pan fydd merched a bechgyn yn troi'n ddeg oed a bod eu crefydd/diwylliant yn eu gwahardd rhag cymysgu. Er enghraifft, byddai sesiynau nofio i ferched yn unig yn dda; pan fyddant yn troi'n ddeg oed, mae arnynt angen sesiynau ar wahân neu nid ydynt yn nofio o gwbl.<br><br>Ar wibdeithiau ac yn ystod gweithgareddau, gall fod yn anodd cael hyd i fwyd halal.<br><br>Gall gweithgareddau fel syrffio a marchogaeth fod yn | Cynorthwyo darparwyr gweithgareddau i fod yn ymwybodol o anghenion teuluoedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, ac i ddiwallu'r anghenion hynny.<br><br>Mae Ceredigion yn groesawgar ac yn gyfeillgar pan fydd pobl yn cyrraedd digwyddiadau. Yn aml, mae'r rhwystrau'n ymwneud â chael hyd i'r digwyddiadau a gwybod y bydd rhywun yn cael croeso ynddynt – mae angen gwneud mwy i dargedu gwahoddiadau at bobl o gefndiroedd diwylliannol eraill ac i baratoi rhieni/plant er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn mynd i ddigwyddiad. Os cynhelir diwrnod gweithgareddau cyffredinol, darperir lle i ofyn i bobl pa weithgaredd y byddent yn hoffi iddo gael ei gynnwys. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cymunedol er mwyn i'r plant chwarae ag eraill sy'n byw yno ac i'r teuluoedd weld pa gyfleoedd sydd ar gael i chwarae. Bu i'r Cyngor gyfieithu prif ddogfennau polisi a chofrestru lleoliadau i sicrhau bod teuluoedd yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn ddiogel.<br><br>O ganlyniad i'r Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid, mae Llyfrgell y Dref Aberystwyth yn darparu llyfrau i blant mewn Arabeg erbyn hyn. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y gymuned ehangach yn ogystal â theuluoedd sy'n ffoaduriaid.<br>O bryd i'w gilydd (yn ystod gwyliau'r ysgol fel arfer), caiff pwll nofio lleol ei logi ar gyfer sesiynau i fenywod yn unig – telir am hyn gan y Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn darparu cymorth ar gyfer saith Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar sail flynyddol | anodd oherwydd bod cyswllt corfforol rhwng y darparwyr a'r bobl ifanc tra maent yn cael eu dysgu. Gall y gweithwyr cymorth helpu i gael hyd i fwyd halal ac egluro am gyswllt corfforol, ond nid yw rhai darparwyr yn gwybod am y pethau hyn. Felly, gall fod nad yw'r darparwyr mor hygyrch ag y maent yn ei dybio. Mae'r Rhaglen Ffoaduriaid yn cael adnoddau a chymorth da iawn. Roedd hi'n hawdd cael adborth gan yr holl blant eraill niferus o gefndiroedd diwylliannol gwahanol (mewn un ysgol gynradd leol, ceir plant o 38 o wledydd a siaredir 27 o ieithoedd gwahanol). | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu cyfleoedd eang ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd diwylliannol gwahanol.<br><br>Cafodd y Groes Goch arian drwy'r cynllun Gaeaf Llawn Lles i gynorthwyo teuluoedd sy'n ffoaduriaid.<br><br>Dywedodd y Groes Goch hefyd fod darpariaeth gyffredinol ar gael – cynlluniau chwarae yn yr haf, clybiau ar ôl yr ysgol, dosbarthiadau nofio – a bod y rheini sy'n gweithredu'r cynlluniau wedi croesawu a chynnwys unrhyw blant o'r Rhaglen Adsefydlu sydd wedi cofrestru i fynd i'r digwyddiadau. | Dywedodd y Groes Goch fod cyfathrebu da yn hollbwysig:<br>1. Mae dod i wybod am yr hyn sy'n digwydd yn anodd (yn enwedig os nad ydych yn defnyddio Facebook).<br>2. Mae trefn gofrestru rhai cynlluniau'n gymhleth, ac nid oes llawer o argaeledd neu ceir cystadleuaeth am adnoddau, er enghraifft, sesiynau dysgu nofio. Os ceir ras i gofrestru cyn i'r lleoedd gael eu llenwi, mae ymgeiswyr ail iaith dan anfantais.<br>Hefyd, nid yw rhai diwylliannau'n byw yn ôl y cysyniad o 'ymrwymo ymhell ymlaen llaw' i weithgaredd hamdden. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 3. Cludiant / goruchwyliaeth. Gall gweithgareddau fod yn llai deniadol os oes raid i bobl deithio ar gludiant cyhoeddus, yn enwedig os oes raid casglu/gollwng. Gall rhywun (nad yw'n siaradwr cynhenid) fod yn ofnus, a gall fod yn ddrud, gall gymryd llawer o amser, a gall weithiau fod yn amhosibl heb gar. | |
| | Deellir a bodlonir gofynion chwarae ac anghenion cymorth plant anabl | OREN | OREN | Mae clybiau ieuenctid Ceredigion yn darparu cyfleoedd cyffredinol ac maent yn agored i bobl ifanc o bob cefndir a gallu. Cafodd un ganolfan ieuenctid ei haddasu yn 2018 i sicrhau bod mynedfa addas i berson ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn ac yn mynd i'r ganolfan.<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid wedi cael Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd i sicrhau bod | Mae angen rhoi sylw i waith cynnal a chadw ac i broblemau mynediad mewn rhai ardaloedd chwarae.<br><br>Gall cyfarpar sydd wedi torri neu sy'n swnllyd orlwytho synhwyrau plant ag anghenion ychwanegol. | Mae Cyngor Sir Ceredigion yn mynd ati i ennill Achrediad Aur Insport drwy Chwaraeon Anabledd Cymru. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfleoedd yn hygyrch i bawb. Mae'r wybodaeth a ddysgwyd drwy'r hyfforddiant hwnnw wedi galluogi'r gweithwyr ieuenctid i adolygu eu ffurflenni aelodaeth blynyddol (drwy ddiwygio'r derminoleg) a'u posteri hysbysebu er mwyn iddynt fod yn fwy cynhwysol o ran anabledd.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi meithrin perthynas dda â gwasanaethau, clybiau a chyfleusterau cludiant i sicrhau bod modd inni ddarparu ystod eang o weithgareddau lle cynigir cludiant sy'n addas i'w hanghenion i'r holl bobl ifanc er mwyn iddynt fynd i weithgareddau.<br><br>Mae pum ysgol uwchradd wedi cwblhau sesiynau wythnosol Pêl-fasged Parth Cynhwysol dros y pum mlynedd diwethaf, gyda 70 o blant yn cymryd rhan ynddynt ar gyfartaledd, a llawer o'r plant hynny ag anabledd yn eu coesau. Mae hyn yn arwain | Nid oes digon o arian ar gael i ddarparu gofal cofleidiol i blant y mae angen staff ychwanegol arnynt er mwyn iddynt fynd i ddarpariaeth feithrin ran-amser mewn ysgol a chael gofal plant rhan-amser weddill y dydd. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | at gêmau ledled y sir bob blwyddyn. Yn 2019, teithiodd Ysgol Uwchradd Aberaeron i Nottingham i gymryd rhan yn rowndiau terfynol y DU.<br><br>Mae tîm Pobl Ifanc Egnïol Ceredigion yn darparu rhaglen arweinyddiaeth gynhwysol o'r enw Play Unified i bum ysgol uwchradd ac i ddwy uned AAA mewn ysgolion cynradd.<br><br>Cyn COVID, byddai'r tîm Pobl Ifanc Egnïol hefyd yn cynnal gwyliau chwaraeon / gweithgarwch corfforol anabledd yng ngogledd a de'r sir.<br><br>Mae holl staff y Canolfannau Llesiant wedi cael Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd.<br><br>Mae ein Llysgenhadon Ifanc i gyd yn cael Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol. Mae'r rhaglen Arweinwyr Ifanc yn gynhwysol ac mae'r rhaglen Play Unified yn faes arbenigol | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | nad yw ond ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu.<br><br>Mae Ceredigion wedi ennill Achrediad Arian Insport, ac mae Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd ar gael i'r holl staff drwy borth CERI.<br><br>Cyn pandemig COVID-19, roedd sesiynau chwarae mynediad agored RAY Ceredigion yn hygyrch ac yn fuddiol i blant ag anableddau, gan gynnwys plant sy'n defnyddio cadair olwyn, a phlant â Syndrom Down, parlys yr ymennydd ac awtistiaeth. Mae natur chwarae mynediad agored yn sicrhau bod modd i blant ymgysylltu mewn ffordd sy'n gyfforddus iddyn nhw drwy chwarae gyda phlant eraill neu ochr yn ochr â nhw.<br><br>Mae'r Grant Cyfalaf ar gyfer Chwarae wedi caniatáu i 17 o barciau ac ardaloedd chwarae gael eu gwella ledled y sir.<br><br>Mae llawer o raglenni'r Haf o | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles yn cael eu targedu (yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio). Mae hyn wedi bod o gymorth enfawr i blant a phobl ifanc ag anableddau.<br><br>Clywodd ymgynghoriad y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae gan 25 o grwpiau oedd yn cynrychioli parciau ac ardaloedd chwarae. Roedd 18 o'r farn fod eu parc yn gwbl hygyrch, 6 ddim yn gwbl hygyrch, ac 1 ddim yn hygyrch. | | |
| | Mae gan brosiectau a darparwyr chwarae fynediad i amrywiaeth o adnoddau sy'n cefnogi cynhwysiant | **OREN** | **OREN / GWYRDD** | Darperir hyfforddiant i grwpiau a sefydliadau yn y trydydd sector am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd erthygl 31 a'r angen i ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (erthygl 12).<br><br>Erbyn hyn, darperir Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd drwy Adran Hyfforddiant Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion. | Nid oes digon o arian ar gael i gynorthwyo lleoliadau chwarae i gynnig lleoedd i blant ag anableddau – mae'r arian wedi'i gyfyngu i ddeg awr yr wythnos ar gyfer cylchoedd chwarae a 200 awr y flwyddyn ar gyfer cynlluniau chwarae a chwarae mynediad agored.<br><br>Bydd hyn yn cynyddu | Dim ond yn ddiweddar y mae'r Gwasanaeth Chwarae wedi symud i'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant ac felly nid oedd ganddo gysylltiad uniongyrchol ag arbenigedd Chwaraeon Anabledd Cymru yn flaenorol. Gan fod y cysylltiad hwnnw'n bodoli nawr, bydd cynhwysiant yn chwarae rôl flaenllaw pan fydd gweithgareddau chwarae'n cael eu cynllunio drwy Gyngor Sir Ceredigion. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Cyngor yn ariannu'r Cynllun Ymuno (i rai 4-11 oed) a'r Cynllun Cyfeirio (i rai cyn-ysgol). Mae'r cynlluniau hyn yn gallu ariannu hyfforddiant, adnoddau neu staff ychwanegol i sicrhau bod modd i ddarparwyr cofrestredig fod yn gynhwysol.<br><br>Ceir cyfathrebu da yn y sir rhwng gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant a theuluoedd ag anableddau a darparwyr chwarae, ac mae'r Cynllun Ymuno yn galluogi lleoliadau cynhwysol prif ffrwd i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant ag anableddau heb iddynt fod ar wahân.<br><br>Bu i'r rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles gynorthwyo llawer o bobl ifanc ag anableddau a darparu gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc ag anableddau.<br><br>Mae Ceredigion Actif wedi | ar gyfer grwpiau penodol wrth i'r Cynnig Gofal Plant gael ei gyflwyno, ond nid yw'r cynllun hwn yn agored i bob teulu.<br><br>Mae arian ar gyfer cynhwysiant yn seiliedig ar anghenion addysg a/neu ofal plant yn hytrach nag anghenion chwarae.<br><br>Nid oes arian ar gael i rieni sydd am gael mynediad at fwy na 200 awr o ofal plant sy'n seiliedig ar chwarae. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnyddio trosglwyddiad cyllideb oddi wrth Chwaraeon Anabledd Cymru i gynorthwyo plant ag anableddau mewn ysgolion i chwarae ac i fod yn egnïol. | | Ni chafwyd amser hyd yma i wreiddio'r Cod ADY newydd mewn ymarfer, felly ni ellir mesur ei lwyddiant eto.<br><br>Cyngor Sir Ceredigion i gamu ymlaen i lefel Achrediad Aur Insport. |
| | Ceir dull hysbys cytûn a ddefnyddir i nodi'r angen i gynnig darpariaeth ar wahân i blant anabl | GWYRDD | GWYRDD | Mae darparwyr gofal plant/chwarae yn cynnig darpariaeth 'agored' i bawb, yn hytrach na darpariaeth 'benodol', gan fod darparwyr yn gwneud addasiadau rhesymol ac yn teilwra'r ddarpariaeth yn ôl anghenion unigolion.<br><br>Gellir defnyddio'r Cynllun Cyfeirio mewn lleoliadau gofal plant/chwarae.<br><br>Mae DASH a'r Cyngor yn cyd-ddylunio ac yn cyd-ariannu darpariaeth ar wahân i blant a phobl ifanc ag anableddau (cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau i rai 4-11 oed, grwpiau ar ôl yr ysgol yn ystod y tymor, a gweithgareddau yn ystod y gwyliau i rai 11-25 oed).<br>Mae DASH yn trefnu dau gynllun chwarae arbenigol dros | Gan fod nifer o glybiau ar ôl yr ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau wedi cau'n barhaol neu'n dal i gynllunio i ailagor ar ôl y pandemig, cafwyd gostyngiad yn nifer y ceisiadau i fanteisio ar y Cynllun Ymuno.<br><br>Mae gan bob plentyn hawl i chwarae o dan erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ni waeth beth fo'i anghenion, a dylai fod modd i blant gael mynediad at ofal plant a darpariaeth chwarae. Serch | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yr haf i blant ag ADY a'u brodyr a'u chwiorydd.<br><br>Mae'r rheini sydd wedi'u cofrestru â'r Tîm Plant Anabl yn cael mynediad awtomatig at y cynlluniau hyn. Gall plant sy'n cael cymorth gan y Tîm o Amgylch y Teulu hefyd ddefnyddio'r ddarpariaeth hon.<br><br>Mae amrywiaeth dda o gyfleoedd a chlybiau chwaraeon ar gael ar gyfer pobl ifanc ag anableddau yng Ngheredigion.<br><br>Ceir rhaglen Llysgenhadon Ifanc gref ar gyfer pobl ifanc ag anableddau o'r enw Play Unified. Mae'r rhaglen hon ar waith mewn pum ysgol uwchradd.<br><br>Mae darparwr allanol, BMO, wedi dechrau cynorthwyo'r oedolion ifanc hyn wrth iddynt gamu i addysg drydyddol. Mae hyn yn rhan o'r rhaglen Camu 'Mlaen drwy Goleg Ceredigion. | hynny, nid oes arian ar gael i bawb.<br><br>Mae lefel y ddarpariaeth yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn oherwydd cyfyngiadau ariannu. Gall plant ag anableddau nad ydynt wedi'u cofrestru â'r Tîm Plant Anabl ei chael yn anoddach dod i wybod am y gwasanaeth hwn.<br><br>Wrth i bobl ifanc wella yn eu campau, mae llawer wedi gorfod mynd allan o'r sir i gael mynediad at lwybrau ar lefel ranbarthol drwy ddarpariaeth NGB. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r tîm Pobl Ifanc Egnïol wedi llunio dogfen sy'n cynnwys enghreifftiau o gêmau cynhwysol a syniadau er mwyn i blant chwarae ar y marciau newydd ar eu meysydd chwarae. | | |
| | Cynhelir archwiliadau o fynediad ar gyfer yr holl ddarpariaeth chwarae fel y disgrifir yn y canllawiau | OREN | OREN | Mae darparwyr sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal asesiadau risg – sy'n cynnwys mynediad – yn ôl y gofyn, pan fydd plant ag anableddau am ddefnyddio'r ddarpariaeth.<br>Rhaid i bawb sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, e.e. darparwyr gofal plant, clybiau ieuenctid, cyfleoedd chwarae mynediad agored, ardaloedd chwarae â chyfarpar, ac ati, gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>Rhaid i berchnogion ardaloedd chwarae sy'n gwneud cais i gael arian cyfalaf i wella'u hardaloedd chwarae ddisgrifio yn eu ceisiadau sut y maent yn gwneud yn siŵr bod eu hardaloedd chwarae'n hygyrch | Ni chynhelir archwiliadau mynediad fel mater o drefn. | Bydd rhaglen o archwiliadau mynediad yn cael eu llunio a'u gweithredu. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i blant neu bobl ifanc ag anabledd. | | |
| | Caiff man chwarae dynodedig ei ddarparu a'i gynnal a'i gadw'n dda ar safleoedd sipsiwn a theithwyr | COCH | OREN | Cynhaliodd yr awdurdod lleol Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2015-16 yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Pwrpas yr asesiad hwn oedd pennu'r angen i ddarparu safle tramwy, safle dros dro neu safle parhaol dros y pum mlynedd nesaf. Canfu'r asesiad nad oes angen safleoedd ychwanegol yn y sir ar hyn o bryd. | Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod lleol yn darparu unrhyw safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a dim ond un safle preifat awdurdodedig sydd ar gael yn y sir. Ni cheir unrhyw ddarpariaeth barhaol ar gyfer Siewmyn ychwaith. | |
| | Deellir a bodlonir gofynion gofalwyr ifanc | GWYRDD | GWYRDD | Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu cymorth penodol i ofalwyr ifanc sy'n cynnwys:<br>• Sesiynau galw heibio ym mhob ysgol uwchradd ac mewn rhai ysgolion cynradd.<br>• Grwpiau | Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Ofalwyr Ifanc yn effeithiol, ond yn yr un modd â phob gwasanaeth arall, byddai mwy o incwm yn caniatáu iddo gyflogi mwy o | Sicrhau ein bod yn deall ac yn diwallu anghenion Gofalwyr Ifanc.<br><br>Cafodd manyleb y gwasanaeth Gofalwyr Ifanc ei hadolygu ochr yn ochr â'r |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithgareddau ar ôl yr ysgol.<br>• Gweithgareddau i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn ystod y gwyliau.<br>• Y gofalwyr ifanc sy'n arwain y gweithgareddau.<br>Caiff y Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr Ifanc ar gyfer gofalwyr ifanc 8-25 oed ei hwyluso gan Gweithredu dros Blant. Mae'r gwasanaeth yn codi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc, ac mae'n darparu cyfleoedd, profiadau newydd, a seibiannau rheolaidd rhag eu rôl ofalu. Darperir y gwasanaeth drwy grwpiau cymunedol, sesiynau 1:1 a chymorth mewn ysgolion. Ar hyn o bryd, mae dros 60 o ofalwyr ifanc yn cael cymorth.<br><br>Bob blwyddyn, estynnir gwahoddiad i gynrychiolydd gofalwyr ifanc fod yn rhan o Gyngor Ieuenctid Ceredigion. | staff a, thrwy hynny, byddai gofalwyr ifanc yn cael mwy o oriau cyswllt.<br><br>Ers dechrau pandemig COVID, cafodd y gwasanaeth ei atal rhag mynd i safleoedd ysgol ac mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar-lein.<br><br>Mae cludiant at ddarpariaeth ac ohoni yn broblem mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i'r cohort hwn nad ydynt yn aml yn gallu dibynnu ar eu rhieni.<br><br>Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cyrraedd gofalwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.<br><br>Nid oes mynediad cyfartal at y | rheini sy'n gweithio gyda Gofalwyr Ifanc, a chafodd gweithwyr proffesiynol eraill eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae manyleb gwasanaeth newydd yn destun ymarfer tendro ar hyn o bryd, ac mae'n rhoi sylw i'r gwendidau a bennwyd ac yn adeiladu ar arferion gorau.<br><br>Rydym wedi sicrhau arian ychwanegol ar gyfer y tendr hwn ym mis Ebrill 22/23 a 23/24. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ar gael ac fe'i darperir fel rhan o hyfforddiant cynefino corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod pob cyflogai'n gwybod am ei ddyletswyddau i ofalwyr di-dâl o bob oed.<br><br>Yn ystod 2021, cynhaliwyd adolygiad o Wasanaeth Gofalwyr Ifanc Ceredigion, a lluniwyd manyleb newydd ar gyfer ymarfer tendro yn hwyr yn 2021. Cafodd taflen newydd i ofalwyr ifanc ei chreu hefyd. | gwasanaeth ledled y sir.<br><br>Nid yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion gofalwyr o dan wyth oed. | |
| | Deellir a bodlonir gofynion plant sy'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol | OREN | OREN | Mae gweithwyr ieuenctid yn cael hyfforddiant i ddod i ddeall mwy am sut i sicrhau eu bod yn darparu cymorth cynhwysol o ansawdd uchel i bobl ifanc LGBT.<br><br>Mae'r tîm Pobl Ifanc Egnïol sy'n rhan o'r Adran Canolfannau Llesiant wedi cael hyfforddiant LGBTQ+ drwy Chwaraeon Cymru. | Nid oes unrhyw grwpiau penodol. Ceisiodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion sefydlu grŵp, ond bryd hynny nid oedd digon o ddiddordeb mewn cael darpariaeth o'r fath yn y gymuned.<br><br>Cafodd diffyg ymgysylltiad â dinasyddion LGBQT+ | Bydd y Rheolwr Ymgysylltu a Chynhwysiant yn ymgysylltu ac yn ymgynghori mwy â'r gymuned LGBQT+ |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ei nodi fel diffyg yn yr Asesiad Llesiant Lleol. | |

**Diwallu Anghenion Amrywiol**

**Sut y cafodd y data eu defnyddio (neu sut y bydd y data yn cael eu defnyddio) i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae plant ag anghenion amrywiol yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i gyfleoedd cynhwysol a hygyrch i chwarae?**

Mae Ceredigion yn ailstrwythuro i greu Model Gydol Oes a Llesiant. Ymhlith y gwasanaethau sy'n rhan o'r ymarfer hwn mae'r Gwasanaeth Gofal Plant, y Gwasanaeth Chwarae a Chanolfannau Llesiant, a'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn ogystal â gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu targedu fel Gwasanaethau i Oedolion ac i Blant, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, Cymorth i Blant ag Anableddau, a Dechrau'n Deg. Yn ogystal â dod â gwasanaethau'n nes at ei gilydd, bydd yr ymarfer ailstrwythuro hwn yn sicrhau bod modd cydweithio'n agos ar draws rhaglenni, a bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae grant sy'n caniatáu i deuluoedd (y mae angen cymorth ariannol arnynt) gael dillad chwarae awyr agored am ddim wedi bod yn eithriadol o boblogaidd, gyda 461 o siwtiau gwrth-ddŵr undarn, 94 cot a 162 pâr o esgidiau glaw yn cael eu dosbarthu i sicrhau bod modd i fabanod a phlant chwarae'n ddirwystr yn yr awyr agored beth bynnag fo'r tywydd. I ategu hyn, bydd Grant Cotiau Awyr Agored newydd ar gael i blant hŷn cyn bo hir. Prosiect ar y cyd rhwng Teuluoedd yn Gyntaf, Cymorth i Ieuenctid a'r Canolfannau Llesiant yw hwn.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**

- Yn sgil COVID, mae darpariaeth gofal plant a oedd wedi'i sefydlu wedi cau ac mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at anawsterau o ran cadw a recriwtio staff cymwysedig ym maes gwaith chwarae.
- Cynaliadwyedd lleoliadau a chyfleusterau sy'n wynebu costau rhedeg uwch.
- Mae llawer o sefydliadau'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr, felly maent yn cael eu rhedeg gan bwyllgorau sy'n gyfrifol am gyflogaeth a rheolaeth ariannol, materion sy'n gallu bod yn heriol.
- Anghysondeb o ran clybiau ar ôl yr ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau. A ellir cysylltu'r ddarpariaeth hon, gyda sefydliadau'n gweithio tuag at gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru? Mae darpariaeth gwyliau / ar ôl yr ysgol rhatach ar gael gan glybiau chwaraeon, canolfannau hamdden, clybiau'r Urdd. Gan nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac nad yw'n cael ei harolygu ganddi, nid yw rhieni'n gallu cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy gynlluniau gofal plant.

- Nid yw clybiau ar ôl yr ysgol na darpariaeth yn ystod y gwyliau yn cael gafael ar gyllid drwy'r Cynllun Ymuno. Nifer gyfyngedig o oriau sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Cyfeirio/Ymuno hefyd.
- Mae cludiant hefyd yn broblem i rieni mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i'r rheini sy'n fwy agored i niwed (e.e. plant ag anabledd a'u brodyr a'u chwiorydd).
- Bydd yr Uned Gofal Plant yn parhau i gynorthwyo'r sector gofal plant a chwarae i fod yn gynaliadwy, a bydd yn sicrhau bod amodau ariannu'n cynnwys yr angen i ddarparu tystiolaeth eu bod yn darparu amgylchedd chwarae cyfoethog.
- Ceir perthynas dda rhwng yr Uned Gofal Plant a'r Gwasanaeth Chwarae, ac mae'r berthynas hon wedi datblygu ymhellach yn sgil y gwaith diweddar ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Bwriedir i'r gwasanaethau gydweithio ymhellach, a bydd swyddog newydd (a ariennir ar y cyd gan y ddau wasanaeth) yn canolbwyntio ar amcanion ar gyfer y ddau faes.
- Mae'r Gwasanaeth Chwarae wedi meithrin perthynas agos â'r Gwasanaeth Perfformiad ac Ymchwil, ac mae hyn wedi sicrhau bod modd i'r Cynllun Llesiant Lleol lywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a dylanwadu arno.
- Diffyg ymgysylltu/ymgynghori â'r gymuned LGBQT+.

**Sut mae eu goresgyn?**

- Bydd y Gwasanaeth Chwarae a'r Uned Gofal Plant yn cydweithio â lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru er mwyn iddynt gofrestru a chwblhau Cynllun Asesu Sicrwydd Ansawdd ag aelodau CWLWM a sicrhau bod gan staff gymhwyster perthnasol o ran gwaith chwarae.
- Bydd y ddarpariaeth symudol i bobl ifanc yn datblygu llwybr i adeiladu capasiti cymunedol ar gyfer darpariaeth chwarae mewn cymunedau gwledig.
- Bydd Rheolwr Ymgysylltu a Chynhwysiant newydd yn cael ei benodi (Ebrill 2023) a bydd yn mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned LGBQT+.

**Sylwadau:**

- Bydd y Model Gydol Oes a Llesiant yn helpu i wella cydweithio mewnol.
- Ceir rhwydweithiau trydydd sector da yng Ngheredigion i sicrhau ein bod yn clywed am y rhwystrau y mae plant ag anghenion amrywiol yn eu hwynebu o ran cael mynediad cynhwysol a hygyrch at gyfleoedd chwarae.

**Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae: mannau agored a mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff**

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod y gall pob man agored yn ei ardal fod yn fan pwysig i blant chwarae ynddo neu basio drwyddo i gyrraedd ardaloedd chwarae eraill neu fannau eraill y maent yn mynd iddynt.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | |

**Mannau agored**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal Asesiad o Fannau Agored sy'n mapio ardaloedd a ddefnyddir, neu a allai gael eu defnyddio ar gyfer chwarae, fel y rhestrir yn y Canllawiau Statudol | OREN | GWYRDD | Mae'r is-bolisïau hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Nod polisi LU24 yw darparu mannau agored ychwanegol lle bo'n briodol fel rhan o ddatblygiadau newydd. Drwy wneud hynny, bydd iechyd a lles cymunedau yn gwella a bydd cydlyniant cymunedol yn cael hwb. | Er bod rhai ardaloedd yn y sir yn bodloni'r targedau penodedig fel y'u nodir yn y Safonau Meysydd Chwarae (FIT), nid yw eraill yn ddigonol. Oherwydd y diffyg hwn, bydd y Cyngor yn ceisio cael hyd i fannau agored ychwanegol ar bob safle tai a ddyrannwyd. Mae'r Rhestr o Safleoedd | Gwella ein dealltwriaeth o Fannau Agored a Mannau Gwyrdd Hygyrch, a hyrwyddo eu heffaith fuddiol ar lefelau llesiant. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | a Ddyrannwyd ar gyfer pob dyraniad tai yn egluro a yw'r Cyngor yn chwilio am ddarpariaeth mannau agored. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal Astudiaeth o Fannau Gwyrdd Hygyrch sy'n mapio ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer chwarae | OREN | GWYRDD | Cwblhawyd Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd gan WSP ym mis Tachwedd 2020, ond ni chafodd ei gyfieithu hyd yma, felly nid yw ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar ganolfannau gwasanaethau trefol Ceredigion, sef y chwe 'phrif dref', ac ar asesiad mwy cyffredinol o'r sir gyfan, felly nid yw'n debygol o roi darlun cynhwysfawr o gefn gwlad Ceredigion. Cwblhawyd yr astudiaeth hon gan ddefnyddio'r holl ddata GIS diweddaraf y gallai'r tîm polisi cynllunio gael hyd iddynt ar ein systemau o ran mannau agored a mannau gwyrdd hygyrch. | Cafodd parciau a meysydd chwarae eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd a gynhaliwyd gan WSP. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal archwiliadau o fynediad ym mhob man | OREN | OREN | Caiff mannau agored a mannau cyhoeddus sy'n eiddo i'r awdurdod lleol eu | Caiff gwelliannau o ran mynediad a diogelwch eu | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | agored ac yn rhoi cynigion ar waith i wella mynediad a diogelwch | | | harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Mae'r awdurdod lleol yn dibynnu ar i'r cyhoedd roi gwybod iddo am unrhyw broblemau o ran diogelwch yn y mannau agored hyn, ac o ran mynediad iddynt.<br><br>Rydym yn darparu cymorth, arweiniad ac arian (pan fo ar gael) i grwpiau cymunedol lle bo'n briodol.<br><br>Eleni, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi dosbarthu £108k o arian cyfalaf i wella mannau chwarae a pharciau yn y sir. Rhaid i unrhyw gais i gael cymorth ddisgrifio sut y mae'r perchennog yn sicrhau hygyrchedd. | cynnwys mewn ceisiadau i gael arian grant lle bo'n ymarferol.<br><br>Nid oes rhestr o archwiliadau mynediad ar gael ar hyn o bryd. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi llunio ei safonau ei hun ar gyfer mannau agored yn unol â chyngor a gofynion Polisi Cynllunio Cymru | GWYRDD | GWYRDD | Gwnaed hyn ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, a chafodd Canllawiau Cynllunio Atodol eu paratoi i egluro'r safonau.<br>Cafodd y cyd-destun polisi ehangach ei adolygu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, nid | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dim ond y polisi cynllunio cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Gofodol Cymru (LICC, 2008) a gwaith rhanbarthol i'r graddau y mae wedi datblygu. Yn lleol, mae Ceredigion 2020 (C2020) – Strategaeth Gymunedol Ceredigion (CSC, 2003) a dogfennau lleol pwysig eraill wedi dylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol. Ceir mwy o wybodaeth am brif elfennau'r cynlluniau a'r strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol hyn yn adran 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal ac yn ymdrin ag asesiadau o werth mannau agored cyhoeddus o ran cyfleoedd chwarae | COCH | OREN | Cafodd parciau a meysydd chwarae eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd a roddodd sylw i saith prif dref y sir:<br>• Aberystwyth<br>• Aberaeron<br>• Aberteifi<br>• Llanbedr Pont Steffan<br>• Adpar<br>• Llandysul | Dim asesiadau penodol o werth. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Tregaron<br><br>Ardaloedd chwarae plant oedd un o'r dewisiadau a gafodd ei gynnwys yn yr holiaduron defnydd a lanwyd gan 246 o bobl. | | |
| | Caiff safleoedd tir llwyd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol eu hasesu i weld a oes potensial i'r safle gael ei adennill i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant | COCH | OREN | Ychydig iawn o safleoedd tir llwyd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol mewn ardaloedd heb fannau chwarae a hamdden sy'n bodloni'r lefel statudol. | | |

**Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o'r holl fannau chwarae dynodedig fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | OREN | GWYRDD | Crëwyd rhestr o fannau chwarae a meysydd chwarae dynodedig yn 2013/14. Gellir gweld yr ardaloedd chwarae ar wefan DEWIS Cymru neu fan hyn: [Ardaloedd Chwarae Ceredigion (easymapmaker.com)] | Nid yw'r rhestr o fannau chwarae'n cynnwys y rheini sydd ar gael gan gymdeithasau tai. | Sicrhau bod y cofnodion o'r mannau chwarae dynodedig yn gyfredol. Ychwanegu meysydd chwarae at y rhestr os yw capasiti'n caniatáu. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu mannau chwarae o ran gwerth chwarae a'r potensial i gynyddu chwarae, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol | OREN | OREN | Cynhaliwyd asesiad o werth mannau chwarae dynodedig o ran cyfleoedd chwarae yn flaenorol.<br>Er nad yw'r awdurdod lleol ond yn berchen ar un o 74 man chwarae'r sir, mae'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae'n sicrhau bod modd inni gynorthwyo ac annog perchnogion mannau chwarae i ddeall gwerth chwarae a'r posibilrwydd o'i gynyddu. | Mae angen ailgynnal yr asesiad a'i gyflwyno i ddarparwyr mannau chwarae i osod sail ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Cafwyd oedi o ran y gwaith hwn oherwydd COVID. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal archwiliadau o fynediad ym mhob man chwarae dynodedig ac yn rhoi cynigion ar waith | OREN | OREN | Cynhaliwyd asesiad o werth mannau chwarae dynodedig o ran cyfleoedd chwarae yn flaenorol. Roedd hwn yn cynnwys archwiliad anffurfiol | Erbyn hyn, nid yw'r awdurdod lleol ond yn berchen ar un o'r 74 man chwarae | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | i wella mynediad a diogelwch | | | o fynediad. Dosbarthwyd cyhoeddiad Chwarae Cymru, 'Creu mannau chwarae hygyrch – pecyn cymorth' i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae pan y'i cyhoeddwyd. | dynodedig a geir yn y sir, ac nid yw'n cynnal archwiliadau mynediad mewn mannau chwarae sy'n eiddo i gymunedau na chwmnïau masnachol. Darperir cyngor a chymorth i berchnogion cymunedol. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi llunio ac wedi cytuno ar safon newydd benodol ar gyfer darpariaeth chwarae ag offer sefydlog | COCH | COCH | Nid oes gan yr awdurdod lleol safon ar gyfer darpariaeth chwarae ag offer sefydlog. Mae unrhyw ganllawiau a roddir gennym yn seiliedig ar ganllawiau diogelwch EN a pholisïau/deddfwriaeth perthnasol eraill. | Gan nad yw'r awdurdod lleol ond yn berchen ar un ardal chwarae, nid yw'n debygol o lunio safon ar gyfer darpariaeth chwarae ag offer sefydlog. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal asesiadau o fannau chwarae mewn mannau chwarae dynodedig ac yn gweithredu arnynt | OREN | GWYRDD | Cafodd mannau chwarae a meysydd chwarae eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd a gynhaliwyd yn 2020. Cafodd ardaloedd sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae eu cynnwys, fel tir hamdden | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ag offer chwarae. Cafodd meysydd chwarae a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon anffurfiol a gweithgarwch hamdden cyffredinol, fel cerdded a chael picnic, eu cynnwys hefyd.<br><br>Byrfodd: Hectar – ha<br><br>Aberystwyth: 19ha o fannau chwarae, 24ha o feysydd chwarae.<br>Aberaeron: 9ha o feysydd chwarae.<br>Aberteifi: 6ha o feysydd chwarae.<br>Llambed: caeau chwaraeon (10ha), mannau chwarae (8ha) a meysydd chwarae (5ha).<br>Adpar: 7ha o feysydd chwarae.<br>Llandysul: 6ha o feysydd chwarae a 5ha o fannau chwarae.<br>Tregaron: 6ha o feysydd chwarae. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno lleoedd | GWYRDD | GWYRDD | Prynwyd arwyddion ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u dosbarthwyd i | Fe'u cynigiwyd i bob aelod o'r Rhwydwaith | Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn yr holiadur diweddar i'r Rhwydwaith |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae di-fwg.<br>Mae’r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 sy’n gofyn i bob lle chwarae fod yn ddi-fwg. | | | berchnogion meysydd chwarae.<br><br>Defnyddiwyd Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i brynu 100 o arwyddion ‘safle di-fwg’.<br><br>Mae’r fenter Ysgolion Iach wedi prynu arwyddion i hyrwyddo gatiau ysgol di-fwg a’u dosbarthu i bob ysgol.<br><br>Clywodd ymgynghoriad y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae gan 25 o grwpiau oedd yn cynrychioli parciau ac ardaloedd chwarae. Roedd 13 eisoes yn dangos arwyddion ‘dim mwg’ tra bod 12 wedi gofyn amdanynt. | Ardaloedd Chwarae. Hyd yma, dim ond 15 o’r 100 sydd wedi hawlio arwydd. | Ardaloedd Chwarae i sicrhau bod parciau ac ardaloedd chwarae’n manteisio ar y cynnig. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi symud arwyddion 'dim gemau pêl' er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | OREN | OREN | Nid yw’r awdurdod lleol wedi cael gwybod am unrhyw arwyddion 'dim gemau pêl' sy’n atal plant rhag chwarae yn eu cymunedau. | Ni chytunwyd ar bolisi i wneud hyn. | Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn yr holiadur diweddar i’r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae i sicrhau bod parciau ac ardaloedd chwarae’n manteisio ar y cynnig. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi gosod arwyddion, fel Arwyddion | OREN | OREN | Mae’r awdurdod lleol yn annog gosod eitemau a allai annog mwy o chwarae, e.e. | Mae’r gweithgaredd hwn yn dibynnu ar yr | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaenoriaeth i Chwarae, er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | | | meinciau, cabanau chwarae, llwybrau troed a llwybrau beicio, yn hytrach nag arwyddion | arian sydd ar gael. | Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn yr holiadur diweddar i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae i sicrhau bod parciau ac ardaloedd chwarae'n manteisio ar y cynnig.<br><br>Hyrwyddo'r system a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio er mwyn i fwy o oedolion sy'n dadlau o blaid chwarae gael e-bost pan fydd cais cynllunio'n dod i law a allai effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd meysydd chwarae o ran y cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant pan wneir unrhyw benderfyniadau gwaredu | OREN | GWYRDD | Nod polisi LU22 yw gwarchod mannau agored ac annog camau i ddatblygu cyfleusterau newydd lle bo'n briodol.<br><br>Dylid ystyried bod unrhyw fan agored ac iddo werth i'r cyhoedd yn fan agored, gan gynnwys mannau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth. Gall hefyd weithredu fel amwynder gweledol a gall fod o bwys o ran cadwraeth a bioamrywiaeth.<br><br>Os oes darpariaeth gymunedol ar safle sy'n bodoli eisoes a bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi nodi hyn yn adran 'Nodweddion, gofynion a chyfyngiadau safleoedd' o'r SGS, bydd rhaid i'r cais | Ceir lle i wella ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynllunio gydymffurfio â pholisi LU22.<br><br>Mae atodiad 6 yn nodi dyraniadau tir sy'n gysylltiedig â chyfleusterau cymunedol a hamdden yn y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Un o nodau polisi LU22 yw gwarchod y rhwydwaith o fannau agored sy'n bodoli ar hyd a lled y sir ar hyn o bryd i sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod yn iach ac yn egnïol (amcanion 6 a 7).<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi sefydlu system er mwyn i oedolion sy'n dadlau o blaid chwarae gael e-bost pan fydd cais cynllunio'n dod i law a allai effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.<br><br>Rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi unrhyw fenter y mae angen i'r Cabinet benderfynu arni, fel gwaredu meysydd chwarae. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys plant a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgyngoriadau ynghylch penderfyniadau i waredu meysydd chwarae | OREN | OREN / GWYRDD | Mae ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau (rhanddeiliaid) amrywiol wedi bod yn rhan allweddol o broses y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Ymhlith y gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd roedd trafodaeth â swyddogion (yn fewnol ac yn allanol), gweithdai thematig, a digwyddiadau mawr i randdeiliaid. Mae hyn wedi helpu'r Cyngor i goladu tystiolaeth ac i gasglu safbwyntiau sydd wedi dylanwadu ar bolisïau ac ar faterion lleol.<br><br>Cafodd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol ei sefydlu hefyd i gynorthwyo ac i weithredu fel seinfwrdd drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae hefyd wedi bod yn hollbwysig cynnwys Aelodau lleol ym mhob cam o'r broses, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg a'i rhoi ar waith o ran | Nid yw'n hawdd i blant a'u teuluoedd ddeall dogfennau cynllunio nac ymateb iddynt. | Ystyried ffyrdd y gall plant a phobl ifanc fynegi eu barn am benderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar eu cyfleoedd i chwarae. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | strategaeth a pholisïau priodol.<br><br>Bydd darpariaeth gymunedol yn cael ei darparu drwy bolisi LU22. Y nod yw gwarchod darpariaeth gymunedol sy'n bodoli eisoes ac annog camau i ddatblygu darpariaeth newydd lle bo'n briodol yn unol ag amcanion 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12 a 14. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at ganllawiau ynghylch creu lle chwarae hygyrch wrth ailwampio neu ddatblygu meysydd chwarae newydd | OREN | OREN | Nid yw'r awdurdod lleol yn adnewyddu nac yn datblygu meysydd chwarae newydd. Yn hytrach, bu modd i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae wneud cais i gael arian eleni drwy'r Gronfa Cyfalaf Gaeaf Llawn Lles. Daeth 17 cais i law ac fe'u cefnogwyd.<br><br>Dosbarthwyd cyhoeddiad Chwarae Cymru, 'Creu mannau chwarae hygyrch – pecyn cymorth' i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae pan y'i cyhoeddwyd. | Ceir potensial i lunio strategaeth o ran y mater hwn y byddai modd ei rhannu â phob perchennog ardal chwarae, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a byddai modd iddo fod yn amod er mwyn iddynt gael arian neu gymorth. | |

**Mannau agored**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithredu rhwng yr Asesiad o Fannau Agored / Strategaethau Seilwaith Gwyrdd a'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i wella mannau chwarae?**

Cafodd ardaloedd chwarae a mannau chwarae eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol o dan is-bolisïau LU 22-24. Cafodd chwarae hefyd ei gynnwys yn yr Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd a gynhaliwyd yn 2020, gydag ymgynghoriad penodol am ardaloedd chwarae i blant.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Nid yw'n hawdd i blant a'u teuluoedd ddeall dogfennau cynllunio nac ymateb iddynt.

**Sut mae eu goresgyn?**
Dogfennau hawdd eu darllen ac ymgyngoriadau penodol drwy ddarparwyr cyfleoedd chwarae lleol.
Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi sefydlu system er mwyn i oedolion sy'n dadlau o blaid chwarae gael e-bost pan fydd cais cynllunio'n dod i law a allai effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae. Byddai modd hyrwyddo hyn er mwyn ychwanegu mwy o oedolion at y rhestr.

**Sylwadau:**

**Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yr holl faterion sy'n gysylltiedig â hygyrchedd wrth ddatblygu mannau chwarae?**
Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo pob ardal chwarae (ac eithrio un) i berchnogion yn y gymuned. Mae hyn yn golygu nad oes gennym unrhyw ddylanwad dros ansawdd na hygyrchedd y mannau chwarae. Serch hynny, rydym yn darparu cyngor ac arian i wella mannau chwarae cymunedol a byddwn yn cynnwys gofyniad ansawdd a gofyniad ymgynghori ar ffurflenni cais i gael arian grant yn y dyfodol.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Mae erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Parch at safbwyntiau'r plentyn) yn datgan bod gan blant hawl i ddweud beth y maent yn meddwl ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a hawl i gael eu safbwyntiau wedi'u hystyried. Weithiau, gwneir penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, ac rydym am lunio proses sy'n galluogi plant a phobl ifanc i roi eu barn ar y penderfyniadau hyn.

**Sut mae eu goresgyn?**
Llunio dull y cytunir arno, ar y cyd â phobl ifanc, er mwyn i blant a phobl ifanc fod yn rhan o benderfyniadau cynllunio sy'n effeithio arnynt. Cynnwys yr angen am bolisi/cynlluniau hygyrchedd mewn meini prawf ar gyfer grantiau'r awdurdod lleol i wella mannau chwarae cymunedol. Datblygu grŵp 'Pobl Ifanc Anabl fel Ymgynghorwyr', a chynnal archwiliad o hygyrchedd mannau chwarae cymunedol (bydd hyn yn galw am lawer o adnoddau ac mae'n ddibynnol iawn ar gyllid heb gyfyngiadau amser).

**Sylwadau**

**Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Holiadur y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae**

Crynodeb:
- 25 o ymatebion gan Gynghorau Tref a Chymuned a grwpiau lleol sy'n rheoli Ardaloedd Chwarae
- Teuluoedd o Geredigion gyfan

Atebion:

| Cwestiynau | Dewisiadau | Atebion |
|---|---|---|
| Ydych chi o'r farn fod eich parc neu'ch ardal chwarae mewn ardal wledig? | Nac ydy | 9 |
| | Rhannol wledig | 4 |
| | Ydy | 12 |
| | | |
| Ydych chi o'r farn fod eich parc neu'ch ardal chwarae yn hygyrch i bawb? | Nac ydy | 1 |
| | Ddim yn gwbl hygyrch | 6 |
| | Ydy, yn gwbl hygyrch | 18 |
| | | |
| Erbyn hyn mae'n ofynnol i bob parc ac ardal chwarae nodi'n glir eu bod yn 'barth di-fwg'. Hoffech chi gael arwydd 'parth di-fwg' am ddim oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion? | Dim diolch. Mae arwyddion ar ddangos gennym eisoes | 13 |
| | Ie, hoffem gael arwyddion | 12 |
| | | |
| A ydych yn cynnal unrhyw ddarpariaeth wedi'i goruchwylio yn eich parc neu ardal chwarae? | Nac ydym | 25 |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Oes gennych chi wirfoddolwyr neu weithwyr chwarae a hoffai dderbyn Hyfforddiant Gwaith Chwarae? | Nac oes | 22 |
| | Oes | 3 |
| | | |
| A oes unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen ar eich gwirfoddolwyr neu'ch gweithwyr chwarae? | Help i gael gafael ar gyllid | |
| | Dosbarthiadau ymarfer corff i blant | |
| | Sut i gynnal archwiliad iechyd a diogelwch ar y safle yn rheolaidd | |
| | | |
| Hoffech chi i Gyngor Sir Ceredigion helpu i hyrwyddo gweithgareddau cymunedol yn eich parc neu'ch ardal chwarae? | Na | 15 |
| | Ie | 10 |
| | | |
| Disgrifiwch gyflwr eich parc neu'ch ardal chwarae a'r offer sydd ynddo. (1 seren yn Wael Iawn, 2 seren yn Wael, 3 seren yn Ddigonol, 4 seren yn Dda a 5 seren yn Dda Iawn) | 1 | 0 |
| | 2 | 0 |
| | 3 | 6 |
| | 4 | 14 |
| | 5 | 5 |
| | | |
| A wnaethoch gais am y Grant Gwella Cyfalaf yn ddiweddar drwy Gyngor Sir Ceredigion? | Do | 12 |
| | Naddo | 13 |
| | | |
| A oes modd i Gyngor Sir Ceredigion gefnogi eich parc neu'ch ardal chwarae mewn rhyw ffordd arall? | Oes | 15 |
| | Nac oes | 10 |
| | | |
| Os oes yna, esboniwch isod | Digwyddiadau Codi Arian Blynyddol | |
| | Ble i gael arian cyfalaf ychwanegol | |
| | Sesiynau chwarae hwyl | |
| | Goliau pêl-droed ar gyfer y maes chwarae | |
| | Ymweliadau rheolaidd gan warden cŵn | |
| | Annog plant i ddod i'n maes chwarae | |

**Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth**

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

**Darparu gwaith chwarae**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o'r holl ddarpariaeth gwaith chwarae dan oruchwyliaeth fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | OREN | OREN | Gwefan Dewis Cymru yw'r ffynhonnell wybodaeth genedlaethol ar gyfer gwybodaeth o'r fath.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael rhestrau wythnosol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'r ddarpariaeth gofal plant/chwarae gofrestredig.<br><br>Mae gan yr Uned Gofal Plant restr gyfredol a chyfoes o'r holl ddarpariaeth gofal plant/chwarae sydd wedi'i | Mae'n anodd dilyn trywydd darpariaeth nad yw wedi'i chofrestru.<br><br>Mae'n anodd cael hyd i gyfleusterau addas i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ag anableddau. Mae Cynllun Chwarae Haf DASH (Anableddau a Hunangymorth) wedi gorfod ailgofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru sawl gwaith oherwydd nad oedd y | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Mae Canolfan y Celfyddydau ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cadw cofnod cyfredol o'r holl ddosbarthiadau. Mae'r dosbarthiadau'n rhai addysgiadol, diwylliannol a chelfyddydol. | cyfleuster yr arferai ei ddefnyddio ar gael. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth gwaith chwarae sy'n cynnig amgylchedd chwarae da fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | OREN | OREN | Mae tîm Pobl Ifanc Egnïol y Cyngor wedi bod yn rhoi prosiectau ar waith ar gyfer Canolfannau i Deuluoedd, Canolfannau Dechrau'n Deg a meithrinfeydd yn yr awdurdod lleol:<br>Y Prosiect Teuluoedd Actif – cydweithio â theuluoedd drwy gysylltiadau ag ysgolion/lleoliadau cyn-ysgol/Dechrau'n Deg i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a chwarae ymhlith teuluoedd, gan roi bagiau offer iddynt i'w hannog i wneud ymarfer corff gartref. Darperir hyfforddiant i staff ar bob safle. | Gall fod nad yw rhai gweithgareddau chwarae nad ydynt wedi'u cofrestru yn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.<br><br>Byddai modd gwella chwarae dan arweiniad.<br><br>Mae'n anodd i Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog oherwydd mae'r mathau o weithgareddau a | Cydweithio â darparwyr chwarae a Chwarae Cymru i gynnal gweithdy am chwarae dan arweiniad.<br><br>Cynnal cyrsiau gwaith chwarae ar gyfer staff Gweithgarwch Corfforol a Chwarae, yn ogystal â staff sy'n gweithio mewn Canolfannau Llesiant. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cafodd fideos sgiliau sylfaenol a symud eu ffilmio ar y cyd â meithrinfeydd ac fe'u rhannwyd â phob lleoliad cyn-ysgol lleol a'u postio ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Ffit yn 5 – Paratowyd fideos ar-lein yn ystod y cyfnod clo er mwyn i blant wneud pum munud o ymarfer corff bob dydd.<br><br>Footie Families – rhaglen sy'n dysgu sgiliau sylfaenol drwy gêmau hwyliog i rai 2-4 oed, gan ddefnyddio arian Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Nid yw'r sgiliau'n seiliedig ar bêl-droed er gwaethaf yr enw.<br><br>Prosiect Beiciau Cydbwysedd – darparu beiciau cydbwysedd a helmedau i ysgolion a meithrinfeydd, a hyfforddi staff. Dysgu seiliedig ar chwarae. Cynhelir asesiadau ddwywaith yn ystod y flwyddyn ysgol i fesur gwelliant. | ddarperir ganddo fel arfer yn rhai sydd wedi'u cynllunio a'u strwythuro. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Dechrau'n Deg yn cynorthwyo lleoliadau gofal plant yn ei ardaloedd. Mae'r Uned Gofal Plant yn cynorthwyo lleoliadau tu allan i oriau ysgol drwy ddarparu hyfforddiant, grantiau/arian, adnoddau, a chymorth swyddog datblygu. Caiff chwarae rhydd ei hyrwyddo ym mhob lleoliad gofal plant.<br><br>Mae holl ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion (clybiau ar ôl yr ysgol, clybiau ieuenctid ac ati) yn cydymffurfio â deddfwriaeth gwaith ieuenctid Cymru.<br><br>Mae gan Ganolfan y Celfyddydau ym Mhrifysgol Aberystwyth ddarpariaeth gyfoethog i rai o bob oed. Nifer gyfyngedig o'r cyrsiau sydd ar gael am ddim, ac mae rhai yn cael cymhorthdal hael. Mae | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi agor ei drysau i gyfiawnder ieuenctid ac atal. | | Adolygu rhaglenni sy'n gysylltiedig â chwarae a roddir ar waith drwy'r Canolfannau Llesiant er mwyn bodloni'r safonau gofynnol.<br><br>Gwella'r dulliau o hyrwyddo gwasanaethau cymorth i deuluoedd a chyfleoedd chwarae. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod partneriaid sy'n cynnig gwaith chwarae yn cael eu cefnogi i gynnig amgylcheddau chwarae da fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | OREN | OREN | Bydd yr Adran Chwarae, ar y cyd â RAY Ceredigion, yn trefnu i ROSPA roi cyflwyniad i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae (bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2022). Mae'r gweithdai hyn yn trin a thrafod manteision risg, yn ogystal â phwysigrwydd cynnal archwiliadau rheolaidd.<br><br>Mae'r Tîm Gofal Plant yn darparu cymhorthdal ar gyfer hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod staff gofal plant a chwarae yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol, ac mae'n ymateb i anghenion lleol o ran gwella'r amgylchedd chwarae.<br><br>Mae'r Swyddog Gofal Plant yn weithiwr chwarae sydd wedi cymhwyso ar Lefel 3.<br><br>Bydd Swyddogion Gweithgarwch Corfforol a Chwarae newydd yn cael hyfforddiant o ran gwaith | Mae ar gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a chlybiau ar ôl yr ysgol angen cymorth oherwydd eu bod bob amser ar fin gorfod cau. Gall y cymorth hwn fod yn ariannol, drwy logi cyfleusterau am gost isel, neu'n ganllawiau cyffredinol. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae yn y gwanwyn 2022.<br><br>Mae Tîm Chwarae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae â gwybodaeth a chanllawiau sy'n dod i law gan Lywodraeth Cymru neu Chwarae Cymru, ac mae hefyd yn dosbarthu gwybodaeth i'w cynorthwyo i ddarparu amgylcheddau chwarae cyfoethog yn rheolaidd.<br><br>Mae menter Haf o Hwyl Ceredigion yn enghraifft o'r ffordd y bu i'r awdurdod lleol, gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, gydweithio â'i bartneriaid i ddarparu cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel yn ystod gwyliau'r ysgol.<br><br>Mae'r fenter Gaeaf Llawn Lles yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, gydag 21 o brosiectau'n cael cefnogaeth. Yn eu plith mae rhaglenni gyda'r Geidiaid, mentrau Ysgolion y Goedwig, rhaglenni cynhwysiant, gweithgareddau ffermio, | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithgareddau adsefydlu ffoaduriaid, a gweithgareddau penodol cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) (adroddiad hunanasesu'r Uned Gofal Plant i Arolygiaeth Gofal Cymru) yn dweud yr hyn a ganlyn:<br>- gwnaeth chwe gwarchodwr plant ac un feithrinfa dydd newidiadau i'w hardaloedd chwarae;<br>- mae 58 lleoliad yn darparu cwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae;<br>- bu i ddau warchodwr plant nodi pwysigrwydd dysgu drwy chwarae;<br>- cyflawnodd dau warchodwr plant gynllun fframwaith ansawdd y Fframwaith Gwaith Chwarae.<br><br>Clywodd ymgynghoriad y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae gan 25 o grwpiau oedd yn cynrychioli parciau ac ardaloedd chwarae. Gwnaethant awgrymu rhannu | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybodaeth ynghylch sut i ganfod cyllid a sut i gyflawni archwiliadau effeithiol. | | |
| | Mae'r cyfleoedd gwaith chwarae a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol dan oruchwyliaeth staff yn bodloni'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | GWYRDD | GWYRDD | Cafwyd 295 o ymatebion i arolwg ar-lein y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd (Gorffennaf–Medi 2021). Roedd 90% o'r ymatebion gan famau, 6% gan dadau a 4% gan 'arall'. Bu i 93% ymateb yn Saesneg a 7% yn Gymraeg.<br><br>Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r cwestiwn '**Sut y gallwn ni wella gwasanaethau cymorth i deuluoedd lleol?**' yn dweud "mwy o bopeth!" Mae teuluoedd am gael mwy o ymweliadau, mwy o grwpiau, mwy o gyrsiau, mwy o weithgareddau llesiant a mwy o wibdeithiau. Eto, cafwyd ceisiadau i estyn oriau agor a gweithgareddau ar ôl oriau'r ysgol neu sesiynau cylchoedd meithrin, yn ogystal ag ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae’r Uned Gofal Plant yn cefnogi darpariaeth chwarae gofrestredig i rai 0-12 oed (sy’n bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol) drwy grantiau cynaliadwyedd, adnoddau, cyngor a chymorth ac ati.<br><br>Mae’r awdurdod lleol yn darparu cymorth i rieni, yn ymgysylltu â theuluoedd a/neu’n darparu addysg gofal plant drwy wasanaethau eraill y Cyngor.<br><br>Mae lleoliadau cofrestredig yn bodloni cymarebau staff/plant y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. | | |
| | Mae'r cyfleoedd gwaith chwarae a ariennir gan yr Awdurdod dan oruchwyliaeth staff yn bodloni'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | GWYRDD | GWYRDD | Mae’r awdurdod lleol yn comisiynu RAY Ceredigion i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd (chwarae). Mae pob sesiwn yn bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.<br><br>Mae’r holl ddarpariaeth gofal plant a gefnogir gan yr awdurdod lleol yn bodloni’r Safonau Gofynnol | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cenedlaethol, ac mae'r rheini nad ydynt yn cael cymorth i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br>Mae'r awdurdod lleol yn ariannu'n rhannol gyfleoedd chwarae DASH i blant ag anableddau a'u brodyr a'u chwiorydd. Mae'r cyfleoedd yn bodloni safonau rheoleiddio Arolygiaeth Gofal Cymru ac maent yn cael eu harolygu. | | |
| | Mae'r ddarpariaeth gwaith chwarae dan oruchwyliaeth staff a ddarperir gan bartneriaid yr Awdurdod Lleol yn bodloni'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | GWYRDD | GWYRDD | Nid yw'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth chwarae'n uniongyrchol, ond mae gan y tîm Pobl Ifanc Egnïol lawer o raglenni sy'n cyffwrdd â'r maes. Bydd y rhain yn gwella ac yn tyfu gan fod y Gwasanaeth Chwarae bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant yn sgil y broses ddiweddar i ailstrwythuro'r Cyngor.<br>Mae pob rhaglen wedi'i strwythuro, a darperir hyfforddiant gan staff y Canolfannau Llesiant. Mae'r rhaglenni hyn yn rhan o'r blaenoriaethau craidd a ariennir drwy Chwaraeon | Mae gan Wasanaeth Canolfannau Llesiant yr awdurdod lleol raglenni gwyliau a gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd chwarae heb eu cofrestru/strwythuredig mewn canolfannau hamdden.<br><br>Gwnaed llawer o sylwadau yn yr Arolwg Ymgysylltu â Theuluoedd am yr angen i wella'r modd y mae'r gwasanaethau a'r gweithgareddau | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymru. | penodol a ddarperir yn cael eu hyrwyddo:<br>❖ “Nid oeddwn yn gwybod am y gwasanaethau eraill.”<br>❖ “Mae’n anodd cael gafael ar wybodaeth am yr hyn sy’n digwydd; fe gefais wybod gan ffrindiau.”<br>❖ “Dim ond ar Facebook maen nhw’n hysbysebu; byddai e-bost yn gweithio i mi.”<br>❖ “Byddwn wrth fy modd o fynd yn amlach, ond dydw i ddim yn cael digon o wybodaeth.” | |
| | Caiff y cyfleoedd a gynigir i chwarae dan oruchwyliaeth staff yn yr Awdurdod Lleol eu darparu yn unol â rhaglen sicrwydd ansawdd gydnabyddedig | COCH | OREN | Rhoddwyd Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf ar waith yng Ngheredigion yn 2019. Roedd elfen o’r Rhaglen yn cynnwys gwaith chwarae, ac roedd yn dilyn fframwaith sicrwydd | Diffyg eglurder/gwybodaeth.<br><br>Beth yw’r mesur ansawdd? | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn blaenoriaethu materion ansawdd wrth ymgysylltu â'r sector preifat/ei gomisiynu i ddarparu gweithgareddau hamdden i blant | GWYRDD | GWYRDD | Nid yw'r awdurdod lleol yn seilio penderfyniadau caffael ar y pris gorau. Mae Strategaeth Gaffael Ceredigion 2018-2022 yn dweud: "…bydd proses Gaffael Ceredigion yn sicrhau (…) [g]werth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o **ansawdd a phris**." Lluniwyd offeryn ar ffurf taenlen i sicrhau bod proses gadarn ar waith i werthuso **ansawdd a phris** elfennau o'r tendrau a gyflwynir.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cydweithio'n agos â sefydliadau allanol a darparwyr preifat i wella ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Mae pob darparwr yn cael ei wirio'n briodol ac mae unrhyw broblemau ansawdd yn cael eu codi ac yn cael sylw ar unwaith.<br><br>Mae gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion gyfeiriadur o | Mae prinder darparwyr lleol yn cyfyngu ar y dewisiadau o ran darpariaeth. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sefydliadau/cwmnïau o ansawdd uchel sy'n darparu gweithgareddau hamdden i bobl ifanc, gan sicrhau bod ansawdd yn flaenoriaeth a bod dewisiadau pobl ifanc yn cael eu hystyried drwy ymgynghori'n rheolaidd â nhw.<br><br>Mae Ceredigion Actif yn defnyddio 'holiaduron darparwyr allanol' pan fydd yn defnyddio darparwyr allanol. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd berthnasol yn ei lle o ran hyfforddiant, iechyd a diogelwch, ac yswiriant. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu safleoedd a mannau sy'n eiddo i'r cyngor yn rhad ac am ddim i sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth gwaith chwarae am ddim i blant (ar y pwynt mynediad) | OREN | OREN | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn caniatáu i sefydliadau allanol ddefnyddio ei ganolfannau ieuenctid er mwyn darparu cyfleoedd chwarae. | Mae'r awdurdod lleol yn darparu safleoedd wedi'u cymorthdalu i sefydliadau. Bydd ymrwymiad yr awdurdod lleol i greu tair canolfan lesiant yng ngogledd, canol a de Ceredigion yn cryfhau ymhellach y cyfleoedd sydd ar gael i sefydliadau yn y trydydd sector. | |

**Gweithgareddau hamdden strwythuredig i blant**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae cynlluniau awdurdodau lleol mewn perthynas â chwaraeon, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol yn cyfrannu at gynyddu gweithgareddau chwarae a hamdden sydd ar gael am ddim | GWYRDD | GWYRDD | Mae rhaglenni gweithgareddau blynyddol Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cyfrannu at gynyddu nifer y gweithgareddau chwarae rhydd a hamdden sydd ar gael i bobl ifanc y sir. Mae'r holl gyfleoedd cyffredinol a chyfleoedd wedi'u targedu a ddarperir i blant a phobl ifanc ar gael yn rhad ac am ddim ac yn dilyn 'polisi drws agored'. Ymhlith enghreifftiau o'r gweithgareddau mae chwaraeon awyr agored, chwaraeon dŵr, a gweithgareddau anffurfiol mewn canolfannau sy'n annog gweithgarwch corfforol a symud.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cefnogi | Gwybod beth sy'n digwydd o fewn ystod oedran o ran cysylltiadau teuluol.<br><br>Yn sgil toriadau cyllidebol, bu'n rhaid i gynlluniau chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol gael hyd i ffyrdd o gynnal y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na chynyddu gweithgareddau.<br><br>Canfu'r Asesiad Llesiant Lleol fod fforddiadwyedd gwasanaethau hamdden a mynediad atynt yn broblem, a bod angen mwy o | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfleoedd ehangach, fel Diwrnodau Chwaraeon y Clybiau Ffermwyr Ifanc, i roi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol drwy gytundebau lefel gwasanaeth penodol.<br><br>Canfu'r Arolwg Cenedlaethol o Chwaraeon Ysgol yn 2018 fod plant Ceredigion yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau corfforol nag yr oeddent yn 2015. (Cynhelir yr arolwg nesaf yn yr haf 2022.)<br><br>Mae Ceredigion Actif yn cynnal nifer gynyddol o raglenni i wella sgiliau corfforol, hyder a chymhelliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn gorgyffwrdd mwyfwy ag egwyddorion chwarae.<br><br>Yn sgil yr ailstrwythuro i gynnwys y Gwasanaeth Chwarae yn y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant, bydd modd i staff gynllunio a darparu gweithgareddau | ardaloedd chwarae/cyfleusterau hamdden. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae penodol a gweithgareddau chwarae/gweithgarwch corfforol hybrid.<br><br>Mae cynlluniau gwasanaeth yn croesi ffiniau gwasanaethau erbyn hyn, felly mae llawer o wasanaethau'n rhannu gwybodaeth, cynlluniau ac argaeledd grantiau. | | |
| | Mae'r agenda chwaraeon yn helpu i sicrhau bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant | OREN | GWYRDD | Ceir llawer o glybiau chwaraeon yng Ngheredigion sy'n rhoi cyfle i blant o bob oed gymryd rhan mewn chwaraeon.<br>Mae Cyngor Chwaraeon Ceredigion yn cefnogi'r clybiau hyn o ran addysgu hyfforddwyr, strwythur clybiau, arian grant, a materion amddiffyn plant.<br>Mae canolfannau hamdden hefyd yn darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwarae gydol y flwyddyn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant yn ymgynghori ar y | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | strategaeth i olynu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Hamdden y Cyngor, ac mae cyfleoedd chwarae wedi'u cynnwys ynddi. | | |
| | Mae'r agenda diwylliant a'r celfyddydau yn helpu i sicrhau bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant | GWYRDD | GWYRDD | Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant hŷn pan fo llai o gyfleoedd yn y cwricwlwm cenedlaethol iddynt ymwneud â'r celfyddydau a drama. Mae Canolfan y Celfyddydau ym Mhrifysgol Aberystwyth yn flaenllaw yn y maes hwn ac mae wedi rhoi prosiectau ar waith ar gyfer teuluoedd incwm isel.<br><br>Mae rhaglenni gweithgareddau blynyddol Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cyfrannu at gynyddu nifer y gweithgareddau chwarae rhydd a hamdden sydd ar gael i bobl ifanc y sir. Mae'r holl gyfleoedd cyffredinol a chyfleoedd wedi'u targedu a ddarperir i blant a phobl ifanc ar gael yn rhad ac am ddim ac yn dilyn 'polisi drws agored'. Darperir gweithgareddau ym maes drama, celf a chrefft, | Nid yw llawer o gyfleoedd allanol ond ar gael i'r rheini sy'n gallu eu fforddio. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | coginio, a chynhyrchu ffilmiau, ymhlith eraill.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cydweithio â sefydliadau celfyddydol, fel y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Ceredigion, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Mwldan ac ati, i ddarparu ac i ddatblygu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau i bobl ifanc.<br><br>Mae'r Urdd yn amlwg iawn yng Ngheredigion, gyda gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn digwydd mewn ysgolion a chlybiau cymunedol.<br><br>Mae Theatr Felinfach yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth a drama, e.e. yn ystod 2021, darparodd sesiynau 'Bore Da Drama' i blant a phobl ifanc sy'n cael addysg yn y cartref. Mae'r Theatr newydd gychwyn ar brosiect i bobl ifanc a fydd | | Cynnwys staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn yr hyfforddiant Arwain Cyfleoedd Chwarae. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn rhoi cyfle i'w grwpiau plant a phobl ifanc (Clwb Drama, Ysgol Berfformio a Theatr Ieuenctid) gydweithio ag artistiaid gwadd proffesiynol mewn meysydd amrywiol.<br><br>Mae prosiect 'Cadw mewn Cysylltiad' y Theatr yn cynorthwyo aelodau'r grŵp 'Hwyl a Hamdden' i anfon cardiau post at ei gilydd er mwyn iddynt gadw mewn cysylltiad. | | |
| | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasu | GWYRDD | GWYRDD | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gysylltu â'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden mewn cyd-destunau amrywiol, sef ysgolion, clybiau ieuenctid a darpariaeth gyffredinol, yn enwedig ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi ennill pob un o'r tri Nod Ansawdd Gwaith Ieuenctid yng Nghymru a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at arferion da mewn sawl maes. | Nid yw cymwysterau Gwaith Ieuenctid yn cynnwys cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau chwarae. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i gynnal gweithgareddau o ansawdd uchel, gan gynnwys y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant a'i raglenni, yn ogystal â hyfforddwyr pêl-droed allanol, hyfforddwyr hunanamddiffyn, clwb saethyddiaeth lleol, clwb rhwyfo lleol, a chwmnïau dawns. | | |

**Darparu cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth**

**Lle bo'r Awdurdod Lleol wedi asesu lleoliadau fel rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, sut yr aseswyd y lleoliadau hyn o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae y maent yn eu darparu ac yn eu cynnig?**
Nid yw'r awdurdod lleol yn asesu lleoliadau fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Pwrpas yr Asesiad hwnnw yw asesu digonolrwydd a swm y gofal plant sydd ar gael yng Ngheredigion. Serch hynny, mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gofyn a yw unrhyw leoliadau gofal plant neu chwarae wedi cwblhau Cynllun Sicrwydd Ansawdd gyda'r Mudiad Meithrin, Pacey Cymru neu Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), cyrff y mae ganddynt eu cynlluniau eu hunain.

Ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf ar gyfer 2017 - 2022, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi newid y categori ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Yn wreiddiol, câi'r rhain eu rhestru fel gofal plant, ond maent bellach yn cael eu rhestru fel darpariaeth chwarae, ac felly mae'n ofynnol i'r holl staff feddu ar gymwysterau priodol ym maes gwaith chwarae.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn parhau i arolygu clybiau ar ôl yr ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, yn ogystal ag unrhyw sesiynau chwarae mynediad agored cofrestredig. Pan fydd Arolygiaeth Gofal Cymru'n cynnal arolygiad, bydd yn rhoi sylw i bedwar maes yn benodol, sef llesiant, gofal a datblygiad, amgylchedd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Pan fydd darparwyr gofal plant a chwarae'n gwneud cais i gael grant cynaliadwyedd, gofynnir iddynt nodi ar eu ffurflen gais sut y maent yn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd chwarae cyfoethog, ac fe rennir unrhyw gyfleoedd eraill i gael grantiau â'r sector. Cafodd hyn ei ychwanegu at y ffurflen gais yn sgil argymhelliad yn yr adroddiad am yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol.

Mae'r Uned Gofal Plant yn parhau i ddarparu gwybodaeth am fanteision chwarae. Darperir hyfforddiant gwaith chwarae gan Glybiau Plant Cymru ac fe'i hyrwyddir gan yr Uned Gofal Plant.

**Sut yr aseswyd darpariaeth nad yw'n rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae y maent yn eu darparu ac yn eu cynnig?**

Fel y soniwyd eisoes, pwrpas yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yw asesu digonolrwydd a swm y gofal plant sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn rhoi sylw i bob math o ofal plant a darpariaeth chwarae, boed wedi'i gofrestru ai peidio.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**

Ers mis Mawrth 2020, ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau corfforol ag unrhyw leoliad gofal plant na chwarae oherwydd COVID-19 a chyfyngiadau'r awdurdod lleol. Mae hyn wedi bod yn her fawr gan ein bod wedi gorfod cynnal pob ymweliad, a gynhelir unwaith bob hanner tymor, yn rhithiol. Mae hyn yn golygu nad yw'r Swyddogion Datblygu'n gallu arsylwi yn yr un ffordd, ac maent yn ei chael yn anoddach rhoi cyngor i leoliadau ar sail yr arsylwadau hynny. Oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo, bu'n rhaid i nifer o leoliadau gofal plant a chwarae gau, gan roi'r staff ar ffyrlo. Felly, nid oedd modd iddynt dderbyn negeseuon e-bost/galwadau ffôn.

Her arall yn ystod pandemig COVID-19 oedd y ffaith nad oedd modd i leoliadau gofal plant a chwarae sydd wedi'u lleoli ar safleoedd ysgol agor am gyfnod. Roedd yr angen i leoliadau gofal plant a chwarae sicrhau bod plant yn aros yn eu 'swigen' hefyd yn broblem, oherwydd byddai rhai plant yn cael eu hynysu oherwydd nad oedd neb arall o'u 'swigen' yn yr ysgol yn mynd i glwb ar ôl yr ysgol, felly byddai'n rhaid iddynt chwarae ar eu pennau eu hunain. Nid oedd yn gynaliadwy i leoliadau staffio swigod ac ynddynt un neu ddau o blant yn unig. Hefyd, dywedodd clybiau ar ôl yr ysgol nad oedd plant yn gallu symud o gwmpas yn ddirwystr a'u bod yn cael eu hatal rhag mynd i rai ardaloedd i osgoi cymysgu ac i gadw at eu 'swigen' yn yr ysgol.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, roedd prinder darpariaeth gyffredinol ar gyfer gofal plant a chwarae, ac roedd hyn yn her i deuluoedd a phlant, yn enwedig i rieni sy'n gweithio ac i rai plant a gynorthwyir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol/Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn parhau i fod yn her hyd heddiw.

**Sut mae eu goresgyn?**
Bu'n rhaid i bob lleoliad gofal plant a chwarae gau am gyfnod. Oherwydd pwysau ariannol a phwysau staffio mae rhai wedi cau'n barhaol. O'r herwydd, mae'r ddarpariaeth gofal plant a chwarae gofrestredig sydd ar gael i deuluoedd wedi lleihau. Serch hynny, mae'r Uned Gofal Plant yn parhau i gynorthwyo darparwyr gofal plant a chwarae newydd a rhai a oedd yn bodoli eisoes i sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant a chwarae ar gael. Gan fod y ddarpariaeth gofal plant a chwarae wedi dechrau ailagor erbyn hyn, mae'r dulliau cyfathrebu rhwng yr Uned Gofal Plant a'r darparwyr yn gwella.

Mae'r Canllawiau Gofal Plant a Chwarae a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru'n caniatáu i blant gymysgu erbyn hyn, felly nid oes angen eu cadw mewn 'swigod' penodol.

Y nod yn y tymor hir yw ystyried yr effaith y mae darpariaeth yn ystod y gwyliau nad yw wedi'i chofrestru yn ei chael ar ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig, a hynny'n benodol pan fo'r lleoliadau nad ydynt wedi cofrestru'n gweithredu o dan y rhestr eithriadau i osgoi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r Arolwg Coronafeirws a Fi a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn tynnu sylw at rai pwyntiau pwysig o ran yr angen am gyfleoedd chwarae. Drwy greu rôl newydd yn y Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwarae, y bwriad yw y bydd camau gweithredu allweddol a bennwyd mewn arolygon pwysig ac a danlinellwyd yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 yn cael eu rhoi ar waith drwy gynllun busnes y swyddog newydd.

Bu i'r Arolwg Coronafeirws a Fi a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yng Ngheredigion ym mis Ionawr 2021 ofyn a oedd plant yn chwarae mwy neu lai ers iddi fod yn ofynnol iddynt aros gartref oherwydd y coronafeirws. Dywedodd 36% o'r grŵp o blant a ddewiswyd eu bod yn chwarae'n amlach ers iddi fod yn ofynnol iddynt aros gartref, dywedodd 31% eu bod yn chwarae'n llai aml, a dywedodd 33% eu bod yn chwarae tua'r un faint ag o'r blaen.

Gofynnodd yr Arolwg Coronafeirws a Fi hefyd i blant Ceredigion beth yr oeddent wedi bod yn ei wneud i gadw'u cyrff a'u meddyliau'n iach.
Y tri gweithgaredd a ddewiswyd amlaf oedd:
• Chwarae (100%)
• Ymarfer corff (75%)
• Siarad â ffrindiau a theulu (75%)

**Sylwadau:**

**Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n codi tâl ac i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y taliadau hyn wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant o deuluoedd incwm isel fel y nodir yn y Canllawiau Statudol.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o nifer y plant o deuluoedd incwm isel | GWYRDD | GWYRDD | Cedwir data am nifer y plant o deuluoedd incwm isel. Mae dangosfyrddau data’n cael eu datblygu i sicrhau bod modd inni gadw llygad ar ardaloedd sy’n peri pryder penodol. Ar hyn o bryd, fe’u defnyddir i fonitro hynt Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Strategaeth Economaidd Cyngor Ceredigion. Fe’u defnyddiwyd hefyd gan y trydydd sector i gael gafael ar arian grant ar gyfer gwasanaethau ychwanegol mewn ardaloedd lle ceir angen. | Hyd yma, nid yw’r dangosfyrddau’n caniatáu inni ddadansoddi data ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) nac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA), ac ni chânt eu defnyddio’n gyffredinol eto i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau. | Mae tîm Partneriaethau a Pherfformiad y Cyngor yn parhau i ddatblygu’r dangosfyrddau data i sicrhau bod modd targedu darpariaeth at yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o nifer y | GWYRDD | GWYRDD | Fel uchod | Fel uchod | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig | | | | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o nifer y plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | GWYRDD | GWYRDD | Fel uchod | Fel uchod | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o nifer y plant anabl a'r rheini ag anghenion penodol | GWYRDD | GWYRDD | Mae gan y Tîm Plant Anabl gofnod o'r plant ag anableddau y mae'n eu cynorthwyo, ac mae gan y Gwasanaeth Addysg gofnod o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Comisiynir darparwr o'r trydydd sector i gynorthwyo plant ag anableddau i gael mynediad at gyfleoedd chwarae, gofal plant a hamdden. Mae'n cadw ei gofnodion ei hun. | Nid yw'r systemau cofnodi'n gysylltiedig â'i gilydd – nid oes gennym gofnod o gyfanswm y plant ag anableddau.<br><br>Yn flaenorol, roedd ein Tîm Plant Anabl wedi'i leoli ar y cyd â staff plant arbenigol Hywel Dda. Mae'r tîm amlddisgyblaethol hwn wedi gwahanu erbyn hyn. Nid yw pob plentyn ag anableddau wedi'i gofrestru â'r Tîm Plant Anabl. Mae rhai wedi'u cofrestru â thimau iechyd Hywel Dda yn unig. Caiff plant sy'n cael | Gweithio ar system a fydd yn sicrhau bod yr holl blant ag anabledd yn gallu cael mynediad at gynlluniau DASH, nid dim ond y rheini ar gofrestr y Tîm Plant Anabl. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cymorth gan y Tîm Plant Anabl eu hatgyfeirio at gynlluniau DASH yn awtomatig; ceir pryderon y bydd plant ag anableddau nad ydynt wedi'u cofrestru â'r Tîm Plant Anabl yn ei chael yn anodd cael mynediad at gynlluniau DASH.<br><br>Mae hyn yn cael sylw fel rhan o'r ymarfer ailstrwythuro cyffredinol i gyflwyno'r Model Gydol Oes a Llesiant. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi argaeledd darpariaeth am ddim | OREN | GWYRDD | Erbyn hyn, mae'n ofynnol i bob darparwr a gomisiynir gan yr awdurdod lleol lwytho gwybodaeth am ei ddarpariaeth i wefan Dewis Cymru er mwyn i deuluoedd allu gweld pa ddarpariaeth sydd ar gael am ddim yn eu hardal. | Nid yw'n glir a yw darpariaeth am ddim nas comisiynir gan yr awdurdod lleol yn cael ei chofnodi ar wefan Dewis Cymru. Nid yw holl ddarpariaeth yr awdurdod lleol yn | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r awdurdod lleol yn cydgysylltu Grŵp Statudol y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, a'r Grŵp Rhianta a Chymorth i Deuluoedd. Rhoddir gwybod i'r ddau grŵp hyn am y ddarpariaeth sydd ar gael am ddim er mwyn i'r darparwyr hyrwyddo'r ddarpariaeth ymhlith rhieni. | cael ei chofnodi ar wefan Dewis Cymru. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r safleoedd a ddarperir am ddim/am gost isel i'w defnyddio ar gyfer darpariaeth chwarae | OREN | GWYRDD | Erbyn hyn, mae parciau chwarae cymunedol wedi'u rhestru ar wefan Dewis Cymru. Ceir dolen at y wefan ar dudalen we'r Cyngor am gyfleoedd chwarae.<br><br>Ar y dudalen we hon, ceir dolen at wefan Darganfod Ceredigion hefyd, lle ceir rhestr o goetiroedd, traethau a chyrchfannau awyr agored eraill. | Mae rhestrau Dewis Cymru'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd ac mae angen inni drosglwyddo'r berchnogaeth i berchnogion y parciau cymunedol.<br><br>Nid ydym yn sicr a oes unrhyw safleoedd dan do ar gael am gost isel/am ddim at ddibenion chwarae – canolfannau hamdden a neuaddau pentref? Mae Cymdeithas Mudiadau | Trosglwyddo perchnogaeth yr wybodaeth am barciau chwarae cymunedol ar wefan Dewis Cymru o ddwylo'r Cyngor i ddwylo perchnogion y parciau chwarae cymunedol. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) wedi creu gwefan Neuaddau Ceredigion ond nid yw'n rhestru pob neuadd ac ni cheir unrhyw brisiau. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r darpariaethau lle mae grantiau neu gymorthdaliadau ar gael i ddarparwyr cyfleoedd chwarae | OREN | OREN | Mae gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael ar gyfer chwarae yn dueddol o gael ei dosbarthu drwy restrau e-bost at y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae. O wneud hynny, gall yr awdurdod lleol gyfathrebu'n uniongyrchol â darparwyr cyfleoedd chwarae ynghylch grantiau a chymorthdaliadau.<br><br>Mae Grant Cymunedol Ceredigion ar gael i ddarparwyr cyfleoedd chwarae. Mae gwybodaeth am y grant hwn ar gael yn rhwydd ar wefan yr awdurdod lleol.<br><br>Yn ogystal â chynnal chwiliadau am arian ar gyfer darparwyr cyfleoedd chwarae, bu CAVO yn ymwneud â'r | Gall capasiti pwyllgorau rheoli'r ardaloedd chwarae fod yn broblem. Os nad oes gan ddarparwyr cyfleoedd chwarae gapasiti i gymryd rhan yn y grwpiau hyn neu i ymuno â'r rhestrau e-bost, ni fyddant yn dod i wybod am y grantiau a'r cymorthdaliadau sydd ar gael. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwaith o hysbysebu a hyrwyddo'r Grant Gaeaf Llawn Lles, penderfynu arno a'i ddosbarthu.<br><br>Mae'r holl geisiadau i gael grantiau cyfalaf a refeniw'r cynllun Gaeaf Llawn Lles ar gael ar safleoedd MS Teams newydd. Yno, gellir cael gafael ar y ceisiadau, cofnodion cyfarfodydd, a'r penderfyniadau dyfarnu. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu trafnidiaeth â chymhorthdal i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae | COCH | OREN | Mae mentrau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles wedi bod o gymorth o ran hyn yn ystod 2021. Darperir cludiant i grwpiau sy'n agored i niwed (e.e. gofalwyr ifanc, plant ag anableddau, plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd mewn perygl o droseddu) i'w cludo at gyfleoedd chwarae a chyfleoedd hamdden. | Nid yw'r awdurdod lleol fel arfer yn darparu cludiant â chymhorthdal yn benodol i deithio at gyfleoedd chwarae. (Mae eleni yn eithriad.) Mae'n anodd gweld hyn yn newid yn y tymor hir. | |

**Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae am ddim neu am gost isel?**
Mae hyn yn gwella a gwnaed llawer o welliannau dros y 12 mis diwethaf. Gellir cael hyd i gyfleoedd o'r fath drwy wefan Dewis erbyn hyn. Mae gennym gryn ffordd i fynd i roi'r holl ddarpariaeth ar y wefan. Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod plant y mae ei hangen arnynt yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth am ddim neu am gost isel. Mae llawer o wasanaethau (fel Dechrau'n Deg) yn targedu ardaloedd difreintiedig. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymhorthdal ar gyfer cymorth i deuluoedd mewn lleoliadau yn y Borth, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron, Aberaeron, Penparcau ac Aberteifi, ac ni chodir tâl am y gweithgareddau hyn. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn rhoi cymhorthdal ar gyfer darpariaeth a gweithgareddau am ddim/am gost isel i ofalwyr ifanc ac i blant a phobl ifanc ag anableddau. Defnyddir arian y Gronfa Datblygiad Plant a chyllid allgymorth Dechrau'n Deg i dalu am ofal plant am ddim i'r plant a atgyfeirir atynt. Bydd Canolfannau Llesiant ar draws yr awdurdod hefyd yn gallu cydweithio â gwasanaethau sy'n bartneriaid i wella'r ddarpariaeth am ddim/am gost isel. Bu i fentrau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles ddarparu cyfleoedd niferus i blant ifanc a dargedir, ond nid yw budd hirdymor y grantiau hyn wedi'i brofi hyd yma.

Ceir cysylltiadau da â CAVO, ac mae'r Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn gallu hyrwyddo cyfleoedd, darpariaeth a grantiau. Mae Grant Cymunedol Ceredigion ar gael i ddarparwyr cyfleoedd chwarae. Mae gwybodaeth am y grant hwn ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Mae COVID wedi bod yn her enfawr, nid dim ond i'r ddarpariaeth i bobl ifanc, ond hefyd i'r ddarpariaeth cymorth i deuluoedd, ac i staff y Cyngor. Mae'n parhau i fod yn her i lawer o wasanaethau.
Mae Ceredigion yn datblygu systemau data newydd drwy'r Model Gydol Oes a Llesiant a bydd hyn yn helpu gwasanaethau i wybod yn union ble mae'r holl blant o deuluoedd incwm isel wedi'u lleoli.

**Sut mae eu goresgyn?**
Mae angen gwneud mwy o welliannau ac ychwanegu mwy o wybodaeth at wefan Dewis. Mae'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant (gan gynnwys y Gwasanaeth Chwarae) yn pwyso a mesur y ffordd y mae cyfleoedd yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo. Maent yn gobeithio y bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n well a bod yr wybodaeth iawn yn cyrraedd y bobl iawn.
Mae ymgorffori'r Gwasanaeth Chwarae yn y Gwasanaeth Chwarae a Gweithgarwch Corfforol Gydol Oes hefyd yn hollbwysig o ran datblygu rhaglenni'r awdurdod lleol. Byddwn yn parhau i ddosbarthu gwybodaeth am grantiau ac arian i'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae, a byddwn yn parhau i gefnogi cydweithredu rhwng meysydd y blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd, gofal plant a darpariaeth chwarae drwy Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

**Sylwadau:**

**Mater F: Mynediad i le/darpariaeth**

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried yr holl ffactorau sy'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i chwarae neu i symud o amgylch eu cymunedau.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o nifer y parthau 20 milltir yr awr/parthau diogelwch ysgolion mewn ardaloedd preswyl | GWYRDD | GWYRDD | Cedwir cofnod cyfredol o'r holl derfynau cyflymder ar ein ffyrdd sirol ar ffurf gorchymyn sy'n seiliedig ar fap. | | Mae system yn ei lle i'w monitro a'u hadolygu'n barhaus. |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddull o asesu effaith mesurau lleihau cyflymder a mesurau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd ar y cyfle sydd gan blant i chwarae y tu allan yn eu cymunedau | GWYRDD | GWYRDD | Cynhelir adolygiad o'r terfynau cyflymder ar ffyrdd a gynhelir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd. Mae'r adolygiad nesaf yn debygol o ddilyn y camau i roi ar waith gynnig Llywodraeth Cymru i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig / ffyrdd â goleuadau stryd (ffyrdd â therfyn cyflymder o 30mya) ledled Cymru (o fis Ebrill 2023). Rydym yn aros i gael canllawiau gan Lywodraeth Cymru. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rydym yn ymgymryd â gwaith monitro parhaus ar y cyd â Gan Bwyll – Partneriaeth Camerâu Diogelwch Cymru, yr Heddlu a chynrychiolwyr cymunedau lleol, a thrwy Is-grŵp Diogelwch ar y Ffordd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol amlasiantaethol Ceredigion. Gwneir gwaith gorfodi drwy Gan Bwyll a'r Heddlu lle bo angen.<br><br>Gall cymunedau gysylltu â Heddlu Dyfed Powys/Gan Bwyll i drefnu menter Gwylio Cyflymder Cymunedol, Ymgyrch Snap, a mentrau eraill o'r fath i godi ymwybyddiaeth. | | |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i leihau effaith negyddol ffyrdd a chyffyrdd prysur drwy gyflwyno mesurau lleihau cyflymder a darparu mannau croesi/llwybrau diogel i gerddwyr a seiclwyr | OREN | OREN | Caiff y terfynau cyflymder ar ffyrdd a gynhelir gan y Cyngor eu hadolygu o bryd i'w gilydd (gweler uchod) a chyflwynir newidiadau yn ôl y gofyn. Rydym yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn y tri anheddiad Teithio Llesol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru (Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan) a chynlluniau eraill a bennir ac a | Caiff arian Teithio Llesol ei gyfeirio'n uniongyrchol i'n hardaloedd trefol yn unig. Rhoddir rhai cynlluniau peirianneg diogelwch ar y ffyrdd ar waith mewn lleoliadau eraill yn ddibynnol ar achos busnes | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | flaenoriaethir (gan ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael).<br><br>Cyflwynwyd rhai gwelliannau fel mesurau dros dro mewn perthynas â pharthau diogel Ceredigion yn sgil pandemig COVID-19. | cadarn, trefn flaenoriaethu ac argaeledd adnoddau. | |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i wella'r mynediad sydd gan gerddwyr a seiclwyr i barciau, cyfleusterau chwarae awyr agored a chanolfannau hamdden lleol o ardaloedd preswyl | OREN | GWYRDD | Mae gan y Cyngor Gynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae hwn yn gynllun statudol sy'n gosod sail ar gyfer ein hamcanion dros y deg mlynedd nesaf. Cyhoeddwyd y cynllun yn 2019 ac mae ar gael i'w weld fan hyn https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/hawliau-tramwy-cyhoeddus/cynllun-gwella-hawliau-tramwy-ceredigion/.<br><br>Mae'n gysylltiedig â'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn y tri anheddiad Teithio Llesol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru (Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan). | Mae Teithio Llesol yn canolbwyntio'n bennaf ar deithiau byr a wneir o ddydd i ddydd i fynd i'r ysgol, i'r coleg, i'r gwaith ac i ddefnyddio cyfleusterau lleol. Mae'n anodd i gynlluniau tu allan i'r tri anheddiad a ddynodwyd gael mynediad at arian grant. | |
| | Mae potensial i'r Awdurdod Lleol gymryd camau pellach i leihau | GWYRDD | GWYRDD | Caiff terfynau cyflymder y sir eu hadolygu o bryd i'w gilydd (gweler uchod) a bydd y terfyn cyflymder | Mae argaeledd staff ac adnoddau ariannol ar draws y | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyflymder traffig a gwella diogelwch ar y ffyrdd er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae | | | yn cael ei newid yn ddiofyn o 30mya i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig / ffyrdd â goleuadau stryd o fis Ebrill 2023, yn ddibynnol ar eithriadau penodol. Caiff y terfynau amser presennol eu gorfodi drwy Bartneriaeth Camerâu Diogelwch Gan Bwyll Cymru a Heddlu Dyfed Powys. Mae hyn yn cynnwys mesurau tawelu traffig lle y gallant gyfrannu at gynllun peirianneg diogelwch ar y ffyrdd sy'n targedu'r defnyddwyr sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddata am wrthdrawiadau traffig ffordd ac anafiadau personol, ac yn cael eu blaenoriaethu ar sail y data hynny.<br><br>Mae ein Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn darparu rhaglen addysg, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ran diogelwch ar y ffyrdd i ysgolion cynradd – mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Kerbcraft am ddiogelwch plant sy'n cerdded a'r Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio i sicrhau bod plant yn meddu ar sgiliau | sector cyhoeddus yn parhau i fod yn destun pryder. Effaith pandemig COVID-19 ar raglenni hyfforddi diogelwch ar y ffyrdd – ailflaenoriaethu rhaglenni gwaith, symud staff i ymdrin ag ymateb y Cyngor i COVID–19, a phenderfyniad y Drefn Reoli Aur i atal hyfforddiant ymarferol mewn ysgolion ac i aelodau o'r cyhoedd (e.e. gwersi gyrru uwch / gwersi gyrru beic modur). | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sylfaenol i'w trosglwyddo i'w teithiau bob dydd. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd a/neu arian arall i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant seiclo i blant yn unol â safonau cenedlaethol | GWYRDD | GWYRDD | Gweler uchod o ran y Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio a ddarperir i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ysgolion Ceredigion. Fe'i hariennir drwy arian refeniw Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | Dim ar hyn o bryd, ond ceir pryderon fod hyfforddiant yn ddibynnol ar ddyraniadau grant o flwyddyn i flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, a bod y rhain yn seiliedig ar fformiwla sy'n cynnwys ffigurau poblogaeth. Mae swm y grant wedi gostwng yn raddol dros gyfnod. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd a/neu arian arall i ddarparu hyfforddiant diogelwch cerddwyr i blant | GWYRDD | GWYRDD | Darperir hyfforddiant Kerbcraft o ran diogelwch plant sy'n cerdded i ysgolion cynradd Ceredigion ac fe'i hariennir drwy'r Grant Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd. | Fel uchod | |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hygyrch a hysbys o gau ffyrdd dros dro fel bod mwy o blant yn gallu chwarae y tu allan i'w cartrefi | GWYRDD | GWYRDD | Mae gan y Cyngor wybodaeth, ac mae unrhyw ffioedd yn cael eu cyhoeddi ar ei wefan neu'u darparu drwy Clic Ceredigion. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gan yr adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol weithdrefnau safonol i dderbyn ac i brosesu ceisiadau i gau ffyrdd dros dro ar gyfer digwyddiadau arbennig. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at y *Llawlyfr Strydoedd* wrth ystyried datblygiadau newydd a newidiadau i'r rhwydwaith priffyrdd/amgylchedd trefol | GWYRDD | GWYRDD | Mae'r Cyngor yn ymlynu wrth safonau dylunio priodol ac yn rhoi'r safonau hynny ar waith pan fydd yn gwella seilwaith neu'n creu seilwaith newydd, fel y'u cyhoeddir yn y Llawlyfr Strydoedd, y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, a'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol. Defnyddir safonau cymeradwy eraill y diwydiant o ran mynediad at gludiant cyhoeddus. | Bydd heriau neilltuol ynghlwm wrth bob lleoliad o ran rhoi'r safonau dylunio ac adeiladu ar waith yn gyson – e.e. topograffeg. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â chanllawiau arfer da a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ddatblygu cyfleusterau cerdded a seiclo | GWYRDD | GWYRDD | Ydy, gan gyfeirio at Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data ar nifer yr anafiadau i gerddwyr sy'n blant a achosir gan ddamwain ar y ffordd i | OREN | GWYRDD | Defnyddir data am wrthdrawiadau traffig ffordd ac anafiadau personol, ynghyd ag asesiad risg, i osod sail ar gyfer datblygu cynlluniau peirianyddol ac i | Argaeledd data a thueddiadau mewn sefyllfa lle ceir niferoedd cymharol isel o anafusion. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | lywio penderfyniadau ynghylch lleoliad a chynllun ymyriadau sy'n helpu plant i symud o amgylch eu cymunedau yn annibynnol | | | dargedu'r adnoddau sydd ar gael o ran addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.<br>Cafodd parthau 20mya â chynlluniau tawelu traffig eu blaenoriaethu gerllaw ysgolion ledled y sir.<br><br>Drwy weithio mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys o ran diogelwch wrth groesfannau rheilffordd. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried yr angen i blant gael cyfle i chwarae wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus a'r ffordd y caiff ei chynllunio | OREN | OREN | Y gwir amdani yw bod y gwasanaethau bws cyhoeddus a ddarperir yng Ngheredigion (ac yn y Gymru wledig yn gyffredinol) yn dibynnu i raddau helaeth ar y gyllideb sydd ar gael o ran amlder y gwasanaethau a'r llwybrau. Mae cyllid cyhoeddus i ddarparu cymhorthdal ar gyfer llwybrau a gwasanaethau wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw cwmnïau bysiau lleol yn tybio eu bod yn fasnachol hyfyw. Yr eithriad yw rhwydwaith Traws Cymru sy'n gwasanaethu coridor yr arfordir o Wynedd drwy | Argaeledd arian cyhoeddus, a gall penderfyniadau ar wasanaethau a llwybrau gael eu gwneud gan sefydliadau ac eithrio'r Cyngor Sir. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Geredigion i Sir Benfro a hefyd i Gaerfyrddin.<br><br>Mae gwasanaethau trenau i/o orsafoedd Aberystwyth, Bow Street, y Borth a Chyffordd Dyfi yng Ngheredigion yn cael eu cynllunio, eu hariannu a'u gweithredu gan Trafnidiaeth Cymru erbyn hyn. Agorodd y Gyfnewidfa Cludiant Cyhoeddus newydd yn Bow Street ym mis Chwefror 2021, gan ddarparu cysylltiadau Teithio Llesol helaeth yn Bow Street ei hun a rhwng y pentref a Phenrhyn-coch. Mae mwy o welliannau'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. | | |
| | Mae dealltwriaeth o ofynion plant anabl, a darperir ar eu cyfer o fewn cynlluniau traffig a thrafnidiaeth | GWYRDD | GWYRDD | Mae'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol a chanllawiau eraill o ran dylunio priffyrdd yn pennu safonau i sicrhau gwelliannau hygyrchedd i bawb.<br><br>Defnyddir Asesiadau Effaith Integredig i rag-weld effaith newidiadau i'r seilwaith a'r gwasanaethau cyfredol ac effaith seilwaith a gwasanaethau newydd. Dilynir polisïau a gweithdrefnau corfforaethol o ran | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau â nodweddion gwarchodedig ym mhob cam o'r broses o ddatblygu cynlluniau. | | |

**Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau:**
**Er mwyn i blant a theuluoedd fanteisio ar gyfleoedd chwarae, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau mae angen iddynt wybod beth sy'n cael ei gynnig yn eu hardal.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol adran a nodir yn glir ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y'u disgrifir yn y Canllawiau Statudol (ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae, clybiau a'u hygyrchedd) | OREN | OREN | Erbyn hyn, mae manylion am ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae a chlybiau, ynghyd â'u manylion hygyrchedd, wedi'u rhestru ar wefan Dewis Cymru. Ceir dolen at y wefan ar [dudalen we'r Cyngor am gyfleoedd chwarae]().<br><br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr a gomisiynir gan yr awdurdod lleol sicrhau bod eu manylion ar wefan Dewis Cymru yn gyfredol. | Gall darpariaeth nas comisiynir gan yr awdurdod lleol fod wedi'i chofnodi ar wefan Dewis Cymru ai peidio. Nid yw holl ddarpariaeth yr awdurdod lleol yn cael ei chofnodi ar wefan Dewis Cymru. | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth am fynediad i gyfleoedd chwarae a chyswllt i gael cymorth os oes angen | OREN | GWYRDD | Mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r Cyngor drwy Clic, ein canolfan gyswllt. Anfonir ymholiadau ynghylch cyfleoedd chwarae at swyddog enwebedig sy'n gyfrifol am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, oni bai fod swyddog mwy priodol yn cael ei bennu. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Chwarae wedi cael ei gynnwys yn y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant. Bydd hyn yn caniatáu iddo gael ei reoli gan Reolwr Tîm a dod yn rhan o gylch gwaith Cydgysylltydd a benodir o'r newydd. Bydd pedwar aelod staff hefyd yn rhannu'r cyfrifoldebau dros ddarparu'r gwasanaeth ar sail ardaloedd daearyddol. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ac yn cyhoeddi digwyddiadau sy'n annog cyfleoedd chwarae a digwyddiadau i blant a theuluoedd | OREN | OREN | Yn bennaf drwy'r arian sydd ar gael (Grant Cymunedol CSC, Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg ac ati).<br><br>Rydym yn hyrwyddo'r math hwn o ddigwyddiad drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Bydd gan y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant Swyddog Marchnata ac Aelodaeth newydd, a bydd chwarae'n rhan o'i gylch gwaith. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n cyfrannu at agweddau cadarnhaol tuag at chwarae yn y gymuned | OREN | OREN | Fel uchod. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi awgrymiadau | GWYRDD | GWYRDD | Rydym yn mynd ati i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru, 'Magu plant. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | defnyddiol a chymorth i rieni i'w helpu i annog eu plant i chwarae | | | Rhowch amser iddo' ac i hyrwyddo gwefan a thaflenni gwybodaeth Chwarae Cymru.<br><br>Bu i'n rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ariannu adnoddau a gweithgareddau chwarae awyr agored mewn Canolfannau i Deuluoedd a Phlant yn ystod y pandemig, a defnyddiwyd Cronfa Datblygu Plant Llywodraeth Cymru i dalu am hyfforddiant chwarae awyr agored a hyfforddiant ysgol y goedwig i staff Canolfannau i Deuluoedd.<br><br>Rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol bob blwyddyn.<br><br>Mae gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion a'r Canolfannau Llesiant bresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol, ac fe'i hadolygir gan yr adran TG a Swyddfa'r Wasg bob chwe mis. Mae'r ddau wasanaeth yn rhannu cyfleoedd mewnol ac allanol. Mae gan y naill a'r llall gyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud defnydd eang o arwyddion ar safleoedd i ddiogelu a hyrwyddo chwarae | COCH | | Amherthnasol | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r cyfryngau i'w hannog i roi portread cadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal leol | COCH | OREN | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion a'r Canolfannau Llesiant yn mynd ati i hyrwyddo plant yn chwarae mewn ffordd gadarnhaol.<br><br>Mae COVID wedi effeithio'n fawr ar hyn.<br><br>Drwy gydol y pandemig, mae'r Cyngor wedi rhyddhau canllawiau i gynghorau tref a chymuned i'w helpu i gadw parciau ac ardaloedd chwarae'n ddiogel.<br><br>Bu i'r Cyngor roi dau aelod o staff y Gwasanaethau Hamdden ar secondiad yn ystod y pandemig er mwyn iddynt ymweld â'r parciau a'r ardaloedd chwarae a reolir gan gynghorau tref a chymuned i'w helpu ag arwyddion, meini prawf diogelwch ychwanegol, a diogelwch cyffredinol o ran COVID. | Ystyried y prif agweddau sy'n dod i'r amlwg o arolygon perthnasol amrywiol. | |

**Mynediad i le/darpariaeth**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithio er mwyn sicrhau y gall plant symud o amgylch eu cymunedau er mwyn cynyddu eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd chwarae?**

Mae'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol a chanllawiau eraill o ran dylunio priffyrdd yn pennu safonau i sicrhau gwelliannau hygyrchedd i bawb. Mae'r Cyngor yn adolygu'r terfynau cyflymder ar ffyrdd a gynhelir ganddo o bryd i'w gilydd. Mae'r adolygiad nesaf yn debygol o ddilyn y camau i roi ar waith gynnig Llywodraeth Cymru i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig/ffyrdd â goleuadau stryd (ffyrdd â

therfyn cyflymder o 30mya) ledled Cymru (o fis Ebrill 2023). Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â Gan Bwyll – Partneriaeth Camerâu Diogelwch Cymru, yr Heddlu a chynrychiolwyr cymunedau lleol, a thrwy Is-grŵp Diogelwch ar y Ffordd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol amlasiantaethol Ceredigion. Mae gwaith monitro parhaus yn digwydd ar y cyd â'r partneriaid allweddol hyn.
Mae'r cynllun Teithio Llesol a'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn cynnwys camau i osod cysgodfannau beiciau/sgwteri mewn ysgolion. Mae ein Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn darparu rhaglen addysg, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ran diogelwch ar y ffyrdd i blant ysgolion cynradd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Kerbcraft o ran diogelwch plant sy'n cerdded a'r Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio i sicrhau bod plant yn meddu ar sgiliau sylfaenol i'w trosglwyddo i'w teithiau bob dydd.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Yn y gorffennol, cafodd cyfleoedd chwarae eu cefnogi gan grantiau blynyddol a bu'n anodd cynllunio ar gyfer y tymor hir. Nid yw'r sefyllfa wedi newid, ond cafwyd arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru eleni drwy gynlluniau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles.

Mae COVID wedi peri anhawster. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi cynorthwyo cynghorau tref a chymuned drwy roi cyngor a gwybodaeth iddynt, yn ogystal â darparu staff i gynorthwyo ag archwiliadau lleol.

Mae hyfforddiant beicio i blant yn ddibynnol ar ddyraniadau arian grant o flwyddyn i flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhain yn seiliedig ar fformiwla sy'n cynnwys ffigurau poblogaeth. Mae swm y grant wedi gostwng yn raddol dros gyfnod.
Caiff arian Teithio Llesol ei gyfeirio'n uniongyrchol i'n prif ardaloedd trefol yn unig (Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan). Rhoddir rhai cynlluniau peirianneg diogelwch ar y ffyrdd ar waith mewn lleoliadau eraill yn ddibynnol ar achos busnes cadarn, trefn flaenoriaethu ac argaeledd adnoddau.

**Sut mae eu goresgyn?**
Mae gwasanaethau'n cydweithio'n llawer agosach erbyn hyn yn sgil y gwaith ailstrwythuro i gyflwyno'r Model Gydol Oes a Llesiant. Mae hyn wedi ein helpu i ddefnyddio arian ychwanegol.

**Sylwadau**
**Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd, digwyddiadau**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio gwybodaeth yn gadarnhaol i sicrhau mynediad i ddarpariaeth chwarae?**
Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio llawer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol o dan label Ceredigion Actif (Canolfannau Llesiant erbyn hyn) a Swyddfa Gorfforaethol y Wasg.
Mae adrannau eraill, fel y Gwasanaeth Ieuenctid, hefyd yn weithgar o ran hyn, ac mae pob adran yn cynorthwyo'i gilydd. Caiff cyfleoedd chwarae eu hysbysebu ar y llwyfannau hyn. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod yr Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles pan gafodd

canllawiau pwysig eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru. Bu inni hefyd ofyn i bob sefydliad sy'n cael arian grant gan Lywodraeth Cymru rannu eu deunydd hysbysebu â ni er mwyn inni ei rannu ymhellach.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Nid ydym yn weithwyr proffesiynol o ran creu posteri ac ymgyrchoedd hysbysebu. Mae'r pethau hyn yn cymryd cryn amser – yn aml, amser nad oes gan y staff i'w sbario. Rydym wedi buddsoddi mewn pecynnau proffesiynol â Canva.com a llwyfan cyfryngau cymdeithasol Hootsuite. Cymerir yn ganiataol hefyd fod y gynulleidfa darged yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mai'r rhain yw ei phrif ddull o gael gafael ar wybodaeth.

**Sut mae eu goresgyn?**
Fel rhan o'r Model Gydol Oes a Llesiant, crëwyd swydd Swyddog Marchnata ac Aelodaeth, a bydd yn ymgysylltu mwy â thîm cyfathrebu corfforaethol y Cyngor. Gwneud mwy o ddefnydd o'r wasg leol.

**Sylwadau:**

**Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

Dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

**Noder – mae'r meini prawf hyn yn ymwneud â'r gweithlu Gwaith Chwarae. Mae Gwaith Chwarae'n broffesiwn hyfedr sy'n cyfoethogi ac yn gwella cyfleoedd chwarae. Mae'n digwydd pan fydd oedolion yn cynorthwyo plant i chwarae, ond nid yw'n cael ei lywio gan addysg ragnodedig na chanlyniadau gofal. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau mynediad agored a lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol.**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw gwybodaeth wedi'i diweddaru am y gweithlu yn yr Awdurdod Lleol (dylai hyn gynnwys nifer y gweithwyr chwarae, y strwythur rheoli chwarae, lefelau cymwysterau, cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddolwyr) | COCH | OREN | Mae'r Uned Gofal Plant yn cofnodi'r staff Gwaith Chwarae cymwysedig ym mhob clwb ar ôl yr ysgol cofrestredig yn ystod pob ymweliad safle/mewn nodiadau ymweliad. Caiff staff eu cyfeirio at gyfleoedd hyfforddi oherwydd bydd cymhwyster Gwaith Chwarae Lefel 3 yn ofyniad statudol ar gyfer pob darpariaeth gwyliau ac ar ôl oriau'r ysgol erbyn mis Medi 2022. | Yn hanesyddol, nid yw'r awdurdod lleol wedi cyflogi gweithlu chwarae. Mae cynigion yn eu lle i newid hyn yn sgil yr ailstrwythuro i gyflwyno'r Model Gydol Oes a Llesiant.<br><br>Fe arferai fod tasglu chwarae. Mae angen ystyried ailgychwyn y grŵp neu addasu'r grŵp presennol gan ei fod yn canolbwyntio ar ofal plant – i roi sylw i chwarae mewn | Mae'r Uned Gofal Plant yn parhau i ddatblygu'r Modiwl Hyfforddi ar wefan Dewis Cymru.<br><br>Mae data Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth wedi dod i law ac wedi cael eu dadansoddi ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant – defnyddir yr wybodaeth i lunio cynllun gweithredu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | meithrinfeydd a chlybiau ar ôl yr ysgol. | pum mlynedd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynorthwyo pob aelod o'r gweithlu i gyflawni lefel y cymhwyster a nodir yn Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru | COCH | OREN | Mae'r Uned Gofal Plant yn hysbysebu'r hyfforddiant a ddarperir gan bartneriaid CWLWM.<br><br>Mae hyn wedi darparu hyfforddiant Gwaith Chwarae wedi'i ariannu ar gyfer tua 30 aelod staff chwarae sy'n gweithio yn y sector ar ôl oriau'r ysgol/gwyliau'r ysgol yn ystod 2019/2020 a 2020/2021. | Ceir cryn alw am gyrsiau Gwaith Chwarae Lefel 1 yng Ngheredigion. Mae hwn yn fan cychwyn er mwyn i bobl o bob oed ymuno â gweithlu'r sector gofal plant/chwarae. Mae hyn, yn ei dro, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y mae rhieni ac eraill yn diwallu anghenion plant ac yn gwella eu hiechyd a'u lles. | Mae RAY Ceredigion yn ddarparwr hyfforddiant chwarae sydd wedi cofrestru ag Agored Cymru.<br><br>Bydd yr Uned Chwarae'n cydweithio â RAY Ceredigion i roi rhaglen o gyrsiau Gwaith Chwarae Lefel 1 ar waith ar gyfer darparwyr cyfleoedd chwarae. |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol gyllideb datblygu staff a neilltuir ar gyfer chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae | COCH | OREN | Mae'r Uned Gofal Plant yn cyfeirio staff perthnasol at hyfforddiant a ddarperir am ddim gan bartneriaid CWLWM. | Nid yw'r Cyngor wedi cyflogi unrhyw staff chwarae'n uniongyrchol. | Mae'r Uned Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo hyfforddiant 'Pontio i Waith Chwarae' drwy CPCKC |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ymhlith yr holl staff gofal plant. |
| | Mae amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael i weithwyr chwarae yn yr ardal | OREN | OREN | Mae'r Uned Gofal Plant wedi trefnu hyfforddiant ADY ar gyfer hyfforddiant gorfodol a Llefaredd ac Iaith/Elklan. | Cafodd y rhaglen hyfforddi ei chwtogi oherwydd cyfyngiadau COVID. Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n rhithiol erbyn hyn, ac nid yw bob amser yn hygyrch i'r gweithlu.<br>Mae llawer o staff y Cyngor sy'n ymwneud â mentrau chwarae yn gweithio mewn swyddi ac iddynt elfen amlwasanaeth. Fel arfer, maent yn staff y blynyddoedd cynnar, yn staff cymorth i deuluoedd, yn staff y gwasanaeth ieuenctid, ac ati. | Gallai unrhyw hyfforddiant pellach i staff gynnwys chwarae anniben, chwarae darnau rhydd, chwarae awyr agored ac amgylcheddol, chwarae arfordirol, ac ati. |
| | Mae hyfforddiant ar gael er mwyn i wirfoddolwyr a rhieni ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes gwaith chwarae | GWYRDD | GWYRDD | Pan fydd yn gweithio gyda rhieni ifanc, bydd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn rhannu gwybodaeth gan y trydydd sector/gwasanaethau statudol i hyrwyddo hyfforddiant gwaith chwarae i ddatblygu eu gwybodaeth.<br><br>Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ariannu RAY Ceredigion i | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddarparu hyfforddiant Gwaith Chwarae Lefel 1 i unrhyw un y mae’r Uned Gofal Plant wedi hyrwyddo’r hyfforddiant iddo mewn lleoliadau gofal plant/chwarae.<br><br>Mae Cymdeithas Tai Wales & West yn cydweithio â’r awdurdod lleol i sicrhau bod ei thenantiaid yn deall manteision chwarae. Mae wedi darparu hyfforddiant ar y cyd â’r awdurdod a threfnu i osod blychau chwarae cymunedol ar rai o’i hystadau.<br><br>Mae darpariaeth hyfforddi amrywiol ar gael i rieni, staff y blynyddoedd cynnar a staff gofal plant, e.e. Cymhwyster Lefel 1 mewn Chwarae yn y Gymuned, NVQ 3 mewn Gwaith Chwarae, Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau (MAHPS), Chwarae Awyr Agored, Ysgol y Goedwig. Mae'r awdurdod lleol yn ariannu hyfforddiant ar gyfer staff mewnol ac allanol perthnasol a rhieni pan fydd yn gallu gwneud hynny.<br><br>Clywodd ymgynghoriad y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae gan 25 o grwpiau oedd yn cynrychioli parciau ac ardaloedd | <br><br><br><br><br><br>Bu i’r pandemig roi terfyn ar y prosiect i osod blychau chwarae cymunedol. Mae cyfarpar chwarae rhai cymunedau yn dal i gael eu storio yn swyddfeydd y Cyngor ac mae angen eu hanfon i ddwy gymuned (Felin-fach a Thregaron). | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae. Dim ond 3 ohonynt oedd â gwirfoddolwyr. Gwnaethant awgrymu rhannu gwybodaeth ynghylch sut i ganfod cyllid a sut i gyflawni archwiliadau effeithiol. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys gwaith chwarae yn ei strategaethau Datblygu'r Gweithlu | COCH | COCH | Nid yw'r Cyngor yn cyflogi gweithwyr chwarae/staff datblygu chwarae yn uniongyrchol ar hyn o bryd. Mae cynigion yn eu lle i newid hyn yn sgil yr ailstrwythuro i gyflwyno'r Model Gydol Oes a Llesiant.<br><br>Mae'r Uned Gofal Plant yn cefnogi camau i ddatblygu'r gweithlu, ac mae'n cyfeirio gweithlu'r lleoliadau cofrestredig at hyfforddiant wedi'i ariannu a ddarperir gan bartneriaid CWLWM. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn annog partneriaid i ddarparu hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr | OREN | GWYRDD | Mae'r Gronfa Datblygiad Plant wedi cynnwys cyfleoedd i bartneriaid ddarparu hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ym maes chwarae.<br><br>Mae'r Uned Gofal Plant yn hyrwyddo hyfforddiant ymhlith gweithlu lleoliadau cofrestredig. | | Cwblhau'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant ROSPA a'i hysbysebu drwy'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae a darparwyr gwasanaethau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyn COVID, roedd hyfforddiant llythrennedd corfforol ar gael i Ganolfannau i Deuluoedd, Canolfannau Dechrau'n Deg, lleoliadau cyn-ysgol ac ysgolion drwy raglen Pobl Ifanc Egnïol Ceredigion Actif.<br><br>Mae Teuluoedd yn Gyntaf, yr Uned Gofal Plant a Dechrau'n Deg wedi cydweithio i ddarparu hyfforddiant a bagiau adnoddau i'r sector gofal plant a chymorth i deuluoedd i wella cyfleoedd chwarae/chwaraeon a lefelau gweithgarwch. Bwriedir estyn hyn i feithrinfeydd pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu.<br><br>Bwriedir cynnal hyfforddiant ROSPA ar-lein ym mis Mawrth 2022 i bawb sy'n ymwneud â chwarae. Fe'i darperir gan Swyddog ROSPA, David Yearley. | | |

**Noder – mae'r meini prawf hyn yn ymwneud â'r gweithlu Gwaith Chwarae: Mae hyn yn cwmpasu unrhyw un sydd wedi'i eu cyflogi mewn swydd sydd ag effaith ar blant yn chwarae - y rhai sydd ag effaith uniongyrchol i hwyluso eu chwarae, cynllunio eu chwarae, neu'r rhai sy'n galluogi'r plant i chwarae, neu beidio.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o | OREN | OREN | Mae'r Uned Gofal Plant yn cynnal dadansoddiad o anghenion y sector gofal plant. | | Caniatáu i'r Uned Gofal Plant ddefnyddio rhestr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | anghenion hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae fel y'i diffinnir yng ngeirfa'r pecyn cymorth | | | Mae'r tîm Pobl Ifanc Egnïol yn ystyried datblygiad staff yn barhaus, ac mae'r staff wedi cwblhau nifer o gyrsiau a chael eu mentora o ran y ddarpariaeth cyn-ysgol, y blynyddoedd cynnar a'r cwricwlwm newydd. | | geirfa'r pecyn cymorth. |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau i ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir i staff | **GWYRDD** | **GWYRDD** | Darperir cyfleoedd hyfforddi amrywiol i staff Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion er mwyn iddynt gynnal ac arwain gweithgareddau a gweithdai amrywiol sy'n ymwneud â dysgu drwy weithgareddau fel sgiliau cefn gwlad a beicio.<br><br>Mae'r Uned Gofal Plant yn diweddaru rhaglenni hyfforddi'n rheolaidd ac mae'n cael gafael ar gyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig. | | |
| | Mae amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant | **OREN** | **OREN** | Mae Rheolwr y Tîm Gweithgarwch Corfforol a Chwarae yn aelod o grwpiau cenedlaethol ar gyfer sylfeini symud sy'n cynnwys Chwarae a Chwarae Cymru. Rhennir bwletinau wythnosol â staff, ac maent yn manteisio ar gyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gael hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus. | Bwriedir cynnal cwrs Gwaith Chwarae Lefel 1 ym mis Mawrth 2022 ar gyfer staff y Canolfannau Llesiant a'r Gwasanaeth Ieuenctid. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth ar gael i weithwyr proffesiynol a swyddogion gwneud penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae | OREN | OREN | Mae e-fodiwl hyfforddi ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gael i weithlu cyfan y Cyngor i ddatblygu dealltwriaeth y gweithwyr o pryd/sut y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.<br><br>Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn llwyfan lle y gall gweithwyr proffesiynol a phenderfynwyr ymgynghori â phlant pan fydd eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant (i chwarae, a chyfleoedd eraill). Yn y gorffennol, mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion wedi ymateb i bapurau ymgynghori, fel y rheini am yr agenda mannau gwyrdd.<br><br>Mae gan bob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd Lysgenhadon Ifanc sy'n dal yr awenau o ran darparu cyfleoedd i bobl ifanc eraill fod yn fwy egnïol. | Cynnwys elfennau o hyfforddiant chwarae yn hyfforddiant efydd y Llysgenhadon Ifanc.<br><br>Datblygu dull cydgysylltiedig o hyfforddi goruchwylwyr amser cinio i weithio gyda Llysgenhadon Ifanc mewn ysgolion. | Dylid ystyried hawl plant i chwarae (Erthygl 31) ym mhob maes fel rhan o'r broses benderfynu. |

| Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae |
|---|

**Sut mae'r Awdurdodau Lleol wedi cwrdd â'r gofynion i sicrhau neu ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno'r swyddogaethau rheoli a chyflenwi sy'n angenrheidiol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae, a'u diogelu?**

Fe arferai fod is-grŵp chwarae a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion addysg, gofal plant, parciau ac ardaloedd chwarae, iechyd a diogelwch, cynllunio, a phriffyrdd i ystyried cyfleoedd chwarae yn y sir mewn ffordd gyfannol. (Daeth yr is-grŵp hwn i ben oherwydd diffyg presenoldeb a diffyg cysondeb o ran arian i roi prosiectau ar waith ar y cyd.)

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau ei fod yn deall ac yn darparu ar gyfer anghenion datblygu'r gweithlu ymysg y gweithlu chwarae (fel y'u diffiniwyd yn *Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae* ac uchod)?**

Mae'r Uned Gofal Plant wedi ariannu tua 22 aelod staff o leoliadau chwarae a gofal plant cofrestredig i gwblhau hyfforddiant Gwaith Chwarae Lefel 3. Ni chafwyd erioed arian penodol gan Lywodraeth Cymru i ariannu rôl datblygu cyfleoedd chwarae yn y Cyngor, felly rhaid ystyried hyn wrth gydnabod unrhyw fylchau cyflawni ar sail yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau ei fod yn deall ac yn darparu ar gyfer y gweithlu chwarae (fel y'i diffiniwyd yn *Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae* ac uchod)?**

Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflogi swyddog datblygu cyfleoedd chwarae ar hyn o bryd (ac nid yw wedi gwneud hynny yn y gorffennol). Mae gan rai o staff yr Uned Gofal Plant gymwysterau Gwaith Chwarae ac maent yn gallu cynorthwyo darparwyr gofal plant i ddeall gwaith chwarae.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**

Yr her fwyaf yw cydgysylltu chwarae ar sawl lefel (hyfforddiant, darpariaeth, cynorthwyo grwpiau cymunedol, dosbarthu grantiau, cynnal rhaglenni) heb unrhyw staff datblygu.

**Sut mae eu goresgyn?**

Ceir cynigion i newid hyn yn sgil yr ailstrwythuro i gyflwyno'r Model Gydol Oes a Llesiant. Bydd arian penodol a pharhaus gan Lywodraeth Cymru i'r 22 awdurdod lleol yn sicrhau bod modd datblygu cynlluniau gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u rhoi ar waith ledled Cymru.

**Sylwadau**

**Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi**

Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang â phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch eu barn ar ddarpariaeth chwarae. Dylai hefyd hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â'r gymuned gyfan wrth ddarparu cymunedau sy'n croesawu cyfleoedd chwarae.

Statws RAG

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cynlluniau i ymgysylltu â grwpiau perthnasol wrth wella cyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal. | OREN | OREN | Mae mentrau i wella cyfleoedd chwarae ar draws y sir yn cael eu hyrwyddo drwy'r Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae.<br><br>Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn llwyfan lle y gall gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ymgysylltu â phobl ifanc o ran gwasanaethau lleol, ac mae hyn wedi cynnwys yr angen i wella'r cyfleoedd i chwarae. Ymhlith enghreifftiau o waith ymgysylltu o'r fath mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Chwarae a 'Hongian Allan' (24.6.19) a'r | | Annog y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae i rannu eu cyfleoedd er mwyn i'r Cyngor allu eu hyrwyddo drwy Swyddfa'r Wasg/y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd y dewis hwn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgynghoriad ar Gynllun Seilwaith Gwyrdd y Cynllun Datblygu Lleol (31.1.20) a oedd yn ystyried mannau gwyrdd ar gyfer chwarae. Cynhaliwyd yr ymgyngoriadau hyn gan Gyngor Sir Ceredigion.<br><br>Mae panel o bobl ifanc o'r enw Dewis yn gyfrifol am ddyrannu Bwrsariaeth Pobl Ifanc Ceredigion a'r Grant Ieuenctid. Partneriaeth ar y cyd â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yw'r ail, ac mae'r panel o bobl ifanc wedi cefnogi prosiectau lleol i bobl ifanc, fel clwb chwaraeon anabledd Aberystwyth o'r enw'r Mighty Ducks, drwy ddarparu cymorth ariannol i wella'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn eu sesiynau wedi'u targedu.<br><br>Mae gwaith ieuenctid datgysylltiedig wedi'i dargedu mewn parciau sglefrio lleol wedi sicrhau bod cyfleoedd chwarae'n cael eu cyfoethogi | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | drwy ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch eu hanghenion chwarae mewn lleoliadau o'r fath. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned drwy:<br>- wneud lle addas ar gael i chwarae<br>- trefnu digwyddiadau chwarae<br>- agweddau cadarnhaol tuag at blant a chwarae<br>- hyfforddiant ar bwysigrwydd chwarae. | OREN | OREN | Ar ein mewnrwyd, ceir Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned cynhwysfawr, ynghyd â phecyn cymorth cysylltiedig, y gall yr holl staff eu defnyddio.<br><br>Mae darpariaeth ieuenctid mynediad agored Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn darparu lle ac amgylchedd lle y gall gweithgareddau strwythuredig a chwarae hunangyfeiriedig ddigwydd ochr yn ochr â'i gilydd. Yn aml, gellir arsylwi ar wahanol fathau o gyfleoedd chwarae mewn mannau o'r fath, fel chwarae creadigol, cyfathrebu drwy chwarae, chwarae ymsymudol a chwarae gwrthrych.<br><br>Ers iddo ennill nod barcud y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, mae gwaith Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion i ymgysylltu/cyfranogi â phobl | Nid oes gan y Cyngor dîm ymgynghori ac felly rhaid cydgysylltu pob ymgynghoriad a holiadur drwy wasanaethau adrannol.<br><br>Mae COVID wedi tarfu ar y gwasanaeth hwn ac mae'r rhan fwyaf o'r ymgyngoriadau a'r holiaduron wedi bod yn rhai rhithiol (ac eithrio holiaduron i blant). | Bydd y tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant yn ystyried canfyddiadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae pan fydd yn llunio cynllun gwaith 2022/23. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ifanc mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol, fel ein canolfannau ieuenctid, yn dilyn egwyddorion y nod barcud. Drwy hynny, mae'r gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc wedi tynnu sylw at yr angen iddynt dreulio mwy o amser yn yr awyr agored mewn amgylchedd cefnogol. O ganlyniad, mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi cynnal gweithgareddau sy'n agored i bawb, fel diwrnodau ailgysylltu â byd natur a gwersylloedd haf.<br><br>Bu i wasanaeth Pobl Ifanc Egnïol Ceredigion Actif gydgysylltu Arolwg Chwaraeon Ysgol a oedd hefyd yn rhoi sylw i chwarae ac amser rhydd. | | |

**Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio'n effeithiol y mecanweithiau sydd yn eu lle i hyrwyddo prosesau i annog plant i gymryd rhan ac i ymgynghori â theuluoedd mewn perthynas â chwarae?**
At ddibenion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn, defnyddiwyd ymgyngoriadau gan yr Uned Gofal Plant, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Chwarae, Pobl Ifanc Egnïol, Arolwg Coronafeirws a Fi Comisiynydd Plant Cymru, ac Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae RAY Ceredigion a'r Canolfannau Llesiant hefyd wedi helpu i gydgysylltu holiaduron y plant. Cafodd canfyddiadau'r arolwg a osododd sail ar gyfer ailgomisiynu gwasanaethau i gynorthwyo teuluoedd â phlant 0-11 oed eu hystyried hefyd.

Anfonwyd holiaduron penodol am yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae at y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae, y rheini a gafodd Grantiau Cyfalaf a Refeniw'r Cynllun Gaeaf Llawn Lles, pawb sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, yn ogystal â digwyddiadau chwarae a drefnir gan y gymuned.

Trefnwyd holiadur ymhlith y prif gyfranwyr ar y cyd â'r Uned Gofal Plant i sicrhau cydweithio pwysig â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Rydym yn cydnabod rôl yr Aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau pobl yn eu wardiau. Bydd y broses yn cynnwys Aelodau etholedig ar lefel pwyllgor craffu ac ar lefel Cabinet llawn.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**

Mae COVID wedi bod yn rhwystr enfawr rhag ymgysylltu â'r cyhoedd, ond cafodd ei oresgyn drwy ddefnyddio dulliau digidol amgen. Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried syrffed ar ymgyngoriadau, a rhaid iddynt sicrhau bod enghreifftiau o'r camau sy'n deillio o'r wybodaeth a ddarparwyd yn cael eu hyrwyddo.

**Sut mae eu goresgyn?**
Gweler uchod.

**Sylwadau**

**Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Ymgynghori â'r Plant**

Crynodeb:

- 227 o ymgyngoriadau
- Ystod oedran: 2-15 oed
- Teuluoedd o Geredigion gyfan

Atebion:

| Cwestiynau | Dewisiadau | Atebion |
|---|---|---|
| Pa mor aml wyt ti'n chwarae/cwrdd â dy ffrindiau? | Byth | 19 |
| | Bob dydd | 67 |
| | 2-4 gwaith yr wythnos | 141 |
| | | |
| Gyda phwy wyt ti'n chwarae/ yn cwrdd? (Dewisa faint fynnot) | Nid wyf i'n chwarae/cwrdd | 9 |
| | Ffrindiau | 182 |
| | Teulu/ Brodyr neu Chwiorydd | 36 |
| | | |
| Beth yw dy hoff le ar gyfer chwarae/ cwrdd? | Gartref | 111 |
| | Clwb ar ôl ysgol | 4 |
| | Parc neu fan chwarae | 48 |
| | Coed/ Traeth | 35 |
| | Stryd | 29 |
| | | |
| Os nad wyt ti'n chwarae tu fas – pam? | Rhy ifanc | |
| | Unman ar bwys fi | |
| | Covid | |
| | Tywydd | Mwyaf poblogaidd |
| | X-Box/Gemau cyfrifiadurol | Ail fwyaf poblogaidd |
| | | |
| Mae gen i lawer o lefydd da i chwarae a chwrdd ag eraill | Ddim yn gwybod | 13 |

| | | |
|---|---|---|
| | Nac oes | 18 |
| | Oes | 130 |
| | Weithiau | 66 |
| | | |
| Rwy’n teimlo’n ddiogel pan rwy’n chwarae a chwrdd ag eraill | Ddim yn gwybod | 30 |
| | Nac ydw | 9 |
| | Ydw | 154 |
| | Weithiau | 34 |
| | | |
| Oes unrhyw beth sy’n dy atal rhag chwarae tu fas? | Nac oes | Mwyaf poblogaidd |
| | Ceir cyflym | Ail fwyaf poblogaidd |
| | Covid | Trydydd mwyaf poblogaidd |
| | Tywydd gwael | Pedwerydd mwyaf poblogaidd |
| | | |
| Ble wyt ti’n mynd ar ôl i’r ysgol orffen? | Adre | 161 |
| | Clybiau/Dosbarthiadau | 8 |
| | Tŷ ffrind | 6 |
| | I chwarae | 20 |
| | Gofal plant | 10 |
| | Mamgu a Dadcu | 22 |
| | | |
| Pa mor aml? | Weithiau | 95 |
| | Bob dydd | 46 |
| | *DIM ATEB* | 86 |
| | | |
| Beth wyt ti’n feddwl o’r clwb ar ôl ysgol/ gweithgaredd/ gofal plant yr wyt ti’n mynd iddo? | Ddim yn ei hoffi | 3 |
| | Mae’n iawn | 14 |
| | Ei hoffi | 77 |

| | | |
|---|---|---|
| | *DIM ATEB* | 133 |
| | | |
| A ydy'r coronafeirws (COVID-19) wedi newid beth rwyt ti'n ei wneud a ble rwyt ti'n mynd o ran chwarae/cwrdd â dy ffrindiau? | Ddim yn gwybod | 31 |
| | Nac ydy | 73 |
| | Ydy | 123 |
| | | |
| Os ydy, sut? | Anabledd/ Anabledd yn y teulu | |
| | Methu mynd mas am sbel fawr | |
| | Methu cael ffrindiau draw | |
| | Gofal plant wedi dod i ben | |
| | Methu gweld Mamgu a Dadcu/ ffrindiau | |
| | Heb fynd unman | |
| | Rhieni yn gweithio gartref | |

**Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

Dylai'r Awdurdod Lleol archwilio pob un o'i agendâu polisi o ran eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae a chynnwys targedau a chamau gweithredu i wella cyfleoedd chwarae i blant ym mhob polisi a strategaeth o'r fath.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | (gwyrdd) |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | (oren) |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | (coch) |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae yna unigolyn wedi'i enwi ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n | OREN | OREN | Ni cheir unigolyn enwebedig ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ond mae gan yr | | Sicrhau bod y canfyddiadau sy'n dod i'r |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hyrwyddo cyfleoedd chwarae i blant ac yn sicrhau bod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu yn cyfrannu at y Cynllun Llesiant ac yn cael eu hymgorffori ynddo | | | awdurdod lleol Eiriolwr dros Blant a Phobl Ifanc, yn ogystal â thlodi sef y Cynghorydd Catrin Miles.<br><br>I sicrhau bod cysylltiadau effeithiol ar waith, mae'r Cynghorydd Miles yn aelod o Grŵp Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Gwella Llesiant a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi. Mae hefyd yn aelod o Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n cadeirio'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, sef un o'r fforymau ymgysylltu sy'n eistedd islaw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Mae'r Rheolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am y Canolfannau Llesiant ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros chwarae yn aelod o Grŵp Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Lesiant yn Llanbedr Pont Steffan. Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Porth Cymorth Cynnar sy'n cadeirio'r grŵp hwn.<br><br>Mae'r Rheolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am y Canolfannau Llesiant | | amlwg o'r Asesiad Llesiant Lleol yn gosod sail ar gyfer ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a'r gwrthwyneb. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd yn mynd i Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cyfrannu at gynllun gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â chaledi.<br><br>Mae'r Rheolwr Corfforaethol a'r Rheolwr Tîm sy'n gyfrifol am Weithgarwch Corfforol a Chwarae yn mynd i gyfarfodydd Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion. Mae'r grŵp hwn yn bwrw golwg ar Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy lens tlodi plant, ac mae'n craffu ar y camau gweithredu a geir yn y cynllun cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Bydd canfyddiadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Cyngor Sir Ceredigion yn cael eu hystyried pan fydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn mynd ati i baratoi Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn ystod 2022/23. | | |
| | Mae'r Cynllun Llesiant yn cydnabod pwysigrwydd | OREN | OREN | Mae Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion yn cydnabod bod: | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae da | | | *"cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored yn hanfodol; nid yn unig y mae chwarae yn yr awyr agored yn cyfrannu at y canllawiau argymelledig ynghylch gweithgarwch corfforol, ond mae ymchwil sylweddol yn canfod bod manteision ychwanegol gan gynnwys llesiant meddyliol plant, eu datblygiad gwybyddol, ymdeimlad cryfach o berthyn i ysgol a chymuned ac ymddygiad gwell yn deillio o gael mwy o gyswllt â'r amgylchedd naturiol."*<br><br>Mae'r nodau a ganlyn i gyd yn nodau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni'r nodau hyn:<br>- *Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd;*<br>- *Galluogi pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach;*<br>- *Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.* | chwarae yn y Cynllun Llesiant Lleol cyfredol, ac nid yw chwarae'n thema sydd wedi ymddangos yng ngwaith Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd i roi'r Cynllun ar waith. | |

| Addysg ac ysgolion |
|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae ysgolion yn sicrhau bod amgylchedd chwarae da yn cael ei ddarparu i blant ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol | OREN | OREN | Mae hyn yn gynyddol wir, gan fod llawer o gyfarpar meysydd chwarae mewn ysgolion, ac mae'r plant yn hapusach, yn cweryla llai ac yn cymryd rhan mewn chwarae mwy cynhyrchiol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar roi cyfleoedd i blant chwarae. Mae'r adnoddau i gyd yn unigryw ac yn amrywio o ysgol i ysgol.<br><br>Buddsoddwyd arian yn amgylchedd yr ysgolion i wella dysgu awyr agored – mae 19 ysgol gynradd wedi cael grantiau i osod marciau meysydd chwarae cynhwysol drwy Ceredigion Actif, y Cynllun Ysgolion Iach a'r Gronfa Datblygiad Plant.<br><br>Hyfforddiant i Lysgenhadon Ifanc gyda Ceredigion Actif – mae hyn yn aml yn arwain at weithgareddau chwarae mewn ysgolion. Mae gan bob ysgol gynradd Lysgenhadon Efydd sy'n arwain cyfleoedd chwarae. | Anghysondeb posibl o ysgol i ysgol.<br><br>Mae angen cwblhau marciau meysydd chwarae.<br><br>Mae COVID wedi cyfyngu ar y gwaith hwn oherwydd ni fu'n bosibl hyfforddi unigolion na chymysgu dosbarthiadau, ac ni fu'n bosibl i ymwelwyr allanol ymweld â safleoedd. Mae'r gwaith yn ailgychwyn yn araf, yn ogystal â'r trefniadau i rannu cyfarpar ac | Cwblhau'r gwaith o osod marciau meysydd chwarae mewn ysgolion.<br><br>Angen gosod gorchudd dros ardaloedd chwarae. Darparu dillad ar gyfer tywydd gwlyb mewn ysgolion.<br><br>Llais y Disgybl – beth sydd ar ddisgyblion ei eisiau o ran 'chwarae'?<br><br>Parhau i gydweithio â Ceredigion Actif, yn enwedig yn ystod y cyfnod sy'n arwain at themâu penodol/diwrnodau cenedlaethol.<br><br>Hyfforddiant pellach o ran manteision chwarae. Gellir darparu'r hyfforddiant i'r |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ffit yn 5 gyda Ceredigion Actif – mae ysgolion yn aml yn cymryd rhan yn Ffit yn 5, ac mae'r sesiynau hyn yn cael eu hysbysebu ar Teams ac fel rhan o adnoddau dysgu thematig, e.e. y Gêmau Olympaidd/yr Ewros a'r Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol.<br><br>Mae rhai ysgolion yn manteisio ar fentrau Ysgol y Goedwig ac Ysgol y Traeth.<br><br>Mae gan lawer o ysgolion adnoddau da a lle i chwarae yn ystod amseroedd egwyl.<br><br>Mae pob ysgol yn rhan o'r cynllun Ysgolion Iach. | adnoddau chwarae.<br><br>Mae angen canolbwyntio mwy o hyd ar chwarae dan arweiniad plant a chwarae distrwythur.<br><br>Mae'n wirfoddol, felly mae'r ymgysylltu gan ysgolion yn amrywio. | Llysgenhadon Ifanc ac i staff ysgolion.<br><br>Parhau i godi proffil y Cynllun Ysgolion Iach drwy gyfarfodydd rhwydwaith, drwy gydweithio ar y cwricwlwm newydd, a thrwy'r fframwaith iechyd meddwl ysgol gyfan.<br><br>Ailgyflwyno ac ailgychwyn clybiau ac amseroedd chwarae, gan gydweithio ag asiantaethau/hwyluswyr allanol. |
| | Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i oriau addysgu | OREN | OREN | Mae pob plentyn yn cael amser i chwarae ac mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd tu allan i'r oriau addysgu. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol ac o dymor i dymor.<br><br>Cymorth allanol, e.e. RAY Ceredigion.<br>Cysylltiadau â chlybiau a chyfleusterau – cysylltiadau gwell, | Mae'r ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol ac o dymor i dymor.<br><br>Anhawster o ran cael mynediad at gyfleoedd mewn ardaloedd gwledig oherwydd prinder | Parhau i gydweithio â Chwaraeon Cymru i gynyddu'r cyfraddau gweithgarwch corfforol drwy 'estyn y diwrnod dysgu' i roi cyfle i ddisgyblion a'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau ysgolion ar ôl oriau'r ysgol/ar benwythnosau. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e.e. Bro Teifi / Bro Siôn Cwilt yn hurio'u cyfleusterau.<br><br>Mae Clwb yr Urdd ym mwyafrif yr ysgolion.<br><br>Mae'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn gryf. Mae Llysgenhadon Ifanc Efydd yn darparu cyfleoedd ym mhob ysgol gynradd. Mae hyn wedi bod yn anoddach mewn ysgolion uwchradd yn ystod y pandemig.<br><br>Mae rhaglen gynhwysol Play Unified yn darparu cyfleoedd i blant ag anableddau mewn pedair ysgol uwchradd ac yn y ddwy adran AAA fwyaf mewn ysgolion cynradd. | amser neu gludiant.<br><br>Mae cyfyngiadau COVID wedi bod yn llym yng Ngheredigion ac felly mae'r gweithgareddau wedi bod yn gyfyngedig iawn. Mae ar ysgolion angen cymorth i ddarparu mwy o gyfleoedd chwarae distrwythur. | |
| | Mae ysgolion yn darparu mynediad i dir yr ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau ysgol | OREN | OREN | Mae'r pandemig wedi effeithio'n enbyd ar hyn.<br><br>Gofynnodd un ysgol gynradd i'r awdurdod lleol am gymorth i agor ei thir yn ystod gwyliau'r haf 2021 oherwydd mai dyna oedd yr unig ardal chwarae yn y pentref. Defnyddiwyd arian Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i brynu arwyddion diogelwch COVID i fodloni gofynion yr asesiad risg, ac | Mater i gorff llywodraethu pob ysgol gynradd yw penderfynu a yw'n caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r safle. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | agorwyd tir yr ysgol. Mae'n parhau i fod yn agored tu allan i oriau'r ysgol.<br><br>Mae pob ysgol uwchradd yn caniatáu i'r gymuned ei defnyddio gan fod llawer ohonynt yn gysylltiedig â chanolfannau hamdden sy'n agored i'r cyhoedd. Gall clybiau archebu cyfleusterau, e.e. Actif i Ni.<br><br>Mae rhai ysgolion yn caniatáu mynediad i dir yr ysgol i chwarae gyda'r nos ac ar benwythnosau.<br><br>Mae Ceredigion wedi bod yn rhan o fenter Chwaraeon Cymru, 'Addysg Egnïol Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol', ac mae Ysgol Henry Richard ac Ysgol Cei Newydd wedi gwneud cais am arian.<br><br>Mae llawer o ysgolion yn cefnogi eu clybiau ar ôl yr ysgol. | | |
| | Mae ysgolion yn annog plant i gerdded a seiclo i'r ysgol | OREN | OREN | Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi cael raciau/siediau beiciau gan y Tîm Teithio Llesol.<br><br>Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu cynllun beicio i'r gwaith | Diffyg cysondeb (mentrau sy'n para wythnos neu ychydig ddyddiau yn hytrach na blwyddyn ysgol gyfan). | Parhau i ddatblygu llwybrau diogel i'r ysgol.<br><br>Posibilrwydd o wobrau am gerdded/beicio i'r ysgol? |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n caniatáu i staff brynu beiciau i aelodau o'u teulu.<br><br>Mae'r Tîm Teithio Diogel a Llesol yn ymgynghori'n rheolaidd ynghylch llwybrau diogel i'r ysgol ac achosion lle mae angen gwneud gwelliannau.<br><br>Mae'r Swyddog Sustrans yn cydweithio ag ysgolion i wella sgiliau beicio ac i drefnu'r ymgyrch Big Pedal flynyddol. Eleni, mae'r ymgyrch honno'n cynnwys cerdded hefyd.<br><br>Mae gennym barthau 20mya tu allan i bron i bob un o ysgolion Ceredigion erbyn hyn. | Peryglon ar lawer o ffyrdd/lonydd oherwydd lleoliad llawer o'r ysgolion. Felly, gall fod nad yw'r llwybr cyfan yn ddiogel.<br><br>Ardaloedd gwledig – y pellter y bydd plant yn ei deithio oherwydd bod ysgolion llai wedi cau.<br><br>Mwy o lwyddiant yn nhymhorau'r gwanwyn/haf pan fydd y tywydd yn well. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig arweiniad er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall na ddylid cwtogi ar gyfleoedd chwarae rheolaidd yn yr awyr agored ac nad yw hynny'n digwydd | OREN | OREN | Mae’r Cyngor yn hyrwyddo chwarae awyr agored fel addysgeg a dull o addysgu. Mae’r cwricwlwm newydd yn pwysleisio chwarae awyr agored. Mae Ysgolion y Goedwig a darparwyr allanol eraill yn helpu i annog chwarae awyr agored. Mae pawb yn deall gwerth chwarae awyr agored.<br><br>Hyfforddiant o ran ‘chwarae’ a ‘dysgu awyr agored’, gan rannu arferion da mewn rhwydweithiau llesiant. Mae hyn yn rhywbeth y mae’r Swyddogion Cefnogaeth a Her yn ei gynghori, ond ni cheir polisi ffurfiol.<br><br>Bu i’r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant roi’r prosiect marciau meysydd chwarae ar waith mewn ysgolion cynradd yn ystod y pandemig i annog chwarae awyr agored. Darparwyd llyfryn gweithgareddau i gyd-fynd â’r marciau i gynorthwyo’r plant a’r athrawon. I fod yn gymwys i gael y grant hwn, roedd rhaid i’r ysgolion baratoi Polisi Chwarae. | Nid oes gan bob ysgol bolisi chwarae.<br><br>Mae chwarae wedi ennill ei blwyf mwyfwy yn y blynyddoedd iau, ond mae angen ei ddatblygu yn y blynyddoedd hŷn. | Annog pob ysgol i gael polisi chwarae.<br><br>Annog plant hŷn i ddysgu drwy chwarae/dysgu heb strwythur. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Penodwyd Athro Ymgynghorol newydd yn y tîm addysg i roi sylw i lesiant. | | |

## Cynllunio Gwlad a Thref

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o wahanol grwpiau oedran a galluoedd o ran chwarae yn yr awyr agored | GWYRDD | GWYRDD | Bydd darpariaeth gymunedol yn cael ei diwallu drwy bolisi LU22. Y nod yw gwarchod darpariaeth gymunedol sy'n bodoli eisoes ac annog camau i ddatblygu darpariaeth newydd lle bo'n briodol yn unol ag amcanion 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12 a 14. | Mae adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol yn dangos nad ydym wedi ennill llawer iawn o fannau agored. | |

## Traffig a Thrafnidiaeth

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd, ffyrdd a llwybrau cerdded a seiclo lleol o ran cynnig cyfleoedd i blant o wahanol oedrannau a galluoedd | OREN | GWYRDD | Fel rhan o'r gofynion i gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru), mae'n ofynnol cyflwyno mesurau lleihau cyflymder, darparu croesfannau diogel, a chynllunio i wella mynediad ar droed ac ar feic i barciau, cyfleusterau chwarae awyr | Bydd natur wledig y sir a'r pellter y mae'n rhaid i rai plant ei deithio i fynd i'r ysgol bob amser yn effeithio ar y gwaith o ddarparu llwybrau cerdded a beicio. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | agored a chanolfannau hamdden lleol o ardaloedd preswyl. Caiff cyfleusterau eu datblygu gan gyfeirio at Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi rhoi contract i Sustrans i'w gynorthwyo i ymgysylltu ac i ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o'r Arolwg i Fapio'r Rhwydwaith Teithio Llesol. Bu i Sustrans gysylltu â rhestr helaeth o grwpiau i ymgynghori â nhw, gan gynnwys grwpiau anabl, a bu iddo hefyd ymgysylltu mewn ysgolion sydd wedi'u lleoli yn yr aneddiadau dynodedig neu'n agos atynt, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. | | |
| | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth lleol yn nodi ffyrdd o asesu anghenion pob grŵp, gan gynnwys y rheini sy'n aml yn cael eu hymyleiddio, a mynd i'r afael â hynny. | GWYRDD | GWYRDD | Dilynir polisïau a gweithdrefnau corfforaethol o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau â nodweddion gwarchodedig ym mhob cam o'r broses o ddatblygu cynlluniau. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Cyngor wedi rhoi contract i Sustrans i'w gynorthwyo i ymgysylltu ac i ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o'r Arolwg i Fapio'r Rhwydwaith Teithio Llesol. Bu i Sustrans gysylltu â rhestr helaeth o grwpiau i ymgynghori â nhw, gan gynnwys grwpiau anabl, a bu iddo hefyd ymgysylltu mewn ysgolion sydd wedi'u lleoli yn yr aneddiadau dynodedig neu'n agos atynt, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. | | |

| Cynlluniau'r Blynyddoedd Cynnar |
|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae cynlluniau a gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu cyfleoedd chwarae da i blant iau | OREN | OREN | Mae Dechrau'n Deg a'r Canolfannau i Deuluoedd yn ymwneud â rhaglenni Teuluoedd Actif Ceredigion Actif lle mae pob sefydliad yn cael sach o adnoddau, beiciau cydbwysedd a fideos wythnosol i annog | Mae angen cynyddu dealltwriaeth a hyder staff yn y sector hwn i ddarparu gweithgareddau chwarae rhydd a | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygiad llythrennedd corfforol.<br><br>Buddsoddiad sylweddol ym menter Dechrau'n Deg yn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig Penparcau, gyda chanolfan newydd wedi'i hadeiladu. | symud. | |

**Polisïau a mentrau i'r teulu**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae mentrau cymorth i deuluoedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chymorth i rieni i'w galluogi i annog eu plant i chwarae | OREN | OREN | Mae pob darparwr cymorth i deuluoedd yn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda'ch plentyn. Mae'n ofynnol i'r rheini a gomisiynir gan yr awdurdod lleol sicrhau bod eu gwaith yn gydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth', sy'n cefnogi hyn. Y Blynyddoedd Rhyfeddol yw'r cwrs safonol ar gyfer | Nid yw'n ofynnol i bob gweithiwr cymorth i deuluoedd gael hyfforddiant chwarae. | Adfywio'r rhaglen Teuluoedd Actif mewn Canolfannau Dechrau'n Deg a Chanolfannau i Deuluoedd. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cymorth i deuluoedd ac mae'n canolbwyntio'n gadarn ar chwarae dan arweiniad y plentyn. | | |
| | Mae gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn lleol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog | OREN | OREN | Dyfyniad gan riant yng Nghanolfan i Deuluoedd Llanbedr Pont Steffan: "Roeddem wrth ein bodd â'r sesiynau; does dim byd yn well nag annog plant i fod tu allan. Bod yng nghanol byd natur, gyda chynifer o fanteision iechyd a llesiant. Datblygu sgìl newydd, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, a magu hyder i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau'n annibynnol. Byddwn yn sicr o gadw llygad am sesiynau eraill yn ystod gwyliau'r ysgol." | | |
| | Mae cynlluniau i leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae da | COCH | OREN | Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi darparu llawer o hyfforddiant i staff ysgolion ac eraill am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r gwasanaeth AAA wedi defnyddio therapi Lego. | Cydweithio mwy er mwyn i bob gwasanaeth wybod pa fath o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i bwy. Bydd y Gwasanaethau i Blant, y | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae hyfforddiant ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar gael i holl staff y Cyngor drwy wasanaeth ar-lein Ceri. | Gwasanaeth Addysg, a'r Gwasanaeth Ieuenctid, sy'n cynnwys y Canolfannau Llesiant a'r Gwasanaeth Chwarae, yn hollbwysig o ran darparu'r hyfforddiant. | |

**Polisïau a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mabwysiedir amrywiaeth o ymagweddau sy'n seiliedig ar chwarae tuag at weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau | OREN | OREN | Cyn pandemig COVID, roedd ysgolion yn ymgysylltu mwy â chartrefi'r henoed. Ceir rhai astudiaethau sy'n trafod y manteision i blant a'r henoed. Enghreifftiau yn y sir – mae Ysgol Talgarreg yn gwahodd yr henoed i ddod i gael cinio gyda'r plant weithiau. Cynhaliodd Ysgol | Mae COVID wedi cael effaith glir ar y gweithgareddau hyn oherwydd bod y preswylwyr mewn categori risg uchel. Byddant yn ailgychwyn pan dybir ei bod yn ddiogel. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Plascrug weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br><br>Mae tîm y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi cydweithio ag Ysgol Bro Pedr yn Llanbedr Pont Steffan a phreswylwyr Cartrefi Preswyl Canolfan Steffan i gynnal gweithgareddau cymysg yng Nghanolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan.<br><br>Mae ein Canolfannau i Deuluoedd sy'n rhan o'r trydydd sector yn gwneud llawer o waith sy'n pontio'r cenedlaethau, e.e. roedd teuluoedd yng Nghanolfan i Deuluoedd Tregaron am barhau â'u prosiect sy'n pontio'r cenedlaethau. Gwnaeth staff y Ganolfan i Deuluoedd gais llwyddiannus i gael arian gan y Loteri i ddosbarthu pecynnau adnoddau i deuluoedd, ac fe wnaethant eitemau â llaw i'w rhoi i breswylwyr eu cartref | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | preswyl lleol dros y Nadolig. Erbyn hyn, mae’r teuluoedd yn gweithio ar syniadau eraill i gynnal y cysylltiadau â phreswylwyr y cartref.<br><br>Mae’r timau Pobl Ifanc Egnïol wedi cydgysylltu ymweliadau gan Lysgenhadon Ifanc i gynnal gweithgareddau mewn cartrefi preswyl yn Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a Bow Street.<br><br>Mae Strategaeth Gydol Oes a Llesiant newydd y Cyngor yn annog cydweithio ar draws holl wasanaethau’r Cyngor. | | |
| | Mabwysiedir ymagwedd greadigol tuag at weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n annog gwell rhyngweithio rhwng plant o wahanol oedrannau | OREN | OREN | Roedd llawer o’r rhaglenni i bontio’r cenedlaethau yn eu dyddiau cynnar, ond roedd eu gwerth yn amlwg.<br><br>Mae’r enghreifftiau uchod yn dangos y gwahanol sectorau sydd wedi bod yn rhan o’r gwaith hyd yma: Addysg, Ymyrraeth Iechyd, Cymorth i Deuluoedd, a | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ceredigion Actif (Canolfannau Llesiant). | | |

| Iechyd a diogelwch | |
|---|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn nodi'n glir pa mor bwysig ydyw bod plant yn gallu profi risg a heriau | OREN | OREN | Mae’r Awdurdod Addysg Lleol ac ysgolion yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a allai fod yn heriol neu beri risg, ac mae disgyblion yn aml yn ymweld â chanolfannau antur awyr agored fel Llain neu Langrannog. Caiff pob gweithgaredd o’r math hwn ei gofnodi yn System Evolve sy’n cofnodi pob asesiad a chynllun risg.<br><br>Nid oes gan Uned Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol yr awdurdod lleol ddylanwad uniongyrchol dros ddarparu cyfleoedd chwarae yn yr awdurdod, ac eithrio chwarae mewn ysgolion. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Uned Iechyd a Diogelwch yn rhoi mewnbwn clir i ysgolion o ran eu hardaloedd a'u cyfarpar chwarae. Mae'n bwrw golwg dros asesiadau risg ysgolion ac yn darparu cymorth ac arweiniad i sicrhau bod y diwrnod ysgol yn rhoi'r profiad gorau posibl. | | |
| | Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn cynnwys yr ymagwedd risgiau a buddiannau tuag at asesiadau iechyd a diogelwch fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | OREN | OREN | Fel uchod. | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darparu yswiriant drwy gynllun yr Awdurdod Lleol i unrhyw ddarparwyr chwarae trydydd parti a chynghorau cymuned | COCH | COCH | Nid yw'r awdurdod lleol yn cynnig darparu yswiriant ar gyfer trydydd parti/cyngor cymuned ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny. | | |

**Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

**Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

Mae'r awdurdod lleol yn paratoi strategaeth i olynu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden 2014-2020. Y bwriad yw paratoi

Cynllun Datblygu Gweithgarwch Corfforol sy'n cyfrannu at Gynllun Iechyd a Llesiant ehangach.
Penderfynwyd mabwysiadu strategaeth ehangach sy'n rhoi sylw i Weithgarwch Corfforol i roi mwy o gydnabyddiaeth i'r cyfraniad y mae gweithgareddau fel chwarae a theithio llesol yn ei wneud o ran sicrhau bod pobl yn gorfforol weithgar ac i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu datblygu i gynyddu'r cyfraniad hwnnw.

Mae'r cyfrifoldeb dros chwarae yn yr awdurdod lleol yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant sy'n rhan o'r Porth Cymorth Cynnar, sef prif wasanaeth y Cyngor dros ddatblygu gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn cydnabod y posibilrwydd y gallai chwarae gael mwy o effaith ar iechyd a llesiant dinasyddion Ceredigion, a gwella'r cyfleoedd i gydweithio â mentrau eraill sy'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

**Defnyddiwch yr adran hon i ddwyn sylw at y llwyddiannau a welwyd yn sgil cydweithio ar draws meysydd polisi i wella cyfleoedd chwarae.**

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Digon o gapasiti yn yr awdurdod lleol i fynd ati i ddatblygu cyfleoedd chwarae mewn ffordd ragweithiol;
Prinder arian refeniw i ddatblygu cyfleoedd chwarae;
Buddsoddiad ysbeidiol gan Lywodraeth Cymru a diffyg buddsoddiad hirdymor;
Diffyg cydgysylltu o ran arian Llywodraeth Cymru, gyda llawer o gronfeydd unigol.

**Sut mae eu goresgyn?**
Drwy ailgynllunio trefniadau staffio'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant fel rhan o'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant, bwriedir creu capasiti ychwanegol yn yr awdurdod lleol i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn y sir.
Mwy o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleoedd chwarae drwy ddarparu cyllid mwy hirdymor, a mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir defnyddio'r cyllid hwnnw.

**Sylwadau:**

**Casgliad**

Mae'n amlwg o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 fod yna feysydd o arfer da iawn lle mae’r cynllunio a’r gefnogaeth ar gyfer cyfleoedd chwarae yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae yna o hyd anawsterau/diffygion y mae angen mynd i'r afael â nhw.
Mae'r camau canlynol wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gweithredu dros y tair blynedd nesaf:

- Gwella'r ddarpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig
- Gwella'r ddarpariaeth chwarae cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau bod cyfleoedd chwarae ‘un rhyw’ ar gael
- Sicrhau bod cyfleoedd chwarae hygyrch a hwylus i Ofalwyr Ifanc
- Cynnal Asesiadau Gwerth Chwarae ac Archwiliadau Mynediad
- Sicrhau bod ffordd briodol i bobl ifanc roi eu barn ar bolisi/ceisiadau cynllunio
- Ymchwilio i’r posibilrwydd o gofrestru Canolfannau Lles gydag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Helpu Darparwyr Chwarae i ddarparu amgylchedd chwarae amrywiol a difyr
- Gwella’r wybodaeth am chwarae hygyrch ar DEWIS
- Gweithio gyda Sustrans i hyrwyddo teithio llesol diogel i fannau chwarae
- Darparu datblygiad proffesiynol parhaus pwysig i weithwyr chwarae cyflogedig a di-dâl
- Cyflogi swyddog newydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu chwarae yng Ngheredigion
- Parhau i feithrin perthynas waith gref gyda phartneriaid allweddol
- Sicrhau bod Chwarae'n cael ei gydnabod a'i ddeall ar lefel strategol o fewn sefydliadau
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Ysgolion i sicrhau bod mannau chwarae amrywiol a difyr yn ein hysgolion.

**Ffordd ymlaen**

Mae'r Blaenoriaethau a restrir uchod wedi'u nodi mewn Cynllun Gweithredu Chwarae. Cytunwyd ar y camau gweithredu a’r targedau gyda'r timau sy'n cyfrannu. Mae rhai o'r camau hyn wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gweithredu'r timau unigol hyn ac mae eraill yn gwbl newydd. Caiff y Cynllun Gweithredu Chwarae ei fonitro'n rheolaidd drwy adolygu cynlluniau gweithredu’r timau yn ogystal â thrwy Ddatblygu Chwarae.

**Llofnod:** Alwyn Davies

**Dyddiad: 01.06.22**

**Camau gweithredu i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion / diffygion a gofnodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

**Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023**

| Mater | Blaenoriaethau | Targedau | Cysylltiadau â materion eraill | Adnoddau, gan gynnwys costau | Ffynhonnell ariannu (ffrydiau arian newydd neu rai sy'n bodoli eisoes) |
|---|---|---|---|---|---|
| Canllawiau Statudol – fframwaith polisi | Mynd i'r afael â'r gwendidau a bennwyd gan yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. | Llunio Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer Chwarae a'i roi ar waith. | Pob mater arall | Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant (amser swyddogion) | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| Mater A: Poblogaeth | **Amherthnasol** | **Amherthnasol** | **Amherthnasol** | **Amherthnasol** | **Amherthnasol** |
| Mater B: Diwallu anghenion amrywiol | Sicrhau bod darpariaeth ar gael mewn ardaloedd gwledig. | Cydweithio â RAY Ceredigion i ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan ac i gael hyfforddiant. Defnyddio swyddogion yn effeithiol, gan baratoi cynlluniau ar gyfer cyfleoedd lled-wledig a gwledig. | **D**<br>**F**<br>**H** | RAY Ceredigion<br>Y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br>Grant Cymunedol Ceredigion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer chwarae pur a chyfleoedd strwythuredig wedi'u cynllunio | Datblygu a darparu cyfleoedd i chwarae. Cydweithio â'r Canolfannau Llesiant, Cered, Theatr Felinfach a'r Urdd. Hyrwyddo cyfleoedd. | **D**<br>**G**<br>**I** | Y Canolfannau Llesiant<br>Cered<br>Yr Urdd | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| | Creu gweithgareddau priodol ar wahân ar gyfer bechgyn a merched pan fyddant yn troi'n ddeg oed ac mae eu crefydd/diwylliant yn eu hatal rhag cymysgu. | Sesiynau nofio a sblasio ar gyfer un rhyw yn unig yng nghyfleusterau'r Gwasanaeth Canolfannau Llesiant ac mewn cyfleusterau a weithredir gan ymddiriedolaethau cymunedol. | **D**<br>**F**<br>**I** | Y Groes Goch<br>Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant<br>Cyfleusterau a weithredir gan ymddiriedolaethau cymunedol | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| | Cydweithio â gofalwyr ifanc i sicrhau bod cyfleoedd priodol a hygyrch ar gael. | Sicrhau mynediad cyfartal priodol i Ganolfannau Llesiant ar sail cyfleoedd. | **D**<br>**F**<br>**I** | Yr Uned Gofalwyr<br>Y Canolfannau Llesiant | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae | Cwblhau asesiad o werth mannau chwarae dynodedig o ran cyfleoedd chwarae. | Datblygu dull cydgysylltiedig o weithredu ar y cyd | **F**<br>**I** | Y Gwasanaeth Cynllunio | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | â'r Gwasanaeth Cynllunio. | | | |
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal archwiliadau mynediad ym mhob man agored ac yn rhoi cynigion ar waith i wella mynediad a diogelwch. | Cynnal archwiliadau wedi'u hamserlennu o ardaloedd chwarae'r sir i asesu mynediad a diogelwch ac i wella lefelau'r ddarpariaeth. | **B**<br>**F**<br>**I** | Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan |
| | Creu systemau i sicrhau bod modd i bobl ifanc rannu eu barn am geisiadau cynllunio, oherwydd nid yw'n hawdd i blant a'u teuluoedd eu deall ar hyn o bryd. | Ystyried ffyrdd y gall plant a phobl ifanc fynegi eu barn am benderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar eu cyfleoedd i chwarae. | **F**<br>**I** | Y Gwasanaeth Cynllunio<br>Partneriaethau a Pherfformiad (y Tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant) | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth | Datblygu'r rhaglen Pobl Ifanc Egnïol ymhellach er mwyn i brosiectau ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog. | Byddai gweithgareddau blaenorol yn aml yn rhai strwythuredig wedi'u cynllunio – gellir cyfoethogi hyn ymhellach drwy gyflwyno | **G** | Canolfannau Llesiant<br>Y Tîm Gweithgarwch Corfforol a Chwarae | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rhaglenni thematig â chyfleoedd chwarae rhydd. | | | |
| | Ymchwilio i ddichonoldeb cofrestru darpariaeth y canolfannau hamdden yn ystod y gwyliau o dan reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. | Datblygu'r cymorth a ddarperir ar gyfer gofal plant o fewn yr awdurdod, a chynyddu nifer y cyfleoedd i deuluoedd gael gafael ar gymorth ariannol i dalu cost gofal plant. | **B**<br>**G** | Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant<br>Yr Uned Gofal Plant | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br>Defnyddio'r cymorth grant sydd ar gael |
| | Sicrhau bod darparwyr cyfleoedd chwarae'n deall ystyr amgylchedd chwarae cyfoethog. | Nid yw'r hyfforddiant presennol yn cynnwys chwarae. Bydd Swyddogion Gweithgarwch Corfforol a Chwarae'n darparu sesiynau mentora i ddarparwyr cyfleoedd chwarae. | **B**<br>**G** | Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant<br>Y Gwasanaeth Ieuenctid<br>Ysgolion<br>Dechrau'n Deg<br>Canolfannau i Deuluoedd<br>Meithrinfeydd | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae | Sicrhau bod plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn gallu mynd i sesiynau chwarae am ddim. | Adolygu'r modd y mae sesiynau chwarae a gomisiynir gan yr awdurdod lleol yn cael eu darparu i | **B** | Polisi a Pherfformiad<br>Y Grŵp Caledi | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br>Targedu unrhyw arian grant sy'n dod i law |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn yr ardaloedd cywir. | | Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| Mater F: Mynediad i le/darpariaeth | Gwella ymhellach yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ddigwyddiadau a darpariaeth chwarae. Gall darpariaeth nas comisiynir gan yr awdurdod lleol fod wedi'i chofnodi ar wefan Dewis Cymru ai peidio. | Erbyn hyn, mae manylion am ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae a chlybiau, ynghyd â'u manylion hygyrchedd, wedi'u rhestru ar wefan Dewis Cymru. Ceir dolen at y wefan ar dudalen we'r Cyngor am gyfleoedd chwarae.<br><br>Gwella ymhellach yr wybodaeth sydd ar gael drwy restru parciau ac ardaloedd chwarae cymdeithasau tai cymunedol.<br><br>Ychwanegu meysydd chwarae | **C**<br><br>**H** | DEWIS<br><br>Cymdeithasau tai | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | at wefan Dewis Cymru. | | | |
| | Sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cyrraedd darpariaeth chwarae'n ddiogel. | Parhau â'r drefn o fynd ati'n barhaus i fonitro ac i adolygu parthau 20mya/parthau diogel gerllaw ysgolion mewn ardaloedd preswyl | **I** | Diogelwch a Theithio Llesol<br><br>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br><br>Cyllid Teithio Llesol |
| Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae | Sicrhau bod y gweithlu Gofal Plant a Chwarae a gwirfoddolwyr yn gallu cael mynediad at gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus amrywiol. | Cydweithio â'r Uned Gofal Plant, y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae a RAY Ceredigion i gynnal cyrsiau priodol amrywiol. | **E**<br><br>**H** | Yr Uned Gofal Plant<br><br>RAY Ceredigion<br><br>Y Rhwydwaith Ardaloedd Chwarae<br><br>Gwirfoddolwyr | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes<br><br>Grant Cymunedol Ceredigion<br><br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan |
| | Cyflogi Swyddog Chwarae (Swyddog Gweithgarwch Corfforol a Chwarae) i helpu i gyflawni'r targedau a bennwyd yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022. | Bydd y swyddog newydd yn arwain ac yn cefnogi'r gwaith o lunio rhaglenni chwarae sy'n adlewyrchu ac yn diwallu anghenion pobl ifanc y sir. | **Pob un** | Y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant<br><br>Pob partner perthnasol | Grant Cymunedol Ceredigion<br><br>Chwaraeon Anabledd Cymru<br><br>Y gyllideb graidd<br><br>Chwaraeon Cymru |
| Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi | Cydweithio â phartneriaid allweddol i sicrhau nad oes gormod o holiaduron ac | Mynd ati i ymgysylltu â chymunedau | **G**<br><br>**I** | Partneriaethau a Pherfformiad (Data ac Ymchwil, ac | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymgyngoriadau sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. | mewn ffordd gydgysylltiedig. | | Ymgysylltu a Chynhwysiant)<br>Gofal Plant<br>Canolfannau Llesiant<br>Addysg<br>Partneriaid allanol | |
| Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu | Sicrhau bod pwysigrwydd chwarae'n dod i sylw'r swyddogion corfforaethol yng Nghyngor Sir Ceredigion. Sicrhau bod chwarae'n cael ei gydnabod a'i ddeall ar lefel strategol. | Cynnwys Rheolwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol y Porth Cymorth Cynnar a'r Gwasanaeth Addysg ym mhrif flaenoriaethau'r Rhaglen Chwarae.<br>Cadarnhau trefn i adrodd am y cynnydd a wneir o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer Chwarae ar ôl etholiadau mis Mai. | **G** | Porth Cymorth Cynnar<br>Gwasanaethau Ysgolion | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |
| | Cydweithio â'r Gwasanaeth Addysg i sicrhau bod plant yn gallu | Datblygu rhaglenni chwarae ar y cyd â'r Gwasanaeth | **G** | Porth Cymorth Cynnar | Cyllid craidd sy'n bodoli eisoes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael mynediad at amgylchedd chwarae cyfoethog yn ystod y diwrnod ysgol. | Addysg a'r Uned Gofal Plant a sicrhau bod y prif flaenoriaethau'n gydnaws â'i gilydd. | | Gwasanaethau Ysgolion | |